Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

2014–2015

Yn eich cefnogi chi a'ch penderfyniadau

gov.uk/opg

# Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

## 2014–2015

Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 60 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005

Cyfrifon a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Cyfrifon ac Adnoddau'r Llywodraeth 2000
Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Arglwyddi ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorchmynnwyd iddynt gael eu hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin 25 Mehefin 2015

HC 134

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2015**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch i: Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: **psi@nationalarchives.gsi.gov.uk**.

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint sy'n gysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.gov.uk/government/publications**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn **customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk**

ISBN Argraffu 9781474120531
ISBN y We 9781474120548

Wedi'i argraffu yn y DU gan Williams Lea Group ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 29051522 06/15

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau wedi'u hailgylchu.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3** |
| **Adroddiad strategol** | **5** |
| Cyflwyniad | 5 |
| Blaenoriaethau ac amcanion busnes 2014/15 | 6 |
| Diogelu rhai sy'n agored i niwed | 14 |
| Cyfreithiol | 17 |
| Newid | 19 |
| Cwynion | 21 |
| **Adroddiad y Swyddog Cyfrifyddu** | **23** |
| **Cynaliadwyedd** | **27** |
| **Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol** | **35** |
| **Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu** | **43** |
| **Datganiad llywodraethu** | **44** |
| **Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Senedd** | **58** |
| **Datganiadau ariannol** | **60** |
| **Nodiadau i'r cyfrifon** | **65** |
| **Atodiadau** | **83** |
| Cofnod ariannol pum mlynedd | 83 |
| Cyflawniadau perfformiad | 85 |

# Rhagair



Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod o drawsnewid parhaus i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG). Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at sicrhau bod y sgiliau, y bobl a'r systemau priodol gennym i gyflawni ein nod o gynnig gwasanaeth effeithlon, darbodus a hawdd ei gyrraedd i'n defnyddwyr.

Mae gwasanaethau digidol newydd yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr gael gafael ar ein gwasanaethau. Ein gwasanaeth Atwrneiaeth Arhosol (LPA) digidol oedd gwasanaeth digidol enghreifftiol cyntaf y llywodraeth i'w roi ar waith, ym Mai 2014, gan roi'r gallu i ddefnyddwyr gwblhau LPA ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus iddyn nhw gyda chymorth parod ar bob cam yn y broses.

Mae'r gwaith o ddatblygu dulliau arloesol eraill, gan gynnwys system adrodd digidol newydd i ddirprwyon, yn agos at ei orffen a byddant yn cael eu cyflwyno yn y flwyddyn i ddod. Eglurwyd ein hymrwymiad i ddatblygu gwasanaethau digidol rhagorol yn ein strategaeth ddigidol, a gyhoeddwyd ym Medi 2014, a byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwasanaethau gorau i ddefnyddwyr yn y maes pwysig hwn.


Rydym wedi cwblhau ein hadolygiad o'r ffordd rydym yn cynorthwyo a goruchwylio dirprwyon ac mae dull newydd o weithredu wedi'i gyflwyno. Y bwriad yw iddo fod yn gymesur ac ymatebol, a bydd yn rhoi'r lefel o gymorth a goruchwyliaeth sy'n fwyaf priodol i'r dirprwyon.

O ganlyniad i newidiadau yn y ffordd y mae ein timau diogelu'n gweithio, rydym bellach yn ymchwilio'n gyflymach i amheuon ynghylch cam-drin mewn achosion sydd heb fod yn gymhleth, gan leihau'r straen y gellir ei achosi i'r rheini sydd heb alluedd yn ogystal â dirprwyon ac atwrneiod. Rydym yn parhau â'n gwaith pwysig o hyrwyddo'r agenda ar ddiogelu gydag asiantaethau eraill ac eleni cynhaliwyd ein hail gyfarfod bord gron a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus.

Rydym hefyd wedi gweithio i wella'r gwasanaeth y mae busnesau'n ei gynnig i bobl sy'n arfer eu pwerau o dan atwrneiaethau neu orchymyn dirprwyaeth. Mae gwaith mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, yn ogystal â banciau a chymdeithasau adeiladu unigol, eisoes wedi helpu i wella'r gwasanaeth y mae'r sector ariannol yn ei gynnig. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos â Chymdeithas Alzheimer's i lunio canllawiau newydd ar gyfer atwrneiod, o dan her dementia'r Prif Weinidog.

Dylid nodi bod y mentrau pwysig hyn a rhai eraill wedi'u cyflwyno yng nghyd-destun cynnydd yn y galw am ein gwasanaethau. Bellach mae mwy nag 1.2 miliwn o LPA wedi'u cofrestru ac mae nifer y gorchmynion dirprwyaeth yr ydym yn eu goruchwylio wedi codi hefyd i 53,000.

Mae'r gwaith o osod sylfeini cadarn wedi dechrau. Yn awr gallwn ganolbwyntio ar ein cyfnod nesaf o drawsnewid, gan gymryd rhagor o gamau i wireddu ein gweledigaeth o gael ein cydnabod am ragoriaeth ac arloesedd ac am roi lle canolog i anghenion ein defnyddwyr ym mhob agwedd ar ein gwaith.



**Alan Eccles CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
18 Mehefin 2015

# Adroddiad strategol

## Cyflwyniad

Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cael ei benodi gan yr Arglwydd Ganghellor o dan Adran 57 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG), mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn bersonol atebol i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder am weithredu'r asiantaeth yn effeithiol, gan gynnwys y ffordd y mae'r asiantaeth yn gwario arian cyhoeddus ac yn rheoli ei hasedau.

Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cael cymorth gan OPG i gyflawni ei swyddogaethau statudol o dan Deddf Galluedd Meddyliol.

Mae cyfrifoldebau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cwmpasu Cymru a Lloegr (mae trefniadau ar wahân ar gyfer yr Alban ac ar gyfer Gogledd Iwerddon).

### Beth yw gwaith OPG?

Sefydlwyd OPG yn Hydref 2007 ac mae'n asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MOJ). Ei chylch gwaith yw cynorthwyo a galluogi pobl i gynllunio ymlaen ar gyfer gofalu am eu hiechyd a'u materion ariannol os byddant yn colli galluedd yn y dyfodol, a diogelu buddiannau pobl a all fod heb alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain.

Swyddogaethau craidd OPG yw:

- cofrestru atwrneiaethau arhosol ac atwrneiaethau parhaus (EPA) hŷn
- goruchwylio dirprwyon a benodwyd gan y Llys Gwarchod
- cadw'r cofrestrau o ddirprwyon, LPA ac EPA ac ymateb i geisiadau am chwilio'r cofrestrau
- ymchwilio i gwynion, neu honiadau am gam-drin, sydd wedi'u gwneud yn erbyn dirprwyon neu atwrneiod sy'n gweithredu o dan bwerau a gofrestrwyd.

### Ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid

Mae OPG yn gwasanaethu nifer o fathau o gwsmeriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys:

- rhoddwyr – pobl sydd wedi gwneud LPA neu EPA i warchod eu lles neu faterion ariannol os byddant yn colli galluedd yn y dyfodol
- atwrneiod – pobl sydd wedi'u penodi gan roddwyr i reoli eu lles neu faterion ariannol os byddant yn colli galluedd yn y dyfodol
- cleientiaid (a elwir yn 'P') – pobl sydd wedi colli galluedd ac y mae eu lles neu faterion ariannol yn destun achos sydd gerbron y Llys Gwarchod
- dirprwyon – unigolion lleyg neu broffesiynol neu awdurdodau (fel cyfreithwyr neu gynghorau) sydd wedi'u penodi gan y llys i reoli lles neu faterion ariannol y cleient
- rhanddeiliaid eraill – perthnasau i gleient neu roddwr, awdurdodau lleol, meddygon teulu neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill, elusennau, a'r sector cyfreithiol.

### Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Mae OPG yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Gweinidogion y Llywodraeth a oedd yn gyfrifol am OPG oedd:

- Y Gwir Anrhydeddus Chris Grayling AS, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
- Y Gwir Anrhydeddus Simon Hughes AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a Hawliau Sifil.

O fis Mai 2015, gweinidogion y Llywodraeth sy'n gyfrifol am OPG yw:

- Y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
- Caroline Dinenage AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder Teuluol.

Fel asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, ochr yn ochr â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (GLITEM), Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), mae nodau'r gwasanaeth yn unol â'r rheini ar agenda Trawsnewid Cyfiawnder y Weinyddiaeth Cyfiawnder: system gyfiawnder sy'n fwy effeithiol, effeithlon, darbodus ac ymatebol i'r cyhoedd.

I gael gwybod am ein cyflawniadau a chanlyniadau perfformiad, gweler tudalennau 85-90.

## Blaenoriaethau ac amcanion busnes 2014/15

Ein blaenoriaeth yn 2014/15 oedd parhau â'n rhaglen drawsnewid, gan wella ein perfformiad ymhellach wrth i'n llwyth gwaith gynyddu. Yn ein cynllun busnes ar gyfer 2014/15 roeddem wedi egluro ein blaenoriaethau, amcanion a gweithgareddau cyfatebol. Mae ein cyflawniadau ar yr amcanion hyn wedi'u nodi isod, ynghyd â'r dyddiad cyflawni.

Roedd OPG wedi gosod dwy flaenoriaeth ar gyfer 2014/15:

- byddwn yn cynnig lefel uchel o wasanaeth i'n cwsmeriaid
- byddwn yn parhau i gyflawni ein rhaglen drawsnewid.

### **Blaenoriaeth 1:** Byddwn yn cynnig lefel uchel o wasanaeth i'n cwsmeriaid

**Amcan 1**: Darparu gwasanaeth cyflym a chywir i bob ceisydd sy'n ceisio cofrestru cais am atwrneiaeth

| | Dyddiad Targed | |
|---|---|---|
| 1 – Gweithredu proses newydd i fesur a thracio ansawdd y cynhyrchion a ddarparwn | Meh-14 | Wedi'i gwblhau – System sicrhau ansawdd newydd wedi'i sefydlu a'i gweithredu. |
| 2 – Asesu'r manteision mewn gwahanol ddulliau o gysylltu â chwsmeriaid a gweithredu newidiadau/ffyrdd newydd o weithio os yw'n briodol | Meh-14 | Wedi'i gwblhau – Mae gweithwyr achos yn awr yn defnyddio'r e-bost a'r ffôn fel y dewis dull o gysylltu â chwsmeriaid. |

| | Dyddiad Targed | |
|---|---|---|
| 3 – Asesu'r manteision ac (os yw'n briodol) cyflwyno oriau gweithredu gwahanol ar gyfer y busnes | Medi-14 | Wedi'i gwblhau – Cytunwyd nad yw'n briodol amrywio oriau agor ar hyn o bryd. |
| 4 – Gweithredu cronfa ddata ar-lein o ganllawiau technegol sy'n cael ei diweddaru'n barhaus er mwyn gallu datrys achosion yn gyflymach | Medi-14 | Wedi'i gwblhau. |
| 5 – Datblygu modelau newydd ar gyfer canllawiau a chymorth i gwsmeriaid i alluogi gweithwyr achos i lunio LPA sy'n ateb gofynion pob cwsmer | Ebr-15 | Wedi'i gwblhau – cyhoeddwyd set o ganllawiau i gwsmeriaid ar GOV.UK. |
| 6 – Cynnal rhaglen gwella parhaus i sicrhau bod gwaith achos wedi'i seilio'n llwyr ar y cwsmer o ddechrau i ddiwedd y broses | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Adolygwyd gwahanol elfennau yn y broses ymgeisio a chyflwynwyd mesurau newydd. |
| 7 – Gwneud defnydd o adborth cwsmeriaid i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth a gynigir i gwsmeriaid mewn perthynas â'r offeryn LPA digidol | Maw-15 | Wedi'i gwblhau. |

**Amcan 2**: Goruchwylio a chynorthwyo dirprwyon i sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â Deddf Galluedd Meddyliol

| | Dyddiad Targed | |
|---|---|---|
| 8 – Gweithredu cam 1 yn yr adolygiad o oruchwyliaeth yn llawn, gan gwblhau'r newid i dimau sy'n darparu goruchwyliaeth yn ôl y math o ddirprwy a gweithredu'r model darparu newydd ar gyfer goruchwyliaeth | Rhag-14 | Wedi'i gwblhau – Mae timau ar wahân yn awr i gynorthwyo'r gwahanol fathau o ddirprwyon. Mae gwaith yn parhau ar y materion sy'n codi o'n hadolygiad o oruchwyliaeth. |
| 9 – Cyflwyno ffurflenni adrodd newydd i ddirprwyon a strategaeth adrodd ddiwygiedig | Rhag-14 | Wedi'i gwblhau – Mae'r ffurflenni newydd i ddirprwyon wedi'u cwblhau a'r strategaeth adrodd newydd yn cael ei gweithredu. |
| 10 – Adolygu a diweddaru'r set o wybodaeth, canllawiau a chymorth i ddirprwyon | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Rhoddir taflenni a chanllawiau i'r holl ddirprwyon newydd. Cytunwyd ar hyn â'r Llys Gwarchod. |
| 11 – Gwella'r dull o ffurfio, recriwtio a rheoli mewn perthynas â'r panel dirprwyon | Maw-15 | Yn parhau. |

**Amcan 3**: Cymryd camau prydlon ac effeithiol pan godir pryderon ynghylch gweithredoedd atwrnai neu ddirprwy

| | Dyddiad Targed | |
|---|---|---|
| 12 – Integreiddio'r prosesau o oruchwylio ac ymchwilio i ddirprwyon, er mwyn gwella'r cyfnodau ymateb | Rhag-14 | Wedi'i gwblhau – Mae'r tîm ymchwilio newydd ar waith. |
| 13 – Adolygu pwerau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, gan nodi cyfleoedd i ymateb yn well i bryderon ynghylch diogelu | Maw-15 | Wedi'i gwblhau. |
| 14 – Gwella proffil cenedlaethol y Gwarcheidwad Cyhoeddus o ran diogelu oedolion sydd mewn perygl | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi traddodi'r prif areithiau mewn gwahanol ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. |
| 15 – Dyfeisio a gweithredu proses ymchwilio llwybr carlam mewn achosion sydd heb fod yn gymhleth | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Mae'r broses llwybr carlam ar waith yn awr. |

**Amcan 4**: Cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a newid busnes yn effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol, yn unol â gofynion statudol ac egwyddorion llywodraethu a ddatganwyd

| | Dyddiad Targed | |
|---|---|---|
| 16 – Cytuno ar strategaethau ffioedd diwygiedig, gan gynnwys diweddaru polisïau ar gyfer caniatáu esemptio a pheidio â chodi tâl am ffioedd, gan ystyried newidiadau dichonol mewn deddfwriaeth er mwyn sicrhau tegwch i bob cwsmer | Rhag-14 | Wedi'i gwblhau. |
| 17 – Monitro a chofnodi'r manteision a geir o welliannau parhaus a gwelliannau digidol i ddangos i dalwyr ein ffioedd eu bod yn cael gwerth am arian | Maw-15 | Wedi'i gwblhau. |
| 18 – Cynnal mecanweithiau effeithiol i adnabod a rheoli risgiau i'r gallu i gyflawni amcanion a ddatganwyd | Maw-15 | Wedi'i gwblhau. |
| 19 – Rhoi cymorth i ddatblygu achosion busnes gan sicrhau bod gwerth am arian wedi'i ddatgan yn glir ac yn fesuradwy | Maw-15 | Wedi'i gwblhau. |
| 20 – Datblygu gwell modelau i rag-weld y galw er mwyn darparu gwasanaethau'n well i sylfaen gwsmeriaid ehangach | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Mae model rhagolygon gwell yn cael ei ddefnyddio. |

## Blaenoriaeth 2: Byddwn yn parhau i gyflawni ein rhaglen drawsnewid

**Amcan 5**: Parhau i wella ein ffordd o weithio a'n ffordd o ddarparu gwasanaethau

| | Dyddiad Targed | |
|---|---|---|
| 21 – Lansio system cefn swyddfa newydd mewn perthynas ag LPA | Meh-14 | Yn parhau. |
| 22 – Lansio offeryn digidol ar gyfer dirprwyon ac ymwelwyr | Meh-14 | Yn parhau. |
| 23 – Datblygu OPG yn batrwm o asiantaeth gwbl ddigidol – drwy lunio strategaeth ddigidol ar gyfer yr asiantaeth gyfan | Meh-14 | Wedi'i gwblhau – Strategaeth wedi'i chyhoeddi. |
| 24 – Lansio'r system cefn swyddfa newydd mewn perthynas â goruchwylio ac ymchwilio i ddirprwyon | Maw-15 | Yn parhau. |
| 25 – Gweithio ymhellach tuag at lansio offeryn i chwilio'r gofrestr electronig | Rhag-14 | Wedi'i gwblhau – Mae gwaith pellach yn mynd ymlaen yn awr i benderfynu pa wybodaeth a gaiff ei rhyddhau. |
| 26 – Cwblhau'r adolygiad sylfaenol o oruchwyliaeth a gweithredu'r canlyniadau priodol | Rhag-14 | Wedi'i gwblhau. |
| 27 – Gweithio gyda'r MOJ ac eraill i symud ymlaen (lle bo'n briodol) ag argymhellion Pwyllgor ad hoc Tŷ'r Arglwyddi ar Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Rydym wedi cymryd rhan mewn rhaglen o ddigwyddiadau ac wedi cydweithio'n agos ag adrannau llywodraeth eraill a sefydliadau eraill. |
| 28 – Dechrau defnyddio'r gwasanaeth Dweud Wrthym Unwaith i symleiddio'r rhyngweithio rhwng cwsmeriaid ac adrannau llywodraeth | Maw-15 | Wedi'i gwblhau'n rhannol – mae OPG yn cynnal trafodaeth â gwahanol adrannau am rannu data. Bydd egwyddorion Dweud Wrthym Unwaith yn cael eu dilyn. |
| 29 – Parhau i sefydlu gwelliannau parhaus ym mhob rhan o OPG | Maw-15 | Wedi'i gwblhau. |

**Amcan 6**: Deall mwy am ein cwsmeriaid a datblygu ffyrdd o fesur pa mor dda yr ydym yn diwallu eu hanghenion

| | Dyddiad Targed | |
|---|---|---|
| 30 – Datblygu arlwy digidol gyda chymorth i ategu offer ar-lein i ddirprwyon ac offer chwilio cofrestrau ar-lein | Rhag-14 | Wedi'i gwblhau. |
| 31 – Datblygu a lansio arlwy digidol gyda chymorth llawn i ategu'r offeryn LPA ar-lein digidol | Medi-14 | Wedi'i gwblhau. |
| 32 – Sefydlu mecanweithiau ar gyfer casglu adborth am bartneriaid digidol sydd wedi cael cymorth | Medi -14 | Wedi'i gwblhau. |
| 33 – Gweithredu proses i gomisiynu ymchwil | Medi -14 | Wedi'i gwblhau. |
| 34 – Cyflwyno adroddiadau chwarterol ar fodlonrwydd cwsmeriaid gan ddefnyddio gwybodaeth o bob rhan o'r busnes | Maw-15 | Wedi'i gwblhau. |
| 35 – Sicrhau bod mecanweithiau ar waith i gasglu'r holl adborth gan gwsmeriaid o fewn OPG a'i fod yn cael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Yn gysylltiedig â gweithgaredd 34 uchod. |

**Amcan 7**: Sicrhau bod ein gweithlu'n cael ei ddatblygu a'i gynnwys mewn ffordd sy'n caniatáu i ni gyflawni ein busnes yn fwy effeithiol ac effeithlon

| | Dyddiad Targed | |
|---|---|---|
| 36 – Datblygu cynllun recriwtio sy'n caniatáu i ni sicrhau ein bod yn gallu cael y bobl briodol ar yr adeg briodol | Meh-14 | Wedi'i gwblhau. |
| 37 – Gweithredu'r argymhellion gan y gweithgor ar absenoldeb oherwydd salwch er mwyn gostwng y niferoedd cyfartalog sy'n absennol oherwydd salwch | Meh-14 | Wedi'i gwblhau – Mae presenoldeb yn fater sy'n galw am sylw o hyd yn OPG ac mae cynlluniau wedi'u gwneud ar gyfer rhagor o waith yn y maes hwn. |
| 38 – Ymchwilio a gweithredu ffyrdd o wneud gwell defnydd o'n gweithlu presennol; er enghraifft, proses symudiadau wedi'u rheoli | Ion-15 | Wedi'i gwblhau. |
| 39 – Digidoleiddio'r offer dysgu a datblygu er mwyn hybu'r symudiad cyffredinol at ddigidoleiddio | Medi-14 | Wedi'i gwblhau – Mae nifer o offer dysgu digidol newydd wedi'u cyflwyno. |

| | Dyddiad Targed | |
|---|---|---|
| 40 – Cynllunio dull o fesur ein galluogrwydd arwain, ein llinell sylfaen a monitro'r canlyniadau | Medi-14 | Wedi'i gwblhau. |
| 41 – Parhau i weithredu'r cynlluniau ar gyfer olyniaeth, galluogrwydd, talentau a swyddi gwag mewn partneriaeth â'r Partner Busnes Adnoddau Dynol | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Mae cynlluniau olyniaeth yn cael eu paratoi a byddant yn cael eu gweithredu yn y flwyddyn busnes nesaf 2015/16. Rheolir swyddi gwag yn unol â gweithdrefnau newydd pwyllgor rheoli OPG. |
| 42 – Gweithredu strategaeth i ddatblygu ein galluogrwydd gan gynnwys rhaglen datblygu arweinyddiaeth | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Mae'r strategaeth hon ar waith yn awr. Byddwn yn mesur llinell sylfaen bresennol ein galluogrwydd drwy broses hunanasesu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. |

**Amcan 8**: Gweithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i ni i wella'r canlyniadau i gwsmeriaid

| | Dyddiad Targed | |
|---|---|---|
| 43 – Ffurfio'r partneriaethau sydd eu hangen i sicrhau na fydd y rheini sydd heb y gallu i gyrraedd gwasanaethau digidol yn cael eu cau allan os byddant am eu defnyddio | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Darparwyd ein gwasanaethau digidol â chymorth ar gyfer LPA yn llwyddiannus mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector. |
| 44 – Datblygu set o offer digidol fel ffordd o gynnig canllawiau a gwybodaeth i sefydliadau sy'n bartneriaid i ni | Chw-15 | Yn parhau – Mae pecyn e-ddysgu wedi'i ddatblygu ar gyfer y sector ariannol i helpu staff y rheng flaen i gael gwell dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau atwrneiod. |
| 45 – Pennu partneriaid dichonol newydd a all helpu OPG i ehangu'r cwmpas demograffig ar gyfer LPA a sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i bawb sydd am eu defnyddio | Meh-14 | Yn parhau – Ffurfiwyd perthnasoedd newydd â sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, darparwyr tai cymdeithasol, a grwpiau ffydd. Mae gwaith yn parhau yn y maes pwysig hwn. |

| | Dyddiad Targed | |
|---|---|---|
| 46 – Parhau i gefnogi menter Her Dementia y Prif Weinidog | Rhag-14 | Wedi'i gwblhau – Mae OPG wedi cadeirio grŵp gorchwyl yn llwyddiannus i ddatblygu a lansio canllawiau Cymdeithas Alzheimer's ar rannu gwybodaeth – i hybu'r rhyngweithio rhwng darparwyr gwasanaethau, pobl sy'n byw gyda dementia, a'u gofalwyr. Mae OPG yn parhau i gefnogi prosiectau eraill sydd wedi'u sefydlu gan grŵp hyrwyddwyr y Prif Weinidog. |
| 47 – Ymchwilio i gyfleoedd i fenthyca neu secondio staff i mewn ac allan o OPG a sefydliadau eraill y tu allan i'r MOJ | Rhag-14 | Wedi'i gwblhau – Secondiwyd dau aelod staff o awdurdodau lleol i'n tîm cydymffurfiaeth ac rydym yn chwilio am ragor o gyfleoedd i secondio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion. |
| 48 – Parhau i weithio gyda'r sector cyfreithiol ac eraill, sy'n cynorthwyo ein cwsmeriaid, i hybu'r defnydd o wasanaethau digidol presennol a newydd | Rhag-14 | Yn parhau. Rydym wedi cysylltu â'r ffyrmiau cyfraith a gofrestrodd y niferoedd mwyaf o atwrneiaethau i gael gwybod eu barn am wasanaethau digidol presennol. Mae hyn wedi cyfrannu at welliannau i'n hofferyn LPA ar-lein. Byddwn yn datblygu'r gwaith hwn yn 2015/16. |
| 49 – Ffurfio perthnasoedd agosach sy'n fanteisiol i'r ddwy ochr gyda'r sector ariannol er mwyn darparu profiad gwell i'n cwsmeriaid wrth iddynt ddefnyddio LPA neu orchymyn dirprwyaeth | Maw-15 | Yn parhau. Rydym wedi datblygu perthnasoedd gweithio cryf â'r sector ariannol, gan gwmpasu cyrff rheoleiddio a masnach yn ogystal â banciau a chymdeithasau adeiladu unigol. Mae'r gwaith hwn wedi codi ymwybyddiaeth o waith OPG ac wedi gwella'r gwasanaeth y mae banciau a chymdeithasau adeiladu'n ei gynnig i atwrneiod a dirprwyon. |

**Amcan 9**: Gweithio i godi ymwybyddiaeth a hybu dealltwriaeth y cyhoedd a'u defnydd o LPA

| | Dyddiad Targed | |
|---|---|---|
| 50 – Manteisio ar unrhyw gyfleoedd addas yn y cyfryngau yn ystod y flwyddyn, fel Money Box Live ac erthyglau yn y wasg arbenigol | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Mae nifer o ymddangosiadau mewn darllediadau, yn ogystal â'n hymwneud â'r wasg arbenigol, ranbarthol a chenedlaethol, wedi helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o LPA a'r angen i gynllunio ymlaen. |
| 51 – Cyhoeddi'r canfyddiadau o arolwg Ipsos MORI i dynnu sylw at y camsyniadau a'r rhagdybiaethau ynghylch LPA a hyrwyddo cynllunio ymlaen | Ebr-14 | Wedi'i gwblhau. |
| 52 – Cynnal ymgyrch benodol i godi ymwybyddiaeth o LPA | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Roedd ymgyrch dros gyfnod o fis yn y cyfryngau cymdeithasol – Choice not Chance – wedi tynnu sylw at yr angen i gynllunio ymlaen. Ei hamcan oedd codi ymwybyddiaeth o LPA yn ogystal ag ewyllysiau a rhoi organau. |
| 53 – Gweithio gyda sefydliadau i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o LPA, lle bo'n briodol, ymysg y rhai sy'n eu defnyddio drwy eu gwefannau a dulliau priodol eraill | Rhag-14 | Wedi'i gwblhau – Darparwyd deunydd a'i ansawdd wedi'i sicrhau am OPG ar gyfer prif wefan newydd Deddf Galluedd Meddyliol gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth a oedd wedi'i gomisiynu gan yr Adran Iechyd. |
| 54 – Bod yn bresennol mewn cynadleddau/ digwyddiadau priodol a chwilio am gyfleoedd i gyflwyno areithiau i hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o LPA | Maw-15 | Yn parhau. Rydym wedi bod mewn nifer o gynadleddau i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o LPA ac OPG, yn enwedig yn y sector iechyd. Drwy ddysgu o'n hymchwil i ddefnyddwyr, rydym wedi targedu grwpiau mwy anodd eu cyrraedd yn benodol a'r sectorau hynny lle rydym yn ceisio gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid. |
| 55 – Manteisio ar y cyfle a gynigiwyd gan Bwyllgor Dethol ad hoc Tŷ'r Arglwyddi ar Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i weithio gydag eraill i godi ymwybyddiaeth o LPA | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Roeddem wedi cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a'r GIG i gynnal cynlluniau treialu i hyrwyddo LPA a hybu prif wefan Deddf Galluedd Meddyliol. |

| | Dyddiad Targed | |
|---|---|---|
| 56 – Parhau i weithio ar y cyd â sefydliadau fel Cymdeithas Bancwyr Prydain (BBA) a sefydliadau ariannol eraill i godi ymwybyddiaeth o LPA a gwella profiad y cwsmer | Maw-15 | Wedi'i gwblhau – Roeddem wedi gweithio gyda Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o LPA. Roeddem hefyd wedi gweithio gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar ymchwil cwsmeriaid bwysig. Mae gennym berthnasoedd gwaith da hefyd â'r BBA a Chymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu. |

# Diogelu rhai sy'n agored i niwed

## Cofrestru atwrneiaethau

Rydym wedi gweld cynnydd pellach a chyflymach yn nifer y ceisiadau am LPA a gostyngiad bach pellach yn nifer yr EPA a gofrestrwyd.

| Cafwyd | 13/14 | 14/15 | % y Twf |
|---|---:|---:|---:|
| LPA | 295,000 | 395,000 | +33.9% |
| EPA | 16,000 | 15,000 | -6.2% |
| CYFANSWM | 311,000 | 410,000 | +31.8% |

Cafwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y ceisiadau am LPA yn chwarter olaf 2013/14. O ganlyniad i hyn, erbyn dechrau blwyddyn busnes 2014/15 roedd ôl-groniad o gofrestriadau LPA. Y cyfnod hiraf ar gyfer clirio achosion oedd hyd at 84 o ddiwrnodau mewn nifer bach o achosion.

Rhoddwyd cynllun adfer ar waith ac erbyn Mehefin 2014 roedd yr Amser Clirio Cyfartalog Gwirioneddol (ACCG) yn ôl o fewn 10 niwrnod i'n ACCG o 40 niwrnod. Roedd adnoddau staffio ychwanegol wedi'u cyflwyno erbyn mis Medi, gan ddod â ni'n ôl o fewn y cyfnod targed ac rydym wedi parhau o fewn y cyfnod targed ers hynny. Erbyn Rhagfyr 2014 cawsom ein perfformiad gorau hyd yn hyn ac, mewn un wythnos, roedd ein ACCG yn 27 diwrnod. Mae'r cyflawniad hwn yn arwyddocaol iawn o gofio bod nifer y ceisiadau'n uwch na'r hyn a ragwelwyd drwy gydol y flwyddyn busnes.

Roedd y cynnydd yn nifer y ceisiadau wedi rhoi pwysau mawr ar dechnoleg sy'n heneiddio ac rydym wedi gweithio saith niwrnod yr wythnos ers Rhagfyr 2014 i sicrhau bod ceisiadau'n cael eu prosesu o fewn y cyfnod targed. Mae systemau sganio a rheoli achosion newydd yn cael eu datblygu i ganiatáu i ni brosesu'r nifer cynyddol pellach o geisiadau a ragwelir.

Ar ôl ei adfer, parhaodd ein perfformiad cyson cryf er gwaethaf cyfyngiadau ar weithleoedd o ganlyniad i dwf yn nifer y staff.

## Canolfan cyswllt cwsmeriaid

Cafodd y ganolfan cyswllt cwsmeriaid 271,000 o alwadau yn 2014/15, cynnydd o 23,000 (9%) oddi ar y flwyddyn flaenorol. Yr amser aros cyfartalog oedd 64 eiliad, sydd o fewn 10% i'n

huchelgais o ran perfformiad. Mae niferoedd y staff wedi parhau'n sefydlog ac rydym wedi cynyddu ein cynhyrchiant drwy wella'n barhaus.

O ganlyniad i gyflwyno technoleg canolfan alwadau newydd, mae'r ganolfan alwadau'n gallu ymgymryd â gweithgareddau mwy amrywiol. Mae hyn yn rhoi mwy o allu i ni ymateb i hapddigwyddiadau hefyd, gan ein bod yn gallu trosglwyddo gweithrediadau teleffoni rhwng dau adeilad yn ôl yr angen.

Roedd y ganolfan gyswllt a'n tîm pecynnau ymgeisio wedi gweld cyfnodau prysur iawn o ganlyniad i weithgareddau ar deledu a chyfryngau eraill ynghylch LPA. Roedd hyn wedi creu heriau mawr a rhai ôl-groniadau dros dro wrth anfon pecynnau ymgeisio. Daethpwyd â'r amseroedd yn ôl o fewn y cyfnod targed o fewn pedair wythnos.

## Goruchwylio dirprwyon

Os yw rhywun sy'n colli galluedd meddyliol heb benodi atwrnai cyn hynny, bydd y Llys Gwarchod yn penodi dirprwy i wneud penderfyniadau ar ei ran. Mae'r dirprwyon hyn yn cael eu goruchwylio gan OPG.

Mae nifer y gorchmynion dirprwyaeth y mae OPG yn eu goruchwylio wedi cynyddu o ychydig llai na 50,000 yn Ebrill 2014 i fwy na 53,000 ar ddiwedd blwyddyn busnes 2014/15, cynnydd o tua 6%. Mae hyn yn dilyn cynnydd o 9% yn 2013/14.

Er gwaethaf yr heriau a gododd o ganlyniad i'r cynnydd hwn, roeddem yn gallu cyrraedd neu ragori ar bron pob un o'n dangosyddion perfformiad allweddol, gan wella gwasanaethau i gwsmeriaid a thrwy hynny diogelu pobl a all fod heb alluedd yn well.

Yr unig eithriad i hyn oedd y cyfnod cyfartalog a gymerwyd i gael adroddiad blynyddol gan ddirprwyon, a oedd ar ddiwedd y flwyddyn yn 42 ddiwrnod ar ôl y dyddiad yr oedd yr adroddiadau i fod i ddod i law, ychydig y tu allan i'n cyfnod targed o 40 niwrnod. Cyflawnwyd hyn drwy ganolbwyntio ar gamau i leihau nifer y dirprwyon a oedd wedi methu ag adrodd am fwy na blwyddyn: roedd hyn yn golygu bod nifer mawr o hen adroddiadau wedi dod i law y tu allan i'r cyfnod targed. Ym Mehefin 2013, nifer yr hen adroddiadau a oedd heb ddod i law oedd 1,586; erbyn diwedd Mawrth 2015 roedd y ffigur hwn wedi gostwng i 61.

Roeddem yn bwriadu cwblhau ein cysylltiadau cyntaf â dirprwyon lleyg a phroffesiynol newydd o fewn 35 niwrnod, er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth yn gynnar yn eu penodiad. Mae hyn yn golygu gwneud galwad gynefino ragarweiniol i ddirprwyon lleyg neu broffesiynol newydd o fewn 35 niwrnod. Roeddem wedi rhagori ar ein targed presennol ar gyfer cyflawni hyn mewn 75% o achosion, gan gyrraedd 96%. Roeddem wedi gwella'r cymorth a roddir i ddirprwyon ymhellach yn y flwyddyn gyntaf drwy gyflwyno galwadau dilynol ar ôl chwe mis. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod y dirprwy'n glir o hyd ynghylch ei rôl ac yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb i gyflwyno adroddiad.

Rydym yn dechrau gweld y budd o'r cysylltiadau cyntaf hyn gan fod mwy o adroddiadau dirprwyon yn cael eu cwblhau'n brydlon bellach. Yr amseroedd cwblhau yn Chwefror a Mawrth 2015 oedd 38 diwrnod a 36 diwrnod yn y drefn honno. Y cyfnod cyfartalog a gymerwyd i adolygu'r adroddiad blynyddol oedd 13 diwrnod, o'i gymharu â chyfnod targed o 15 niwrnod gwaith. Mae hyn yn caniatáu i ni roi sylw prydlon i unrhyw bryderon.

Cwblhawyd y rhaglen ar gyfer adolygu 40% o ddirprwyaethau proffesiynol ac awdurdod lleol, ac roedd 1,069 ohonynt wedi'u hadolygu. Cyflawnwyd hyn drwy gyfuniad o ymweliadau sicrwydd, adolygiadau desg o achosion ac adolygiad llawn o adroddiadau blynyddol y dirprwyaethau. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus fod y dirprwy'n gweithredu'n unol â'i orchymyn llys.

## Diweddariad ar yr adolygiad o oruchwyliaeth

Roeddem wedi adrodd ar ganfyddiadau ein hadolygiad sylfaenol o oruchwyliaeth yn Rhagfyr 2014. Roedd hyn wedi tynnu sylw at nifer o ffyrdd o wella'r modd yr ydym yn goruchwylio dirprwyon ac o sicrhau ein bod yn rhoi cymorth a goruchwyliaeth sy'n gymesur ac ymatebol.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Senedd a gellir ei weld yn:
**www.gov.uk/government/publications/review-of-deputy-supervision-public-guardians-report-to-parliament**

Mae nifer o'r dulliau newydd a argymhellwyd yn yr adroddiad wedi'u rhoi ar waith eisoes. Er enghraifft, rydym bellach yn trin pob achos fel un unigryw, gan asesu risg a rhoi cymorth yn ôl yr angen yn hytrach na dilyn gweithdrefnau penodedig yn ôl y math o achos. Rydym hefyd yn delio â phob achos o'r dechrau i'r diwedd, gan feithrin perthynas â'r dirprwy, datrys materion wrth iddynt godi ac ymyrryd mewn ffordd briodol.

Rydym hefyd wedi ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid fel Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (ADASS), Cymdeithas Dirprwyon Awdurdodau Proffesiynol (APAD), y Swyddfa Costau Llysoedd Uwch a Solicitors for the Elderly, gan ddefnyddio eu hadborth wrth ystyried gwelliannau yn y dyfodol. Mae staff newydd yn elwa hefyd o gael mwy o gefnogaeth a hyfforddiant. Darparwyd wyth modiwl e-ddysgu eleni, a oedd yn caniatáu i staff ddysgu ar-lein wrth eu pwysau.

Mae adborth cynnar yn dangos bod dirprwyon yn croesawu newidiadau yn ein dull o oruchwylio. Rydym yn hyderus ei fod yn parhau i wella dealltwriaeth dirprwyon o'u rôl yn ogystal â'r cymorth a'r gefnogaeth y maent yn eu rhoi i'r rheini a all fod heb alluedd. Bydd y cyswllt â dirprwyon yn gwella ymhellach pan fydd sianeli digidol newydd yn cael eu gweithredu'n llawn yn 2015/16.

Byddwn yn parhau i weithredu'r newidiadau mewn goruchwyliaeth a ddisgrifiwyd yn ein hadroddiad i'r Senedd drwy gydol 2015/16.

## Ymchwilio a diogelu

Atgyfeiriwyd cyfanswm o 1,970 o achosion newydd ynghylch diogelu at OPG yn ystod 2014/15, sy'n is na'r ffigur o 2,200 ar gyfer 2013/14. Cafwyd atgyfeiriadau ynghylch diogelu o nifer o ffynonellau, gan gynnwys perthnasau, awdurdodau lleol, cartrefi gofal a sefydliadau ariannol.

Lle nad oedd achosion yn addas ar gyfer ymchwilio, cynigiwyd cyngor neu cyfeiriwyd y rhai a oedd wedi'u cyflwyno at asiantaeth briodol fel yr awdurdod lleol neu'r heddlu. Ar ôl asesu'r risg, aethpwyd ymlaen i ymchwilio'n llawn i 743 o achosion, ffigur sy'n 18% yn uwch na'r flwyddyn ddiwethaf. Cwblhawyd 695 o achosion o fewn y flwyddyn. Er bod y niferoedd yn fwy, cwblhawyd yr ymchwiliadau o fewn 67 diwrnod ar gyfartaledd, gan wella ar berfformiad y flwyddyn ddiwethaf a rhagori ar ein nod o 75 niwrnod.

Un o'n prif amcanion yw cymryd camau prydlon ac effeithiol pan godir pryderon ynghylch gweithredoedd atwrneiod neu ddirprwyon. Treialwyd gweithdrefn llwybr cyflym o'r enw 'ymchwilio

i agwedd' i symud ymlaen yn gyflymach ag ymchwiliadau i amheuon am gam-drin mewn achosion a oedd heb fod yn gymhleth. O'r 50 o achosion yn y cynllun peilot, roedd 25 wedi'u cwblhau o fewn 42 ddiwrnod gwaith ar gyfartaledd, ymhell o fewn o cyfnod targed o 75 niwrnod ar gyfer ymchwiliadau llawn. Mewn saith o'r 25 o achosion a gwblhawyd, roedd angen ymchwilio ymhellach i faterion a oedd y tu allan i gwmpas yr ymchwiliad gwreiddiol. Drwy ddatrys achosion yn gyflym, ceir llai o effaith ar atwrneiod a dirprwyon a llai o straen ar y person a all fod heb alluedd. Mae'r dull newydd hwn wedi'i gynnwys yn y busnes arferol.

Yn Rhagfyr 2014, roeddem wedi cynnal ein hail gyfarfod bord gron ar ddiogelu yn Nhŷ'r Arglwyddi, gan barhau i feithrin perthnasoedd gweithio cryf â sefydliadau sy'n bartneriaid i ni ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. Cododd nifer o fentrau o'r cyfarfod bord gron gan gynnwys gweithdai codi ymwybyddiaeth mewnol, hyfforddiant ar y Ddeddf Gofal a fforwm mewnol cyntaf OPG ar ddiogelu a gynhaliwyd ym Mawrth 2015. Roedd hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'n meysydd gwaith a bydd yn helpu i sicrhau ymateb cyson a chydgysylltiedig i anghenion am ddiogelu.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos iawn â'r sefydliadau allanol sy'n darparu bondiau gwarant i ni, y Llys Gwarchod, awdurdodau lleol a'r heddlu, i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n defnyddwyr. Roedd OPG yn falch o groesawu dau secondai gwaith cymdeithasol a'n helpodd i feithrin gallu a dealltwriaeth o waith diogelu. Bydd eu mewnbwn a'u barn yn cael eu hystyried mewn gwaith adolygu pellach yn 2015/16.

Un prif amcan a oedd wedi'i ddwyn ymlaen o flynyddoedd blaenorol oedd datblygu'r dull o ddatrys materion gyda dirprwyon ac atwrneiod, heb fod angen troi at y Llys Gwarchod, drwy feithrin gallu mewnol ar gyfer cyfryngu. Cynhaliwyd cynllun peilot rhwng Rhagfyr 2013 a Mawrth 2015. Nodwyd 56 o achosion lle byddai cyfryngu o fudd i bartïon. Roedd cyfryngu wedi llwyddo yn y pen draw mewn naw o'r achosion hyn, ac ym mhob un o'r rhain cafwyd cytundeb ffurfiol boddhaol. Roedd hyn yn osgoi'r angen i OPG ymchwilio ymhellach neu gyfeirio'r achos at y Llys Gwarchod, felly roedd mantais i bob un o'r partïon. Bydd gwerthusiad o'r cynllun peilot yn cael ei gyflwyno i fwrdd OPG ar ddechrau'r flwyddyn busnes newydd.

## Cyfreithiol

### Ceisiadau i lys

Mae OPG yn drafftio ac yn cyflwyno ceisiadau ac yn cynrychioli'r Gwarcheidwad Cyhoeddus mewn gwrandawiadau yn y Llys Gwarchod. Yn 2014/15, cafodd 254 o geisiadau eu drafftio a'u cyflwyno i'r Llys Gwarchod. Mae hyn yn 10.9% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y ceisiadau'n cynnwys rhai am ddirymu gorchmynion neu offerynnau dirprwyaeth, rhewi cyfrifon a chyfarwyddo atwrnai neu ddirprwy i ddangos cyfrifon.

Cafodd y Gwarcheidwad Cyhoeddus ei gynrychioli mewn 46 o wrandawiadau ac mae 17 o ddyfarniadau pwysig wedi'u cyhoeddi yn www.bailii.org/ew/cases/EWCOP/. Y rhain yw:

- ID The Public Guardian and BW & MD [2015] EWCOP 19
- The Public Guardian and MP [2015] EWCOP 21
- The Public Guardian and BB, RB, WY [2015] EWCOP 7
- The Public Guardian and BW [2015] EWCOP 9
- The Public Guardian and GB, SG & London Borough of Bromley [2015] EWCOP 6
- The Public Guardian and IT, PT, MT [2015] EWCOP 10
- The Public Guardian and JM & Associated Newspapers Limited [2014] EWCOP 7

- The Public Guardian and JW [2014] EWCOP B24
- The Public Guardian and MD, WD and the London Borough of Brent [2014] EWCOP12
- The Public Guardian and DH [2014] EWCOP 15
- The Public Guardian and AW and DH [2014] EWCOP 28
- The Public Guardian and AS and Essex County Council [2014] EWCOP 36
- The Public Guardian and AC and JC [2014] EWCOP 41
- The Public Guardian and Marvin [2014] EWCOP 47
- The Public Guardian and Miles and Others [2014] EWCOP 40
- The Public Guardian and CT and EY [2014] EWCOP 51
- The Public Guardian and VT [2014] EWCOP 52

Mae drafftio a chyflwyno ceisiadau a chynrychioli'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn galw am gydweithredu agos rhwng ein tîm ceisiadau llys a'n timau ymchwilio, diogelu a goruchwylio. Mae hefyd yn galw am gydweithio â sefydliadau sy'n bartneriaid i ni sy'n cynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, cartrefi gofal, sefydliadau ariannol a chyfreithwyr yn ogystal ag atwrneiod a dirprwyon.

Ers Awst 2014, rydym wedi cyflwyno 560 o geisiadau am hollti i'r Llys Gwarchod lle'r oedd LPA yn cynnwys darpariaethau aneffeithiol a oedd yn atal y Gwarcheidwad Cyhoeddus rhag cofrestru'r offeryn.

## Ymwelwyr a dirprwyon panel

Roedd ymwelwyr y Llys Gwarchod wedi cwblhau 10,650 o ymweliadau yn ystod y flwyddyn i ategu gweithgareddau goruchwylio ac ymchwilio'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Roedd ymweliadau ymchwilio'n cael eu comisiynu'n gynt o ganlyniad i welliannau yn y broses. Ers Ionawr 2015, mae 99.4% o'r cyfarwyddiadau wedi'u rhoi i'r ymwelydd o fewn 24 awr ar ôl comisiynu ymweliad gan reolwr achos neu ymchwilydd. Mae hyn wedi ein helpu i roi blaenoriaeth i achosion lle'r oedd amheuaeth o gam-drin.

Cynhaliwyd cynadleddau ar gyfer ymwelwyr arbennig ac ymwelwyr cyffredinol yn Birmingham, Llundain a Manceinion. Pwrpas y rhain oedd sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu diweddaru am faterion sy'n effeithio ar eu rôl a'n bod ni'n defnyddio adborth ganddynt i wella'r gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn, roeddem wedi recriwtio pum ymwelydd cyffredinol a phedwar ymwelydd arbennig newydd.

Lansiwyd ymweliadau sicrwydd newydd OPG drwy naw digwyddiad hyfforddi i ymwelwyr. Bydd yr ymweliadau sicrwydd newydd hyn ar gyfer dirprwyon proffesiynol ac awdurdod lleol yn helpu i sicrhau eu bod yn cael lefel briodol o gymorth a goruchwyliaeth a'u bod yn cyrraedd y safon ofynnol. Cafwyd bod yr ymweliadau a gynhaliwyd hyd yn hyn yn llwyddiannus iawn. Eleni, bydd y rhain yn cael eu hategu drwy gyflwyno safonau newydd i ddirprwyon. Mae'r safonau'n darparu rhestr wirio gynhwysfawr i ddirprwyon sy'n disgrifio'r arferion gorau ar gyfer rheoli materion eu cleientiaid.

Treialwyd proses newydd ar gyfer adborth ar berfformiad ymwelwyr yn 2014/15. Roedd y broses hon yn un lle'r oedd yr ymwelwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan OPG yn rhoi adborth adeiladol manwl ar adroddiadau oedd wedi'u ffeilio gan ymwelwyr cyffredinol a oedd yn gweithio o dan gontract. Bydd hyn yn gwella safon adroddiadau ymwelwyr ymhellach. Bydd y broses hon yn cael ei rhoi ar waith ym mlwyddyn busnes 2015/16 a bydd yn rhan o'r broses arfarnu ar gyfer ymwelwyr.

Mae OPG yn gweinyddu'r panel dirprwyon y mae'r Llys Gwarchod yn ei ddefnyddio mewn achosion lle nad oes neb arall yn gallu neu'n barod i weithredu fel dirprwy. Yn 2014/15, cafwyd 532 o atgyfeiriadau at y panel dirprwyon, a chafwyd 17 o ymweliadau sicrwydd â dirprwyon panel. Hefyd cafwyd tri neu bedwar ymweliad â chleientiaid pob un o'r dirprwyon panel a oedd wedi cael ymweliad sicrwydd.

Pwrpas y prosiect ar gyfer amrywiaethu'r panel dirprwyon oedd ehangu profiad ac arbenigedd y panel. Roedd OPG wedi ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid yn y trydydd sector er mwyn adnabod y ffactorau sy'n rhwystro elusennau rhag ymgymryd â gwaith dirprwyaeth. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2015/16.

Dechreuwyd ar y broses o ddenu aelodau newydd i'r panel yn Chwefror 2015, a chafwyd mwy na 450 o geisiadau. Bydd y panel newydd o tua 70 o ddirprwyon yn dechrau gweithio ledled Cymru a Lloegr ar ddechrau'r flwyddyn busnes newydd. Bydd y panel newydd yn cynnig amrywiaeth fawr o sgiliau a phrofiad fel y gellir darparu dirprwy addas ar gyfer pob cleient sydd â'i angen.

# Newid

## Digidol

Mae OPG wedi ymrwymo i gyflawni agenda ddigidol y llywodraeth ac mae wedi bod ar y blaen wrth ddefnyddio dulliau digidol i gwrdd ag anghenion ei defnyddwyr. Y gwasanaeth digidol ar gyfer LPA oedd gwasanaeth digidol enghreifftiol cyntaf y llywodraeth i gael ei roi ar waith. Mae'n rhoi'r gallu i ddefnyddwyr gwblhau LPA ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus iddyn nhw ac mae'n cynnwys cymorth ar bob cam yn y broses.

Cafwyd adborth cadarnhaol am y gwasanaeth gan ddefnyddwyr, a thua 90% yw lefel bodlonrwydd y defnyddwyr. Ar hyn o bryd mae tua 20% o LPA yn cael eu cofrestru drwy'r gwasanaeth digidol, heb nemor ddim marchnata uniongyrchol. Byddwn yn adeiladu ar y seiliau hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.

Rydym wedi gweithio'n galed hefyd i sefydlu system rheoli achosion newydd yn lle ein systemau presennol. Mae'r system sengl sy'n cymryd eu lle – Sirius – yn mynd drwy'r profion olaf a chaiff ei lansio cyn hir. Mae gwaith yn parhau ar y system ar gyfer goruchwylio ac ymchwilio. Er nad yw'r system newydd wedi'i chyflwyno mor gyflym ag y gobeithiwyd yn wreiddiol, ar ôl ei rhoi ar waith bydd yn helpu i wella effeithlonrwydd ac yn arwain at arbedion ar gostau trwyddedu, cymorth a newid.

Lansiwyd fersiwn alffa (prototeip) o wasanaeth digidol newydd i ddirprwyon yn Rhagfyr 2014, a bydd yn mynd ymlaen at y profion nesaf ar ôl ei hasesu'n ddiweddar. Byddwn yn lansio'r gwasanaeth byw yn 2015/16. Rydym yn parhau â'n bwriad i ddatblygu mynediad digidol at gofrestrau cyhoeddus OPG. Ein nod yw cyflwyno'r gwasanaeth digidol hwn ar y cyfle cyntaf.

Ym Medi 2014 cyhoeddwyd ein strategaeth ddigidol gyntaf. Mae hyn yn rhan bwysig o'n hymrwymiad i fod yn esiampl o asiantaeth gwbl ddigidol.

## Partneriaethau, polisi ac ymchwil

Rydym wedi ymrwymo i roi lle canolog i anghenion defnyddwyr ym mhob agwedd ar ein gwaith. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i ni gael dealltwriaeth lawn o'r anghenion hynny yn ogystal â'r hyn

sy'n cymell pobl i gynllunio ymlaen a'r hyn sy'n rhwystro llawer o bobl rhag gwneud LPA ar hyn o bryd.

Mae'r arolwg blynyddol o gwsmeriaid gan y tîm ymchwil cwsmeriaid yn dangos bod bodlonrwydd cyffredinol o 75% ar gyfer LPA a 62% ar gyfer dirprwyaethau. Fodd bynnag, mae'r canlyniad ar gyfer dirprwyaethau'n ymwneud â'r cyfnod cyn cyflwyno newidiadau i wella'r ffordd yr ydym yn helpu ac yn goruchwylio dirprwyon.

Mae gwaith wedi dechrau ar ganfod y ffordd orau i ni ddefnyddio adborth i sbarduno newid yn OPG. Byddwn hefyd yn ystyried beth yw'r ffordd orau o gomisiynu ymchwil ar gyfer penderfynu ar ein cyfeiriad yn y dyfodol.

Drwy weithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i ni, crëwyd mwy o ymwybyddiaeth o OPG a'i gwaith. Yn benodol, mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi cyflwyno'r prif areithiau mewn nifer o ddigwyddiadau i randdeiliaid. Ymhlith y rhain mae'r Coleg Plismona Brenhinol a Chymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu. Roedd ein hail gyfarfod bord gron blynyddol ar ddiogelu yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o lywodraeth ganolog a lleol, yn ogystal â'r sector cyhoeddus ehangach a'i bwrpas oedd hyrwyddo'r agenda gyffredin ar ddiogelu.

Mae darpariaeth ddigidol â chymorth wedi'i chynnig drwy gydol y flwyddyn ar gyfer y rheini a oedd am wneud cais ar-lein am LPA i'w helpu i gwblhau'r broses. Ar hyn o bryd rydym yn gwerthuso ffyrdd o ddarparu'r gwasanaeth hwn yn y tymor hir. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n partneriaid yn y trydydd sector sy'n ein helpu i ddarparu'r gwasanaeth pwysig hwn ar hyn o bryd.

Rydym wedi cymryd rhan ym menter Her Dementia y Prif Weinidog, ac wedi cadeirio un o'r grwpiau gorchwyl a gorffen. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth, busnes a'r byd academaidd yn ogystal â'r trydydd sector. Datblygodd ganllawiau newydd pwysig Cymdeithas Alzheimer's ar gyfer atwrneiod, a lansiwyd eleni. Mae'r rhain yn cynnwys disgrifiad clir o'r gwasanaeth y gall atwrneiod ddisgwyl ei gael gan fusnesau a gwasanaethau.

Rydym yn gwybod bod atwrneiod a dirprwyon yn teimlo'n rhwystredig mewn rhai achosion oherwydd y gwasanaeth y maent yn ei gael gan y sector ariannol. Rydym wedi cydweithio'n agos iawn â'r sector ariannol – o'r cyrff rheoleiddio i'r banciau a'r cymdeithasau adeiladu unigol – i wella profiad ein cwsmeriaid wrth arfer eu pwerau. Rhai o'n gweithgareddau pwysig yn y maes hwn yw'r rhan ddylanwadol yr ydym wedi'i chwarae o fewn Grŵp Cwsmeriaid Agored i Niwed yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac wrth lansio ei bapur ar gwsmeriaid agored i niwed a bancio yn Ionawr 2015, ynghyd â'n gwaith gyda Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol ar ei ymgyrch ar atwrneiaethau.

Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Iechyd ac eraill i symud ymlaen ag argymhellion Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Deddf Galluedd Meddyliol. Mae OPG wedi gwneud cyfraniad pwysig. Mae hyn yn cynnwys rhaglen waith i sicrhau bod ein partneriaid yn ymwybodol o Deddf Galluedd Meddyliol a rôl OPG. Bydd y gwaith yn parhau yn y flwyddyn busnes sydd i ddod drwy godi ymwybyddiaeth o OPG ymysg grŵp ehangach o gwsmeriaid posibl.

Roeddem wedi dweud y byddem yn adolygu ffioedd yn 2014/15 er mwyn cyflwyno unrhyw newidiadau angenrheidiol o Ebrill 2015. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar hyn ond rhoddwyd y gwaith o'r neilltu oherwydd yr etholiad cyffredinol. Byddwn yn parhau â'r adolygiad

hwn yn 2015/16 gyda'r bwriad o ymgynghori ar ein ffioedd a gwneud unrhyw newidiadau cyn gynted ag y gellir.

Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn hefyd yn ystyried sut y mae ein timau partneriaethau, polisi ac ymchwil cwsmeriaid yn gweithio gyda'r amcan o'u cyfuno mewn un tîm rheoli cysylltiadau.

### Rheoli newid

Rydym wedi defnyddio technegau cydnabyddedig ar gyfer gwella parhaus er mwyn gwella perfformiad ym mhob rhan o OPG. Wrth i ni symud at y cyfnod nesaf o drawsnewid, rydym am sicrhau bod diwylliant o wella parhaus yn rhan o bob agwedd ar ein gwaith. Oherwydd hyn, rydym wedi cyfuno ein timau swyddfa ar gyfer gwella parhaus a rheoli rhaglenni mewn un swyddfa rheoli newid.

## Cwynion

Rydym yn rhedeg proses gwyno haenog ar gyfer defnyddwyr sy'n anfodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael. Yn yr haen gyntaf, bydd cwynion yn cael eu hystyried gan y maes busnes sy'n gyfrifol. Os bydd y defnyddiwr yn anfodlon ar yr ymateb hwn, gall ofyn am uwchgyfeirio ei gŵyn at yr ail haen. Wedyn, bydd y gŵyn a'r ffordd yr oedd wedi'i thrafod yn cael ei hadolygu gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus a'r Prif Weithredwr. Os bydd y defnyddiwr yn parhau'n anfodlon, gall ofyn wedyn i'w AS gyfeirio ei gŵyn at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO) er mwyn cynnal adolygiad annibynnol.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y cwynion, ond mae hyn yn gymesur â'r cynnydd yn ein llwyth gwaith. Cawsom 6,376 o gwynion yn 2014/15, o'i gymharu â 3,549 o gwynion yn 2013/14 ac 11,617 yn 2012/13.

Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion yn ymwneud â phrosesu ceisiadau am LPA neu EPA. Roeddent yn cynnwys tri phrif faes:

- oedi wrth brosesu ceisiadau
- ansawdd y gwasanaeth cwsmeriaid
- materion sy'n ymwneud â pholisi neu ddeddfwriaeth sydd y tu hwnt i reolaeth OPG.

Cafwyd y rhan fwyaf o'r cwynion am oedi yn hanner cyntaf 2014, pan oedd cynnydd sydyn yn nifer y ceisiadau wedi effeithio ar amseroedd prosesu. Cafodd y mater hwn ei ddatrys drwy recriwtio staff newydd ac adleoli'r adnoddau presennol.


Cafwyd cynnydd ymddangosiadol yn nifer y cwynion am ein goruchwyliaeth ar ddirprwyon yn 2014/15. Fodd bynnag, mae hyn yn ganlyniad i newidiadau yn y ffordd yr ydym yn casglu ac yn cofnodi cwynion yn hytrach na dirywiad yn y gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig. Roedd cyfran sylweddol o'r cwynion am oruchwyliaeth yn ymwneud ag oedi neu ffioedd OPG. Rydym yn rhag-weld y bydd cyfathrebu gwell â dirprwyon yn helpu i ostwng nifer y cwynion o'r fath yn y dyfodol.

Ein nod yw ymateb i gwynion o fewn 10 niwrnod gwaith. Yn 2014/15, roeddem wedi ymateb i 51.2% ohonynt o fewn y cyfnod hwn. Roedd hyn yn ganlyniad i gynnydd yn nifer y cwynion am amseroedd prosesu yn y rhan gyntaf o 2014, cyn cyflwyno mesurau newydd i ddelio â chynnydd yn nifer y ceisiadau a oedd yn fwy na'r disgwyl. Ar ôl adfer y lefelau gwasanaeth arferol, roedd nifer y cwynion wedi gostwng a chyrhaeddwyd y targedau. Er bod canran y cwynion a gwblhawyd o fewn y cyfnod o 10 niwrnod yn llai o lawer na'r targed, nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd

i ymateb i gwynion yn ystod y flwyddyn oedd 9.65 diwrnod gwaith, sydd o fewn ein cyfnod targed o 10 niwrnod gwaith.

O'r holl gwynion a gafwyd, 4.3% ohonynt a gafodd eu huwchgyfeirio am ymateb at y Gwarcheidwad Cyhoeddus, o'i gymharu â 6.9% yn 2013/14. Atgyfeiriwyd pum achos newydd at PHSO ar gyfer ymchwiliad llawn ac roedd tri ymchwiliad a oedd ar waith ar ddechrau 2014/15 wedi'u cwblhau. O blith y rhain, roedd un heb ei chadarnhau, cafwyd canlyniad i un arall drwy gyfryngu a rhoddwyd y gorau i un arall. Byddwn yn defnyddio adborth gan PHSO i bennu lle y mae modd gwneud gwelliannau pellach ac rydym wedi cydymffurfio â'r holl argymhellion gan PHSO

Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o'r cwynion a gawn. Bydd Fforwm Cwynion newydd yn adolygu tueddiadau, yn rhannu'r arferion gorau ac yn cydweithio i wella'r gwasanaeth. Rydym yn benderfynol o weithredu ar sail yr adborth gan ddefnyddwyr a gwella'r gwasanaeth a gynigiwn yn barhaus.



**Alan Eccles CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
18 Mehefin 2015

# Adroddiad y Swyddog Cyfrifyddu

Mae OPG yn cael ei hariannu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, o'i Chyflenwad Seneddol, a thrwy incwm o ffioedd a thaliadau a godir ar gwsmeriaid allanol.

Yn yr un modd ag asiantaethau llywodraeth eraill, rhaid i gyllid ar gyfer y dyfodol gael ei gymeradwyo gan yr adran sy'n ein noddi, y Weinyddiaeth Cyfiawnder a chan y Senedd. Rhoddwyd cymeradwyaeth yn barod ar gyfer 2015/16 ac nid oes rheswm dros gwestiynu'r arian ar gyfer OPG yn y dyfodol. Felly mae datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw i ddibenion adroddiadau ariannol a phrisio asedau.

## Crynodeb ariannol

Roedd gan OPG warged gweithredu net o £11.1 miliwn yn 2014/15, £0.3 miliwn yn fwy nag yn 2013/14. Mae dadansoddiad o incwm a gwariant isod:

| | 2014/15 | 2013/14 | Gwahaniaeth | |
|---|---|---|---|---|
| | £miliwn | £miliwn | £miliwn | % |
| **Incwm gweithredu** | -57.5 | -48.9 | -8.6 | 18% |
| **Esemptio a pheidio â chodi ffioedd** | 6.1 | 6.3 | -0.2 | (3%) |
| **Cyfanswm Incwm** | -51.4 | -42.6 | -8.8 | 21% |
| **Gwariant** | | | | |
| Costau staff | 25.8 | 19.9 | 5.9 | 30% |
| Costau gweithredu eraill | 10.2 | 7.8 | 2.4 | 31% |
| Taliadau heb fod yn arian parod | 4.3 | 4.1 | 0.2 | 5% |
| Cyfanswm gwariant | 40.3 | 31.8 | 8.5 | 27% |
| **Gwarged gweithredu net** | **-11.1** | **-10.8** | **-0.3** | **(3%)** |

Yn y flwyddyn ariannol gyfredol cafodd OPG incwm ffioedd gros o £58 miliwn o'i gymharu â £49 miliwn ar gyfer 2013/14 (sy'n gyfradd twf o 18%). Cafwyd 410,000 o geisiadau am atwrneiaeth yn 2014/15 o'i gymharu â 311,000 yn 2013/14, cynnydd o 32%. Roedd gwariant wedi cynyddu 27% o £31.8 miliwn yn 2013/14 i £40.3 miliwn yn 2014/15. O hynny, mae mwy na 63% yn gostau staff ac yn ymwneud yn uniongyrchol â chynnal y cynnydd hwn o 32% yn nifer y ceisiadau.

## Adennill yr holl gostau

Roedd yr amcan ariannol y cytunwyd arno â Thrysorlys EM o adennill yr holl gostau (heb gynnwys ffioedd sydd wedi'u hesemptio neu heb eu codi) wedi'i gyflawni a rhagorwyd arno gan gyrraedd swm sy'n 143% o'r targed yn 2014/15. Drwy adennill mwy na'r costau, cafwyd gwarged incwm o'i gymharu â chost, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd o 18% yn yr incwm. Mae canran y costau a adenillwyd wedi gostwng o 153% yn 2013/14.

Yn 2011, rhoddwyd awdurdod gan y Senedd i ragori ar ein hamcan ar gyfer adennill costau er mwyn ariannu buddsoddiadau yn ein rhaglen drawsnewid. O ganlyniad i hyn, rydym wedi buddsoddi rhagor yn ein hadnoddau staff gan wireddu a gwella ansawdd ein rhwymedigaethau gwasanaeth mwy. Er hynny, rydym wedi adennill mwy na'n costau oherwydd y cynnydd yn y galw am geisiadau am atwrneiaethau.

Nid oedd yn bosibl newid ein strwythur ffioedd ar gyfer 2015/16, er gwaethaf ymdrechion a sylwadau a gyflwynwyd i'r perwyl hwn, gan fod yr adolygiad wedi'i atal ar lefel weinidogol. O ganlyniad i hyn, rydym yn rhag-weld y byddwn yn adennill mwy na'n costau ar gyfer 2015/16 er bod cynnydd mawr wedi bod yn y buddsoddiad mewn adnoddau i wella ansawdd ein gwasanaethau. Rydym yn cymryd camau i geisio adolygu ein ffioedd ar gyfer Ebrill 2016 er mwyn cyflawni'r amcan ariannol y cytunwyd arno â Thrysorlys EM. Cyflwynir sylwadau i weinidogion yn haf 2015 er mwyn cael ymgynghoriad cyhoeddus.

### Edrych ymlaen

Y rhagolygon ariannol ar gyfer OPG yn 2015/16 yw parhad mewn twf gan fod disgwyl y bydd y galw am ein gwasanaethau'n cynyddu.

### Cyfle cyfartal

Mae OPG yn gyflogwr cyfle cyfartal a'i nod yw bod yn deg â phawb gan sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd cymwys am swydd na chyflogai'n cael ei drin yn llai teg ar sail hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, oed, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, anabledd, crefydd neu gysylltiadau crefyddol, nac yn cael ei roi o dan anfantais gan amodau neu ofynion na ellir dangos bod cyfiawnhad drostynt.

Bydd ein strategaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth yn parhau i sefydlu gwerthoedd cadarnhaol, gan sicrhau bod gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol newydd ar gyrff y sector cyhoeddus yn cael eu gwireddu'n llwyr yn ein gwaith a'n gwasanaethau. Wrth wneud hynny, rydym yn cynorthwyo'r MOJ drwy gyfrannu at gyflawni ei hamcanion cydraddoldeb a'i chynllun gweithredu ar gydraddoldeb a chefnogi strategaeth amrywiaeth y gwasanaeth sifil ehangach.

### Cyfansoddiad y gweithlu

| | Dynion | Menywod |
|---|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd | 3 | 2 |
| Uwch Wasanaeth Sifil | 0 | 1 |
| Gweithwyr OPG (heb gynnwys Uwch Wasanaeth Sifil ) | 368 | 528 |

Mae'r tabl uchod yn dangos nifer y staff a oedd mewn swyddi ar 31 Mawrth 2015. Mae aelodau'r bwrdd yn cynnwys un Uwch Was Sifil gwrywaidd sydd heb ei gofnodi ar wahân yn nifer yr Uwch Wasanaeth Sifil a thri gweithiwr i OPG sydd heb eu cofnodi ar wahân yn nifer gweithwyr OPG.

### Cynnwys gweithwyr

Yn 2014/15, roedd 79% o staff OPG wedi cwblhau'r arolwg ymgysylltu â staff blynyddol (cyfradd ymateb debyg i 2013/14); mae hyn yn gyson â'r cyfraddau ymateb mewn asiantaethau eraill. Roedd sgôr ein mynegrif ymgysylltu wedi codi dri phwynt i 63%, yn yr un modd â 'pherfformwyr

gorau' y gwasanaeth sifil. O'r naw thema yn yr arolwg, roedd OPG wedi ennill sgorau uwch na meincnodau'r gwasanaeth sifil mewn pump ohonynt.

Mae OPG yn parhau â'i hymrwymiad i ymgysylltu â staff, gan fod hynny'n rhan ganolog o'n ffordd o weithio. Bellach mae gennym 54 o hyrwyddwyr ymgysylltu gwirfoddol sy'n gweithio ym mhob rhan o OPG a naw uwch arweinydd sy'n noddi themâu'r arolwg fel rhan o'u rôl. Rhoddir adroddiadau cynnydd i fwrdd OPG bob chwarter a chynhelir digwyddiad ymgysylltu blynyddol ar gyfer staff sy'n dangos gweithgareddau a chamau sy'n cael eu cymryd ym mhob rhan o'r busnes.

## Dysgu a datblygu

Cafwyd lefelau uchel o recriwtio a sefydlu staff yn 2014/15, ac roedd ein tîm dysgu a datblygu wedi canolbwyntio ar hyn yn bennaf. Darparwyd cyrsiau recriwtio a dethol i sicrhau bod gennym staff sy'n ddigon medrus i gyf-weld a didol ymgeiswyr mewn ymgyrchoedd recriwtio. Mae rhaglen sefydlu wyneb yn wyneb wedi'i datblygu i ymgysylltu â staff newydd ynghylch ein gweledigaeth a'n gwerthoedd a'u helpu i ddeall eu lle yn y sefydliad gan ofalu hefyd eu bod yn deall ein cwsmeriaid a'r prosesau y byddant yn eu dilyn gyda ni.

Yn dilyn yr adolygiad o oruchwyliaeth yn 2013/14, sefydlwyd llwybr dysgu a datblygwyd e-ddysgu i ategu hyn sydd ar gael i staff drwy Academi Gyfiawnder y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae hyn wedi rhoi llwybr dysgu cynaliadwy i'r rheini sy'n gweithio ym maes goruchwyliaeth i'w helpu i feithrin eu sgiliau technegol. Mae ar gael hefyd drwy hyfforddiant sefydlu neu i ddiweddaru gwybodaeth staff profiadol. Mae modiwlau ar gael hefyd i'r rheini sy'n gweithio mewn meysydd busnes eraill i'w helpu i gael gwell dealltwriaeth o waith ein timau goruchwylio.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu arweinwyr ac eleni rydym wedi lansio cynllun mentora tuag i fyny. Drwy'r cynllun hwn bydd staff mewn swyddi is yn mentora arweinwyr uwch ac aelodau o'n tîm gweithredu. Mae rhaglen sefydlu i is-reolwyr wedi'i datblygu ac mae gennym gynlluniau i sicrhau ein bod yn adnabod a datblygu galluogrwydd ar draws OPG yn y dyfodol.

Rydym wedi gweithio gyda City and Guilds Kineo i ystyried ffyrdd o ddigideiddio rhai o'n cynhyrchion gyda'r bwriad o greu llyfrgell dysgu digidol. Mae adroddiad ymgynghori wedi'i lunio bellach i symud ymlaen ar hyn ac mae Kineo wrthi'n datblygu ein cynnyrch e-ddysgu cyntaf ar gyfer ein rhanddeiliaid yn y sector gwasanaethau ariannol.

## Polisi a pherfformiad ar dalu credydwyr

Mae OPG yn talu pob anfoneb oddi wrth gyflenwyr yn unol â thargedau perfformiad y llywodraeth ar dalu. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i ni dalu pob anfoneb nad oes anghytundeb yn ei chylch o fewn 30 niwrnod neu o fewn y cyfnod a gytunwyd mewn contract. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni dalu 100% o anfonebau, gan gynnwys anfonebau y mae anghytuno yn eu cylch ar ôl setlo'r anghydfod, yn brydlon o fewn y cyfnodau hyn. Rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015, roeddem wedi talu 100% o anfonebau o fewn y cyfnod hwn. Dim ond ar ôl eu hawdurdodi'n briodol o dan delerau ein dirprwyaeth ariannol y bydd taliadau'n cael eu gwneud. Ni thalwyd llog o dan Ddeddf Talu Dyled Fasnachol yn Hwyr (Llog) 1998.

Nod OPG, yn yr un modd â sefydliadau'r sector cyhoeddus, yw talu cyflenwyr o fewn 10 niwrnod, ac yn y flwyddyn hon roeddem wedi talu 89% o anfonebau o fewn y cyfnod hwn.

## Iechyd a diogelwch

Mae OPG yn cydnabod ei chyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a lles (IDLl) ei gweithwyr a'r holl bobl sy'n defnyddio ei safleoedd. Mae OPG yn cydymffurfio â Deddf

Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a'r holl reoliadau a deddfwriaeth berthnasol arall ac mae rheolaeth effeithiol ar waith.

Yn 2014/15 adolygodd OPG ei pholisi IDLl er mwyn cynnwys polisïau diwygiedig y MOJ ar Iechyd, Diogelwch a Thân mewn un ddogfen. Er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r polisi, mae OPG wedi mabwysiadu cynllun cyflawni manwl ar gyfer IDLl sy'n seiliedig ar strategaeth y MOJ ac yn cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor IDLl ac adroddir arno i'r tîm Rheoli Gweithredol.

Mae cofrestr risg IDLl OPG yn cael ei chynnal a'i seilio ar asesiadau risg lleol. Caiff ei hadolygu a'i monitro yng nghyfarfodydd pwyllgor IDLl OPG bob chwarter. Bydd hyn yn sail i unrhyw benderfyniadau a wneir a blaenoriaethau a bennir ar gyfer IDLl yn OPG.

Mae perfformiad OPG ar IDLl yn cael ei fonitro, ei adolygu a'i gyfleu drwy gynhyrchu a chyhoeddi data ar berfformiad. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno i bwyllgor IDLl OPG a'u cynnwys yng ngherdyn sgorio cytbwys OPG bob mis. Adroddwyd ar gyfanswm o 29 o ddamweiniau yn y cyfnod dan sylw ac roedd hyn yn 10 yn llai nag yn 2013/14. Gan fod niferoedd staff OPG wedi cynyddu, roedd hyn yn gyflawniad rhagorol.

Mae OPG yn cynnal rhaglen o arolygiadau IDLl chwarterol sy'n cael eu cyflawni ar y cyd â chynrychiolwyr undebau llafur a rheolwyr er mwyn sicrhau bod materion diogelwch lefel isel y gellir eu rheoli'n lleol yn cael eu cofnodi a'u datrys yn brydlon. Mae'r MOJ wedi dechrau cynnal rhaglen o archwiliadau IDLl ar gyfer pob adran, gan gynnwys OPG. Cynhaliwyd yr archwiliad cyntaf o'r fath o ddiogelwch tân ym Mawrth 2015, gan Uwch Gynghorydd y MOJ ar Ddiogelwch Tân, a roddodd wybod bod y sefyllfa yn OPG yn foddhaol, heb nodi argymhellion pellach. Er hynny, gwnaeth argymhellion i'w gweithredu gan Ystadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae OPG wedi parhau i gynnal asesiadau risg rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i sicrhau ei bod yn cydymffurfio, gan gynnwys rhaglen lawn i barhau i ateb gofynion Rheoliadau IDLl (Cyfarpar Sgrin Ymddangos) 1992. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd cyfanswm o 906 o asesiadau ar gyfer unigolion lle cafwyd cydymffurfiaeth o fwy na 90% ym mhob achos, ac roedd mwy na 75 o asesiadau o Gyfarpar Sgrin Arddangos wedi'u cwblhau bob mis ar gyfartaledd.

Mae OPG wedi ymrwymo i sicrhau cydymffurfio â gofynion IDLl bob amser. Yn 2014/15 canolbwyntiwyd ar sicrhau bod yr holl staff yn deall y ddyletswydd gofal sydd wedi'i gosod arnyn nhw yn ogystal â dyletswyddau'r adran. Er mwyn cyflawni hyn, roedd y tîm Rheoli Gweithredol wedi'i gwneud yn ofynnol bod yr holl becynnau e-ddysgu angenrheidiol ar IDLl yn cael eu cwblhau a bod y staff yn deall y polisïau perthnasol ar IDLl. Er mwyn monitro cydymffurfiaeth, roedd y staff wedi cwblhau rhestrau gwirio i'w cysoni gan y tîm IDLl a llywodraethu, ac roedd hyn wedi rhoi sicrwydd ar ddiwedd y broses i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Rhagwelir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau ym Medi 2015 a bydd yn darparu llinell sylfaen ar gyfer hyfforddiant y bydd modd ei monitro a'i diweddaru'n unol â pholisi'r MOJ ar gyfer yr holl staff tra byddant yn OPG.

**Alan Eccles CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
18 Mehefin 2015

# Cynaliadwyedd

Mae'n ofynnol i OPG gofnodi cynnydd tuag at gyflawni Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth (YGLl) y llywodraeth ac adrodd ar ei defnydd o gyfleustodau, cynhyrchu gwastraff, allyriadau carbon a'u costau cysylltiedig yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Nid oes gan OPG reolaeth uniongyrchol dros gyflenwadau cyfleustodau yn yr un o'i hadeiladau felly nid oed ganddi gyfrifoldeb i gofnodi allyriadau o dan yr Ymrwymiad Lleihau Carbon (YLlC). Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar wahân gan y prif feddiannydd ar bob safle.

Mae OPG yn ceisio lleihau ei hallyriadau carbon deuocsid a'i heffaith ar yr amgylchedd drwy leihau ei defnydd o ddŵr a phapur yn ogystal â maint y gwastraff a gynhyrchir.

Y prif adnoddau y mae OPG yn eu defnyddio yw cyfleustodau a phapur o fewn ei hadeiladau, teithio i'r adeiladau hyn gan staff (heblaw drwy gymudo) a theithio gan ymwelwyr y Llys Gwarchod wrth gyflawni eu rôl monitro ar ran OPG.

## Cwmpas

Mae'r tabl isod yn dangos meddiant OPG ar bob un o'i phedwar safle.

| Enw'r eiddo | Deiliadaeth | Arwynebedd llawr y Weinyddiaeth Cyfiawnder | Arwynebedd llawr OPG | Gwybodaeth ariannol |
|---|---|---|---|---|
| Pearson Building, Nottingham | Memorandwm o delerau meddiannu rhwng GLITEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) | 1,653 hyd Hydref 2014<br><br>1,130 hyd Ebrill 2015 | 1,350 hyd Hydref 2014<br><br>1,300 hyd Ebrill 2015 | Drwy dâl gwasanaeth i GLITEM |
| Lloriau 1–4, 54 Hagley Road Birmingham | Lesddaliad GLITEM | 3,052 | 784 o fis Gorffennaf 2014 i ddiwedd Ionawr 2015 | Drwy dâl gwasanaeth i GLITEM |
| The Axis, Birmingham | Lesddaliad y Weinyddiaeth Cyfiawnder/OPG | 4,479 | 4,479 | Drwy dâl gwasanaeth drwy law asiantau ar ran Bwrdd Rheilffyrdd Prydain. |
| Petty France, Llundain | Lesddaliad y Weinyddiaeth Cyfiawnder | Amh | Amh | Amh |

Roedd nifer y staff yn OPG wedi cynyddu yn 2014/15 o 682 FTE i 865 FTE (cynnydd o 27%).

Cymerwyd dwy adain ychwanegol yn adeilad The Axis ar ddechrau'r flwyddyn i gynnwys staff ychwanegol. Roedd OPG wedi gadael y lle yr oedd yn ei feddiannu yn 54 Hagley Road ym Mawrth 2014 ond cafodd ei ailfeddiannu ym mis Gorffennaf 2014 am fod nifer y staff wedi cynyddu. Rhoddwyd 54 Hagley Road yn ôl yn derfynol i GLITEM ar ddiwedd Ionawr 2015 gan fod lle i staff yn adeilad The Axis. Collwyd arwynebedd bach yn y Pearson Building yn Hydref 2014 pan roddodd GLITEM y gorau i feddiannu'r pedwerydd llawr. Nid yw'r ddeiliadaeth yn Petty France wedi'i chynnwys yn y cwmpas am fod nifer y staff a'r lle a ddefnyddir yn fach iawn. Mae'r ddeiliadaeth hon wedi'i chynnwys yn adroddiad y MOJ ar ei phencadlys.

## Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth (YGLl)

Cychwynnodd YGLl ar 1 Ebrill 2011 gan gymryd lle Gweithrediadau Cynaliadwy yn nhargedau Ystad y Llywodraeth. Mae YGLl yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau gymryd camau i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd yn sylweddol erbyn 2015 (o'i gymharu â llinell sylfaen 2009/10). Mae pob targed yn cael ei drafod yn fanwl yn yr adrannau sy'n dilyn.

## Am ein data

Yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol, amcangyfrifon yw'r wybodaeth ariannol gan mwyaf, wedi'i seilio ar ddarlleniadau gan gyfleustodau. Mae'r holl wasanaethau wedi'u darparu yn adeiladau OPG ac mae costau cyfleustodau a chasglu gwastraff wedi'u cynnwys yn y taliadau gwasanaeth. Mae OPG yn cael ei bilio wedyn drwy ailgodi taliadau gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Dylid nodi bod y data sydd wedi'u coladu'n gyson â'i gilydd ac felly gellir cymryd yn eithaf hyderus fod yr amrywiadau sydd wedi'u dangos yn newidiadau gwirioneddol mewn defnydd. Mae'n bosibl y bydd amrywiant bach yn y ffigurau hanesyddol rhwng blynyddoedd adrodd oherwydd newidiadau yn ffactorau trosi DEFRA a ddefnyddiwyd i drosi defnydd o ynni'n allyriadau CO2. Mae'r holl ffigurau am allyriadau wedi'u rhoi ar ffurf tunelli o garbon deuocsid a'i gyfatebol (CO2e) er mwyn cynnwys nwyon tŷ gwydr eraill a grëwyd fel methan ac ocsidau nitraidd.

## Teithio

Teithio gan staff yw ffynhonnell fwyaf yr allyriadau o CO2 ar ôl y defnydd o nwy a thrydan. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf roedd cyfanswm y pellter a deithiwyd wedi gostwng 3% a'r allyriadau o nwyon tŷ gwydr wedi gostwng 11%.

Er bod OPG wedi tyfu'n sylweddol yn y flwyddyn a aeth heibio, nid yw maint y teithio ar reilffyrdd wedi newid. Roedd hyn yn ganlyniad yn rhannol i ostyngiad yn nifer y cyfarfodydd rhwng swyddfeydd yr oedd yn ofynnol i uwch-reolwyr gymryd rhan ynddynt a'r ffaith bod diffyg lle ar bob safle wedi rhwystro ymweliadau ad hoc. Yn ogystal â hyn, er bod cynnydd yn nifer y staff, mae'n debygol bod nifer yr ymweliadau gan reolwyr a oedd yn angenrheidiol wedi aros yr un fath.

Roedd y defnydd o geir wedi gostwng ychydig o 10.2%[1] i 7.7% o'r cilometrau a deithiwyd yn 2014/15. Gan fod ceir yn allyrru pedair gwaith gymaint o CO2 am bob cilometr â theithio ar reilffyrdd, roedd 25% o'r holl allyriadau o deithio wedi dod o geir. O ganlyniad i'r gostyngiad bach yn y pellter a deithiwyd mewn ceir, cafwyd gostyngiad mawr yn yr allyriadau o CO2.


---


[1] Y ffigur am deithio mewn ceir a gofnodwyd o'r blaen oedd 9%. Mae hyn wedi'i addasu ar ôl ystyried ffigurau diweddarach a gafwyd ar ôl cwblhau'r adroddiad ar gyfer 2013-14. Oherwydd newidiadau yn ffigurau trosi DEFRA, mae siartiau CO2e ar gyfer blynyddoedd blaenorol wedi'u diweddaru hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o'r teithio mewn ceir yn cael ei wneud gan ymwelwyr Llys Gwarchod OPG, sy'n teithio i breswylfeydd cleientiaid. Er bod nifer yr ymweliadau wedi cynyddu 7% yn 2014/15, mae nifer yr ymweliadau gan weithwyr OPG wedi gostwng, gan fod mwy ohonynt yn cael eu cyflawni gan gontractwyr hunangyflogedig nad ydynt yn cofnodi eu milltiredd.

Cafwyd saith o deithiau awyren domestig a oedd yn dod i gyfanswm o 3,400km yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a oedd wedi allyrru 990kg o CO2e.

Mae crynodeb o'r data yn y ddwy siart isod (sylwer: nid oedd ffigurau milltiredd ar gael ar gyfer teithio mewn ceir yn 2009/10, ac nid yw teithio mewn awyrennau wedi'i ddangos gan ei fod yn ffigur de minimis).



## Papur

Roedd y defnydd o bapur swyddfa wedi cynyddu 14% i 12,631 o rimiau, o'i gymharu â chynnydd o 41% yn y llwyth achosion yn 2014/15. Lle bynnag y bo modd, cysylltir â chwsmeriaid dros y ffôn neu drwy'r e-bost er mwyn lleihau costau papur a phostio. Mae'r holl bapur a ddefnyddiwn wedi cael ei wneud o ddeunydd eildro.

## Perfformiad manwl o un flwyddyn i'r llall

| Allyriadau carbon deuocsid | | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol ($tCO_2$) | Cyfleustodau | 1,057 | 857 | 583 | 433 |
| | Teithio[2] | 78 | 61 | 66 | 57 |
| | **Cyfanswm** | **1,135** | **918** | **647** | **470** |
| Dangosyddion ariannol (£k) | Cyfleustodau | 214 | 157 | 92 | 68 (amcangyfrif) |
| | Teithio | 303 | 258 | 334 | 336 |

| Targedau |
|---|
| O 1 Ebrill 2011, mae YGLlau newydd wedi'i gwneud yn ofynnol i OPG leihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr ar gyfer yr ystad gyfan erbyn 2015 o linell sylfaen 2009/10 a hefyd i dorri teithiau cludiant domestig sy'n ymwneud â busnes a theithiau busnes domestig mewn awyren 20%. |
| **Disgrifiad o dermau, cwmpas ac ansawdd data** |
| Mae OPG yn cofnodi'r defnydd o ynni yn yr holl adeiladau y mae'n eu meddiannu, ar wahân i Petty France (sy'n cael ei gofnodi'n gyfan gwbl gan bencadlys y Weinyddiaeth Cyfiawnder). Mae data am deithio'n cynnwys teithio gan holl staff OPG lle bynnag maent wedi'u lleoli. Y defnydd o nwy a thrydan mewn swyddfeydd yw 89% o allyriadau CO2e OPG; teithio yw'r 11% sy'n weddill. Mae'r holl gyfleustodau'n cael eu mesur yn uniongyrchol o fesuryddion mewn adeiladau a'r defnydd yn cael ei ddosrannu ar sail arwynebedd llawr, gan gymryd bod yr holl feddianwyr yn ymddwyn yn debyg. Roedd y defnydd o drydan yn The Axis a 54 Hagley Road wedi'i fesur yn uniongyrchol ar gyfer safleoedd OPG. Cafwyd y wybodaeth ariannol o daliadau gwasanaeth a thaliadau a ailgodwyd gan rannau eraill o'r MOJ a dylid trin unrhyw gymariaethau'n ofalus. |
| **Sylwadau am berfformiad** |
| Mae allyriadau carbon deuocsid wedi gostwng o chwarter i 488 o dunelli, yn bennaf o ganlyniad i lai o ddefnydd o lawer o nwy yn The Axis. Fodd bynnag, mae gostyngiadau llai mewn allyriadau o deithio a meddiant llai yn 54 Hagley Road wedi cyfrannu at hyn. |

| Rheoli'r defnydd o ynni mewn adeiladau | | | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol | Defnydd o ynni (kWh) | Trydan: na ellir ei adnewyddu | 1,644,999 | 1,666,277 | 511,150 | 530,987 |
| | | Nwy | 1,032,557 | 1,346,610 | 1,837,543 | 823,946 |
| | | Cyfanswm kWh | 2,685,927 | 2,508,718 | 2,348,694 | 1,354,933 |

[2] Mae cyfanswm y $CO_2e$ a allyrrwyd yn 2011/12 a 2012/13 wedi'i addasu ar ôl ystyried ffactorau trosi diwygiedig DEFRA ac mae'r cyfanswm ar gyfer 2013-14 wedi'i ddiweddaru ar sail darlleniadau o fesuryddion cyfleustodau yn hytrach nag amcangyfrifon o The Axis, Birmingham.


| Rheoli'r defnydd o ynni mewn adeiladau | | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion ariannol (£) | Cyfanswm y gwariant ar ynni | 214 | 156 | 92 | 68 (amcangyfrif) |


## Disgrifiad o dermau, cwmpas ac ansawdd data

Mae data'n cael eu cymryd yn uniongyrchol o fesuryddion mewn adeiladau a'u rhannu ar sail yr arwynebedd llawr a ddefnyddir, heblaw am drydan yn 54 Hagley Road a The Axis sy'n cael ei fesur ar wahân ar gyfer safleoedd OPG. Ni chafwyd unrhyw ffigurau am Petty France gan fod y meddiant ohono'n fach. Mae gwariant wedi'i seilio ar kWh wedi'i luosi â chost yr uned, gan nad yw OPG yn cael ei bilio'n uniongyrchol am unrhyw gyfleustodau.

## Sylwadau am berfformiad

Mae cyfanswm yr ynni a ddefnyddir wedi gostwng yn sylweddol yn OPG. Er bod y defnydd o drydan wedi aros yn gyson bron (er gwaethaf cynnydd mawr yn nifer y staff), cafwyd y gostyngiad mwyaf yn y defnydd o nwy, yn bennaf yn adeilad The Axis yn Birmingham. Credwn fod y gostyngiad hwn yn ganlyniad i'r gaeaf mwyn. Yn ogystal â hyn, cafwyd gwaith cynnal a chadw sylweddol ar y system wresogi i wella effeithlonrwydd a pherfformiad.






| Rheoli defnydd o ddŵr | | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol | Defnydd o ddŵr ($m^3$) | 4,467 | 1,811 | 1,584 | 1,216 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Costau cyflenwadau dŵr a anfonebwyd – prif gyflenwad | 8,000 | 2,752 | 2,430 | 1,824 |
| | Costau cyflenwadau dŵr a anfonebwyd – dŵr potel | Amh | 1,805 | 3175 | 3,236 |
| | Cyfanswm | 8,000 | 4,557 | 5,605 | 5,060 |

## Targedau

O 1 Ebrill 2011, roedd targedau YGLlau yn ei gwneud yn ofynnol i ni leihau'r defnydd o ddŵr o linell sylfaen 2009/10 a chofnodi'r defnydd o ddŵr mewn swyddfeydd ar sail meincnodau'r ymarfer gorau.

a. ≥ $6m^3$ o ddŵr wedi'i ddefnyddio am bob gweithiwr Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) = ymarfer gwael
b. $4m^3$ i $6m^3$ am bob FTE = ymarfer da
c. ≤ $4m^3$ am bob FTE = ymarfer gorau
d. % y swyddfeydd sy'n cyrraedd y meincnod am ymarfer gorau/da/gwael.


## Disgrifiad o dermau, cwmpas ac ansawdd data

Mae bron y cyfan o'r defnydd o ddŵr yn digwydd mewn ymolchfeydd a thrwy yfed. Cafwyd y ffigurau o fesuryddion mewn adeiladau a'u rhannu ar sail yr arwynebedd llawr sydd wedi'i feddiannu. Mae'r costau wedi'u hamcangyfrif ar sail amcangyfrifon o ddefnydd.

## Sylwadau am berfformiad

Mae'r defnydd o ddŵr wedi gostwng yn ystod y flwyddyn i $1.2m^3$ am bob FTE. Mae hyn o fewn y targedau ymarfer gorau.

Mae holl swyddfeydd OPG wedi cyrraedd y targed hwn. Yn y flwyddyn hon, mae'r costau am ddŵr potel yn y Pearson Building wedi'u cynnwys.





## Gwastraff

Mae ffigurau am gasglu gwastraff ar gael yn awr ar gyfer holl adeiladau OPG, ac maent wedi'u seilio ar amcangyfrifon o bwysau a gymerwyd o'r cyfeintiau a gasglwyd gan y contractwyr.

Mae gwastraff cymysg wedi cael ei ailgylchu yn The Axis a 54 Hagley Road ers eu meddiannu gyntaf. Bellach mae cyfleuster ailgylchu gwastraff cymysg yn Pearson Building a gyflwynwyd yn Ionawr 2015.

Y gyfradd ailgylchu gyffredinol yn awr yw 96%. Nid yw'r cyfleuster newydd yn y Pearson Building wedi bod ar waith yn ddigon hir i wella'r gyfradd ailgylchu'n sylweddol ar y safle hwn, a oedd yn 83% ar gyfer 2014/15.




## Crynodeb

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae llwyth achosion OPG wedi tyfu 32% ac mae lefelau'r staff wedi codi'n unol â hyn. Er gwaethaf y twf sylweddol, mae effaith busnes OPG wedi aros yn gyson e.e. teithio a gwastraff – neu wedi cynyddu ychydig (er enghraifft, papur, teithio a thrydan) ac yn llai o lawer na'r twf yn y llwyth gwaith.

Mae'r broses o gasglu data yn fwy effeithiol o lawer yn awr nag mewn blynyddoedd blaenorol ac mae'n cynnwys yr holl feysydd cofnodi.

## Blaengynlluniau

Mae OPG yn rhoi mwy o bwyslais ar gyfathrebu'n electronig â chwsmeriaid, un ai drwy'r e-bost neu dros y ffôn. Gwneir hyn yn bennaf er mwyn gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid ond hefyd i helpu i leihau'r defnydd o bapur. Bydd OPG hefyd yn delio â gwaith achosion yn y dyfodol ar sail 'digidol yn gyntaf', mewn achosion sy'n ymwneud ag LPA a dirprwyaethau, yn rhannol er mwyn lleihau maint y papur y mae angen ei ddefnyddio.

Bydd OPG yn symud ei gweithrediadau yn Nottingham i adeilad newydd yn y ddinas yn 2015 ac yn defnyddio modelau gweithle hyblyg i wella'r cymarebau meddiant yn ei holl adeiladau. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o drydan, gwresogi a goleuadau.

Byddwn yn ystyried coladu ffigurau milltiredd ar gyfer ymwelwyr y Llys Gwarchod sydd ar gontract a chofnodi'r pecynnau LPA a gynhyrchir.

Bydd y rhwydwaith 'hyrwyddwyr gwyrdd' yn cael ei ehangu ac yn chwarae mwy o ran mewn cyfleu'r manteision o ailgylchu a chynnal cyfarfodydd rhithwir i staff ac yn codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol. Bydd y tîm gwella parhaus yn ceisio lleihau effaith amgylcheddol OPG wrth adolygu ei brosesau.

# Adroddiad cydnabyddiaeth ariannol

Mae'r gydnabyddiaeth ariannol i uwch weision sifil yn cael ei phennu gan y Prif Weinidog gan ddilyn cyngor annibynnol gan y corff adolygu cyflogau uwch-swyddogion.

Mae cyflogau i aelodau gweithredol y bwrdd yn cael eu pennu gan Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yn unol â'r rheolau ym mhennod 7.1 o Atodlen A i god rheoli'r gwasanaeth sifil.

Wrth benderfynu ar ei argymhellion, mae'r corff adolygu'n ystyried y materion canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw ac ysgogi pobl alluog a chymwys sy'n addas i arfer eu gwahanol gyfrifoldebau
- amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar y gallu i recriwtio a chadw staff
- polisïau llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad i adrannau gwrdd â'r targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol
- yr arian sydd ar gael i adrannau sydd wedi'i nodi yn Nherfynau Gwariant Adrannol y llywodraeth
- targed y llywodraeth ar gyfer chwyddiant.

Mae'r corff adolygu'n ystyried y dystiolaeth y mae'n ei chael am ystyriaethau economaidd ehangach a'r gallu i fforddio ei argymhellion.

### Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys:

- y cyflog gros
- goramser
- hawliau neilltuedig ar gyfer pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain
- lwfansau recriwtio a chadw
- lwfansau swyddfa breifat
- unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n agored i'w drethu yn y DU.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau a wnaed gan yr Adran ar ran OPG ac felly mae wedi'i gofnodi yn y cyfrifon hyn. Mae'r tablau yn yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol hwn wedi cael eu harchwilio.

### Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddion a ddarparwyd gan yr adran a'u trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

### Contractau gwasanaeth

Mae penodiadau i'r gwasanaeth sifil yn cael eu gwneud yn unol â chod recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil. O dan y cod mae'n ofynnol bod penodiadau'n cael eu gwneud yn ôl teilyngdod

ar sail cystadleuaeth deg ac agored ond mae hefyd yn cynnwys amgylchiadau lle gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall isod, mae'r swyddogion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal penodiad penagored. Pe byddai penodiad yn cael ei derfynu'n gynnar, heblaw mewn achosion o a gamymddwyn, byddai'r unigolyn yn derbyn digollediad yn unol â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Penodwyd cyfarwyddwyr anweithredol ar gontract tymor penodol o dair blynedd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am waith Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil yn **www.civilservicecommissioners.gov.uk**

## Hawliau cyflog a phensiwn

Yn yr adrannau sy'n dilyn mae manylion am dâl a buddion pensiwn yr aelodau o fwrdd yr asiantaeth.

## Cydnabyddiaeth ariannol

| | 2014/15 | | | | | 2013/14 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodau | Cyflog £000 | Taliadau bonws £000 | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | Buddion pensiwn £000 | Cyfanswm £000 | Cyflog £000 | Taliadau bonws £000 | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | Buddion pensiwn £000 | Cyfanswm £000 |
| Alan Eccles CBE, Prif Weithredwr a Gwarcheidwad Cyhoeddus | 110–115 | - | - | 54 | 165–170 | 110–115 | - | - | 28 | 140–145 |
| Karen Morley, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | 55–60 | 0–5 | - | 15 | 75–80 | 55–60 | - | - | 34 | 90–95 |
| Angela Johnson, Pennaeth Ymarfer a Chydymffurfio | 55–60 | 0–5 | - | 18 | 75–80 | 55–60 | 0–5 | - | 13 | 70–75 |
| Iain Dougall, Pennaeth Gweithrediadau | 65–70 | - | - | 25 | 90–95 | 65–70 | - | - | 20 | 85–90 |
| Chris Jones, Pennaeth Strategaeth a Datblygu Busnes (o 22/04/14) | 60–65 (60–65 cyfwerth â blwyddyn lawn) | - | - | 10 | 70–75 | - | - | - | - | - |
| Steve Wade, Pennaeth Strategaeth a Datblygu Busnes (hyd 13/09/13) | - | - | - | - | - | 20–25 (50–55 cyfwerth â blwyddyn lawn) | 0–5 (0–5 cyfwerth â blwyddyn lawn) | - | 4 | 25–30 |

| | 2014/15 | | | | | 2013/14 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodau** | **Cyflog £000** | **Taliadau bonws £000** | **Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)** | **Buddion pensiwn £000** | **Cyfanswm £000** | **Cyflog £000** | **Taliadau bonws £000** | **Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)** | **Buddion pensiwn £000** | **Cyfanswm £000** |
| John Hall, Dirprwy Gyfarwyddwr y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Cyfiawnder Sifil a Gwasanaethau Cyfreithiol | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh |
| Elizabeth Gibby, Dirprwy Gyfarwyddwr y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Strategaeth Mynediad at Gyfiawnder a Pholisi Arbenigol | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh |
| Sarah Wood | 5–10 | - | - | - | 5–10 | 5–10 | - | - | - | 5–10 |
| Yr Athro Anthony Schapira | 5–10 | - | - | - | 5–10 | 5–10 | - | - | - | 5–10 |
| Janet Grossman | 5–10 | - | - | - | 5–10 | 5–10 | - | - | - | 5–10 |
| **Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr uchaf ei dâl (£000)** | 110–115 | | | | | 110–115 | | | | |
| **Cyfanswm tâl canolrifol OPG (£)** | 20,224 | | | | | 20,286 | | | | |
| **Cymhareb** | 5.6 | | | | | 5.6 | | | | |

John Hall oedd, ac Elizabeth Gibby bellach yw, cynrychiolydd penodedig y MOJ ar y bwrdd. Oherwydd hynny, nid yw eu cyflogau'n ymwneud ag unrhyw rôl sylweddol yn OPG ac nid ydynt i gael eu datgelu.

Mae'n ofynnol bod cyrff adrodd yn datgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr uchaf ei dâl yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr uchaf ei dâl yn OPG yn 2014/15 oedd £110–115k (2013/14: £110–115k). Roedd hyn yn 5.6 gwaith (2013/14: 5.6 gwaith) y tâl canolrifol i'r gweithlu, a oedd yn £20,224 (2013/14: £20,286).

Yn 2014/15, nid oedd unrhyw gyflogai (2013/14: 0) wedi cael tâl a oedd yn fwy nag un y cyfarwyddwr uchaf ei dâl. Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad sydd heb ei gyfuno, buddion mewn nwyddau yn ogystal â thaliadau diswyddo. (Mae ffigurau am y sefydliad cyfan mewn perthynas â thaliadau diswyddo wedi'u datgelu yn nodyn 3.4.) Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na'r gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod (CETV) ar gyfer pensiynau.

Mae'r wybodaeth yn y tabl cydnabyddiaeth ariannol a'r troednodiadau wedi cael ei harchwilio.

## Buddion pensiwn

| Aelodau | Pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31/3/15 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 60 oed | CETV ar 31/3/15 | CETV ar 31/3/14 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV | Cyfraniad y cyflogwr i'r cyfrif pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | I'r £100 agosaf |
| Alan Eccles CBE, Prif Weithredwr a Gwarcheidwad Cyhoeddus | 65–70 ynghyd â chyfandaliad o 0–5 | 2.5–5 ynghyd â chyfandaliad o 0–2.5 | 1,164 | 1,065 | 45 | - |
| Karen Morley, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | 20–25 ynghyd â chyfandaliad o 60–65 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0–2.5 | 333 | *307 | 10 | - |
| Angela Johnson, Pennaeth Ymarfer a Chydymffurfio | 25–30 ynghyd â chyfandaliad o 0–5 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0–2.5 | 470 | *431 | 17 | - |
| Iain Dougall, Pennaeth Gweithrediadau | 10–15 ynghyd â chyfandaliad o 0–5 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0–2.5 | 202 | 172 | 17 | - |
| Chris Jones, Pennaeth Strategaeth a Datblygu Busnes (o 22/04/14) | 10–15 ynghyd â chyfandaliad o 0–5 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0–2.5 | 110 | 98 | 2 | - |

* Mae'r ffigur hwn yn wahanol i'r ffigur yn adroddiad cydnabyddiaeth ariannol y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i gyfrifiad diwygiedig a ddarparwyd gan y gweinyddwyr pensiwn.

Ni wnaed trefniant pensiwn ar gyfer y cyfarwyddwyr anweithredol. Mae'r wybodaeth sydd yn y tabl o fuddion pensiwn wedi cael ei harchwilio.

## Pensiynau'r gwasanaeth sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod mewn un o bedwar cynllun pensiwn â buddion diffiniedig: un ai cynllun 'cyflog terfynol' (classic, premium neu classic plus); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, ac mae costau'r buddion yn cael eu talu ag arian a ddyfarnwyd gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus a nuvos yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis un ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu ag arian' gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 1.5% a 6.25% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun classic a rhwng 3.5% a 8.25% ar gyfer y cynllun premium, classic plus a nuvos. Mae buddion yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy ar ôl ymddeol. Ar gyfer y cynllun premium, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Cynllun hybrid yw classic plus yn y bôn lle mae buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn yr un ffordd yn fras â'r cynllun classic, a buddion o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun premium. Yn y cynllun nuvos, mae'r aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd y flwyddyn gynllun (31 Mawrth), mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno ac mae'r pensiwn a gronnwyd yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau sydd wedi'u gosod yn Neddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol sydd rhwng 3% a 12.5% (yn ôl oed yr aelod) at gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid sydd wedi'i ddewis gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, wrth roi cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu swm cyfartal hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant am risg i fuddion a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y bydd gan yr aelod hawl i'w gael wrth gyrraedd yr oedran pensiwn, neu'n union ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd yr oedran pensiwn neu'n hŷn nag ef. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau'r cynllun classic, premium a classic plus, a 65 ar gyfer aelodau nuvos.

Mae rhagor o fanylion ar gael am drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

Cyflwynir trefniadau newydd ar gyfer pensiwn cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2015 a bydd y rhan fwyaf o aelodau'r cynlluniau classic, premium, classic plus a nuvos yn ymuno â'r cynllun newydd. Mae rhagor o fanylion ar gael am y cynllun newydd hwn yn **http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/members/the-new-pension-scheme-alpha/**


## Gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth y buddion mewn cynllun pensiwn wedi'u cyfalafu ar sail asesiad gan actiwari sydd wedi'u cronni gan yr aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y buddion a brisiwyd yw'r buddion sydd wedi'u cronni gan yr aelod ac unrhyw bensiwn digwyddiadol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall os bydd yr aelod yn gadael y cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangoswyd yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w holl gyfnod yn aelod o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth yn y swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'u cronni o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Mae CETV yn cael eu cyfrifo'n unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 heb ystyried unrhyw wir ostyngiad gwirioneddol neu ddichonol mewn buddion o ganlyniad i dreth Lwfans am Oes a all fod yn ddyledus pan gymerir y buddion pensiwn.

## Cynnydd real mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.



**Alan Eccles CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
18 Mehefin 2015

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 7(2) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, rhoddodd Trysorlys EM gyfarwyddyd i'r asiantaeth i baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiad o gyfrifon ar y ffurf ac ar y sail sydd wedi'u nodi yn ei gyfarwyddyd cyfrifon. Paratoir y Cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun teg a chywir o sefyllfa'r asiantaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o'i hincwm a gwariant, cyfanswm ei henillion a cholledion cydnabyddedig, a'r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r MOJ wedi dynodi Prif Weithredwr OPG yn Swyddog Cyfrifyddu i'r asiantaeth, a chanddo gyfrifoldeb dros baratoi cyfrifon yr asiantaeth ac am eu trosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2014/15 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM sy'n dilyn safonau adrodd ariannol rhyngwladol (IFRS) i'r graddau bod hynny'n ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus, ac yn benodol:

- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- barnu ac amcangyfrif ar sail resymol
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwysadwy sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2014/15 a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys cadw cofnodion priodol a bod yn gyfrifol am ddiogelu asedau OPG, fel y nodwyd yn y memorandwm i Swyddogion Cyfrifyddu a ddyroddwyd gan Drysorlys EM a'i gyhoeddi yn 'Managing Public Money'.

# Datganiad llywodraethu

Mae'r datganiad hwn yn egluro: ar ba sail y sefydlwyd OPG; ym mha ffordd y mae'n cael ei llywodraethu a'i rheoli; sut y mae'n atebol dros yr hyn y mae'n ei wneud; a'i fframwaith risg a rheolaeth.

## Fframwaith llywodraethu

I'r graddau y mae hynny'n berthnasol a chymesur, mae OPG fel asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cydymffurfio â gofynion 'Corporate Governance in Central Government: Code of Good Practice 2011' a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Er bod y Cod yn ymwneud yn bennaf ag adrannau gweinidogol, lle bo'n gymwys, mae OPG yn cymhwyso'r egwyddorion y mae'n credu eu bod yn gymesur â'i maint, ei statws a'i fframwaith cyfreithiol.

Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ddeiliad swydd statudol a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o dan Adran 57 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'r rôl statudol hon wedi'i chyfuno â rôl weinyddol Prif Gyfarwyddwr OPG a Swyddog Cyfrifyddu'r asiantaeth, fel y mae dogfen fframwaith y Weinyddiaeth Cyfiawnder/OPG yn dangos.[3]

Mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn atebol i'r Senedd am fusnes OPG. Ymhlith cyfrifoldebau'r Gweinidog cyfrifol y mae penderfynu'r fframwaith polisi ac adnoddau y mae OPG yn gweithredu oddi mewn iddo, cymeradwyo amcanion strategol OPG, a sicrhau cymeradwyaeth seneddol ar gyfer yr adnoddau sydd eu hangen i gwrdd â'r amcanion hynny.

Ysgrifennydd Parhaol y MOJ yw Prif Swyddog Cyfrifyddu (PSC) yr adran. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu wedi'u disgrifio ym Mhennod 3 o 'Managing Public Money' a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.[4] Mae'r PSC wedi dynodi Prif Weithredwr OPG yn Swyddog Cyfrifyddu (SC) dros wariant gweinyddol OPG, ac wedi diffinio cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r berthynas rhwng SC OPG a'r PSC.


Mae trosolwg ar fframwaith llywodraethu OPG ar gyfer 2014/15 yn Ffigur 1. Mae strwythur sicrwydd OPG wedi'i ddangos yn Ffigur 2.

---


3 http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/corporate-reports/OPG/opg-framework-january-2014.pdf

4 https://www.gov.uk/government/publications/managing-public-money

## Ffigur 1 Fframwaith llywodraethu OPG




## Ffigur 2 Strwythur sicrwydd OPG




## Prif Weithredwr OPG

Mae Prif Weithredwr a SC OPG yn uniongyrchol atebol i'r Ysgrifennydd Parhaol sydd, yn ei dro, yn atebol i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder am weithredu OPG yn effeithiol.

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am ddefnyddio adnoddau a gwario arian a ddyfarnwyd gan y Senedd mewn ffordd briodol a darbodus, ac am sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn i sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus.

Penodir y Gwarcheidwad Cyhoeddus gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ac, fel Prif Weithredwr OPG, mae'n ymgymryd â rôl Cadeirydd bwrdd OPG.

## Bwrdd OPG

Mae bwrdd OPG yn llywio ac yn goruchwylio cyfeiriad strategol OPG ac mae'n bodoli er mwyn diogelu a hyrwyddo ei enw da. Drwy ddarparu arweiniad strategol, mae'r bwrdd yn rhoi cymorth i gyflawni'r nodau ac amcanion sydd wedi'u nodi yng nghynllun busnes OPG.

Yn ogystal â'r cadeirydd, mae'r bwrdd yn cynnwys pedwar aelod gweithredol a thri aelod anweithredol. Gall y bwrdd wahodd eraill i fod yn aelodau ychwanegol gan gynnwys rhai sydd wedi'u henwebu gan yr Adran er mwyn sicrhau bod buddiannau'r Adran/OPG wedi'u cynrychioli'n llawn. Mae'r aelodau anweithredol annibynnol yn darparu cymorth ac yn cynnig her adeiladol i aelodau gweithredol y bwrdd.

Aelodau bwrdd OPG yn ystod y cyfnod dan sylw oedd:

- **Alan Eccles CBE** – Prif Weithredwr a Gwarcheidwad Cyhoeddus
- **Karen Morley** – Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
- **Iain Dougall** – Pennaeth Gweithrediadau
- **Angela Johnson** – Pennaeth Ymarfer a Chydymffurfio
- **Chris Jones** – Pennaeth Strategaeth a Datblygu Busnes
- **John Hall** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfiawnder Sifil a Gwasanaethau Cyfreithiol (yr Weinyddiaeth Cyfiawnder), y cymerwyd ei le gan **Dr Elizabeth Gibby** – Dirprwy Gyfarwyddwr yn gyfrifol am Strategaeth A2J a Pholisi Arbenigol (y Weinyddiaeth Cyfiawnder) (yn weithredol o 01/09/2014)
- **Sarah Wood** – Cyfarwyddwr Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg
- **Janet Grossman** – Cyfarwyddwr Bwrdd Anweithredol
- **Yr Athro Anthony Schapira** – Cyfarwyddwr Bwrdd Anweithredol

## Prif lwyddiannau

- Yn ystod 2014/15 mae bwrdd OPG wedi parhau i ddatblygu (ers ei sefydlu yn Hydref 2012). Adolygwyd ei gylch gorchwyl a chododd nifer o gamau gweithredu o ganlyniad, gan gynnwys cyflwyno gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer amserlennu papurau'r bwrdd a dechrau darparu cyflwyniadau gan staff rheng flaen.
- Roedd y bwrdd wedi goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu adroddiad blynyddol a chyfrifon yr asiantaeth, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014 ar ôl eu cymeradwyo gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.
- Ym mhob un o'i gyfarfodydd mae'r bwrdd yn parhau i adolygu cyllid a pherfformiad a chyflwynwyd set newydd o fesuryddion perfformiad yn 2014/15.
- Mae'r bwrdd yn adolygu gweithgareddau trawsnewid yn rheolaidd a chymeradwyodd lansio'r gwasanaeth digidol ar gyfer LPA ynghyd â'r gwaith o adeiladu a rhyddhau'r iteriad cyntaf o systemau newydd OPG ar gyfer rheoli achosion a chipio dogfennau/data.
- Mae wedi parhau i oruchwylio'r broses o ddatblygu a gweithredu'r adolygiad o oruchwyliaeth dros ddirprwyon, y cyhoeddwyd adroddiad arno yn Rhagfyr 2014.
- Mae'r bwrdd wedi derbyn cyflwyniadau ar feysydd busnes allweddol, gan gynnwys cyflwyniadau gan dimau cwynion, diogelu ac ymchwilio, gweithrediadau a goruchwylio.
- Mae'r bwrdd wedi cynnal adolygiadau rheolaidd o'r rheoli ar y fframwaith risg a sicrwydd yn yr asiantaeth – ac wedi ystyried a chyflwyno sylwadau am gofrestr risg gorfforaethol OPG ar lefel gorfforaethol.
- Cynhaliodd y bwrdd ddiwrnod cwrdd i ffwrdd llwyddiannus lle y cytunodd ar amcanion busnes lefel uchel ar gyfer 2014/15.

Nid oedd unrhyw aelodau o'r bwrdd yn dal unrhyw gyfarwyddiaeth arall na buddiant sylweddol a oedd yn gwrthdaro â'u cyfrifoldebau fel aelod o'r bwrdd.

## Datganiad o Effeithiolrwydd Bwrdd OPG

Comisiynwyd adolygiad o effeithiolrwydd y bwrdd gan y Cadeirydd, Alan Eccles CBE. Cyflwynwyd adroddiad i'r bwrdd gan yr aelod anweithredol o'r bwrdd, Janet Grossman, yn Rhagfyr 2014.

Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad bod y bwrdd yn gweithredu'n effeithiol.

Roedd y gadeiryddiaeth a'r rheolaeth ar agendâu'n effeithiol, ac roedd y pynciau a'r papurau ategol ar lefel briodol ar gyfer trafod a phenderfynu. Mae'r data am berfformiad ar lefel gywir ar gyfer trafodaeth. Cafwyd bod y bwrdd yn cynnwys y cymysgedd priodol o sgiliau a bod yr holl aelodau'n cyfrannu i'r un graddau ac yn herio'n adeiladol. Mae cysylltiad clir rhwng canlyniadau a chynllun busnes OPG ac amcanion y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Roedd blas y bwrdd am risg wedi'i ddiffinio'n glir ac roedd ganddo gynlluniau lliniaru effeithiol.

Un o'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella oedd neilltuo mwy o amser ar bob agenda i ddarparu gwybodaeth o gyfarfodydd is-bwyllgorau. Dylid neilltuo mwy o amser i bennu'r strategaeth a monitro cynnydd. Mae angen gwelliannau o ran rhag-weld maint y gwaith yn y dyfodol a chynlluniau gwaith cysylltiedig. Mae'r wybodaeth am faterion ariannol ac adnoddau dynol yn fwy amserol; byddai'n dda gweld y duedd hon yn parhau.

## Tîm Rheoli Gweithredol

Mae cyfarfodydd y Tîm Rheoli Gweithredol (TRhG) yn ymwneud yn bennaf â chyflawni busnes OPG o ddydd i ddydd, gan gynnwys cyllid, perfformiad, risg, newid/cynllunio'r gweithlu, cwynion, adnoddau dynol (absenoldeb oherwydd salwch etc), cyflawni busnes, arweinyddiaeth a dathlu llwyddiant.

Aelodau'r TRhG yn ystod y cyfnod dan sylw oedd:

- **Alan Eccles CBE** – Prif Weithredwr a Gwarcheidwad Cyhoeddus
- **Sally Jones** – Pennaeth Materion Cyfreithiol
- **Karen Morley** – Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
- **Iain Dougall** – Pennaeth Gweithrediadau
- **Angela Johnson** – Pennaeth Ymarfer a Chydymffurfio
- **Helen Journeaux** – Pennaeth Dros Dro Strategaeth a Datblygu Busnes, y cymerwyd ei lle gan
  **Chris Jones** – Pennaeth Strategaeth a Datblygu Busnes (yn weithredol o 01/05/2014)
- **Steve Rider** – Pennaeth Swyddfa'r Prif Weithredwr

## Prif lwyddiannau

- Mae'r tîm wedi parhau i ddatblygu canolbwynt cyllid a pherfformiad a phroses ar gyfer rhag-weld llwythi gwaith yn y dyfodol.
- Mae prosesau rheoli risg wedi'u datblygu a'u cymeradwyo, ac amser wedi'i neilltuo i adolygu a herio'r dull o reoli risg ym mhob rhan o'r busnes.
- Mae dangosfwrdd adnoddau dynol wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo. Mae hyn yn galluogi'r tîm i adolygu cynnydd ar wahanol fathau o weithgarwch sy'n gysylltiedig ag adnoddau dynol, gan gynnwys recriwtio a rheoli presenoldeb.

- Roedd y TRhG wedi goruchwylio a rheoli'r broses o gyflawni amcanion cynllun busnes 2014/15, a chyflawnwyd y mwyafrif helaeth ohonynt.
- Mae aelodau'r TRhG wedi cynrychioli'r sefydliad mewn nifer mawr o ddigwyddiadau allanol a'r rheini a gynhaliwyd gan OPG yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r TRhG yn noddi ymgysylltu ar draws OPG – cododd y mynegrif o 60% i 63% yn arolwg 2014.

## Pwyllgor y Rhaglen Drawsnewid

Sefydlwyd Pwyllgor y Rhaglen Drawsnewid (PRhD) i ddod â'r prif randdeiliaid at ei gilydd o bob rhan o OPG, Grŵp Cyfraith a Mynediad at Gyfiawnder y Weinyddiaeth Cyfiawnder, tîm TGCh y MOJ (a'n partneriaid cyflawni), Gwasanaethau Digidol y MOJ a Gwasanaethau Digidol Llywodraeth, i sicrhau bod y rhaglen yn rhedeg yn effeithiol. Hwn yw'r prif fforwm i randdeiliaid a chydweithwyr ar gyfer trawsnewid. Mae PRhD yn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflawni'n brydlon ac yn cwrdd â'r gofynion o ran costau ac ansawdd a bod cwmpas y rhaglen yn cael ei gadw neu ei newid drwy'r llwybr a gytunwyd. Mae bwrdd OPG wedi dirprwyo awdurdod i'r pwyllgor i wneud penderfyniadau ar ei ran.

Aelodau PRhD yn ystod y cyfnod dan sylw oedd:

- **Alan Eccles CBE** – Prif Weithredwr a Gwarcheidwad Cyhoeddus
- **Karen Morley** – Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
- **Iain Dougall** – Pennaeth Gweithrediadau
- **Angela Johnson** – Pennaeth Ymarfer a Chydymffurfio
- **Helen Journeaux** – Pennaeth Dros Dro Strategaeth a Datblygu Busnes, y cymerwyd ei lle gan
  **Chris Jones** – Pennaeth Strategaeth a Datblygu Busnes (yn weithredol o 01/05/2014)
- **Suzi Carberry** – Pennaeth Cyfathrebu
- **Austin Bowers** – Rheolwr Rhaglenni OPG
- **Kit Collingwood-Richardson** – Pennaeth Digidol
- **Steve Turnbull** – Arweinydd TGCh y Weinyddiaeth Cyfiawnder
- **Simon Mee** – Archwilio Mewnol a Sicrwydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder
- **Liz Eaton** – Grŵp Polisi Cyfiawnder
- **Mark O'Neil** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Trawsnewid Swyddfa'r Cabinet, Gwasanaethau Digidol Llywodraeth
- **Janet Grossman** – Cyfarwyddwr Anweithredol

## Prif lwyddiannau

- Cytunodd ar y fframwaith ar gyfer y tîm partneriaethau allanol a chytunodd i'r tîm hwn symud ymlaen â thri chynllun peilot ar wasanaethau digidol â chymorth.
- Parhaodd i fonitro gwariant y rhaglen ar sail yr achos busnes a gymeradwywyd er mwyn sicrhau gwerth am arian a bod gwariant yn aros o fewn terfynau a gytunwyd.
- Cymeradwyodd y rhaglen i gyflwyno Sirius ynghyd â'r cynllun cyflawni ar gyfer cipio dogfennau a data. Roedd y pwyllgor hefyd wedi cymeradwyo'r ffordd ymlaen gwbl ddigidol.
- Cynhaliodd adolygiad Gateway ac archwiliad mewnol yn ystod y cyfnod hwn ynghyd ag archwiliad o'r rhaglen drawsnewid a gyflawnwyd gan gynrychiolydd anweithredol y rhaglen, a'r ddau wedi rhoi sêl bendith ar y rhaglen.
- Sefydlwyd fframwaith buddion i alluogi OPG i adnabod a gwireddu'r buddion arfaethedig o'r rhaglen drawsnewid. Mae hyn yn cynnwys y Gweithgor Gwireddu Buddion sy'n helpu i sicrhau bod OPG yn gallu cael y budd mwyaf o newidiadau sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd a dangosfwrdd buddion sy'n tynnu sylw at yr heriau a'r llwyddiannau a gododd drwy'r rhaglen drawsnewid.

- Mae wedi monitro'r darparu ar yr holl agweddau eraill ar y rhaglen nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau digidol i sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni'n brydlon ac yn cwrdd â'r gofynion o ran costau ac ansawdd.

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg (PAR) yn helpu'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Prif Weithredwr i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth a sicrwydd. Mae'n gorff cynghorol ac nad oes ganddo bwerau gweithredol. Aelodau'r PAR yn ystod 2014/15 oedd:

- **Sarah Wood** – Cadeirydd a Chyfarwyddwr Bwrdd Anweithredol
- **Kate Ivers** – Aelod Annibynnol
- **Yr Athro Anthony Schapira** – Cyfarwyddwr Bwrdd Anweithredol

## Prif lwyddiannau:

- Roedd y PAR wedi cyflawni ei gylch gwaith. Yn ei bedwar cyfarfod, roedd y PAR wedi ystyried yr holl faterion yn ei gylch gwaith ac roedd papurau o safon dda yn ategu eitemau'r agenda. Roedd y papurau wedi codi trafodaeth ac wedi arwain at sylwadau a her gan holl aelodau'r pwyllgor.
- Mae'r PAR wedi dechrau ehangu ei waith i gynnwys mwy na dim ond sicrhau bod y broses risg ar waith a'i bod yn effeithiol ac effeithlon drwy gynnal trafodaethau â pherchnogion risg unigol ynghylch eu dull o reoli risg ac effeithiolrwydd y broses risg iddyn nhw fel rheolwyr busnes. Mae'r newid pwyslais hwn wedi digwydd o ganlyniad i gais gan y PAR ac mae'n arwydd o ddull aeddfetach o adnabod, rheoli a monitro risg yn OPG.
- Sicrhawyd mwy o welliannau ym mhrosesau'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn 2014/15 ac mae llawer o'r clod am y gwelliannau hyn wedi'i briodoli i'r tîm cyllid. Fodd bynnag, mae'r PAR wedi pwyso am weithredu ar sail y gwersi a ddysgwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac am recriwtio'r lefel gywir o staff proffesiynol.
- Mae'r PAR wedi parhau i fonitro perfformiad y tîm archwilio a sicrwydd mewnol. Parhawyd â gwelliannau'r flwyddyn flaenorol ac mae perfformiad a pherthnasedd y rhaglen archwilio mewnol wedi parhau i wella. Mae'r PAR wedi rhoi sylw penodol i'r adroddiadau archwilio mewnol unigol ac wedi holi a herio'r swyddogion ac archwilwyr ar gynnwys yr adroddiadau a'r gwelliannau sydd eu hangen.
- Roedd y PAR wedi newid ei ddull o drafod y ffeithiau a'r ffigurau a gyflwynir i'r pwyllgor er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y materion a oedd yn neilltuol o berthnasol i'r PAR, yn hytrach na dyblygu gwaith y bwrdd. Mae'r newid hwn wedi arwain at holi mwy manwl yn y bwrdd ar faterion penodol sy'n amrywio o lefelau cynhyrchiant i oedi wrth ddelio â cheisiadau i'r llys yn ogystal â nifer yr adroddiadau gan ddirprwyon proffesiynol sydd heb ddod i law – pob un ohonynt yn faterion sy'n peri risgiau posibl i berfformiad cyffredinol OPG.

## Cofnodion presenoldeb y Bwrdd, y Weithrediaeth a'r pwyllgorau

| | Bwrdd OPG | Tîm Rheoli Gweithredol | Pwyllgor y Rhaglen Drawsnewid | Pwyllgor Archwilio a Risg |
|---|---|---|---|---|
| Alan Eccles CBE | 12/12 | 10/12 | 9/12 | |
| Sally Jones | 6/12 | 8/12 | | |
| Karen Morley | 12/12 | 11/12 | 10/12 | |
| Iain Dougall | 12/12 | 11/12 | 8/12 | |
| Angela Johnson | 11/12 | 10/12 | 9/12 | |
| Chris Jones | 10/12 | 8/11 | 8/11 | |
| John Hall | 3/5 | | | |
| Dr Elizabeth Gibby | 5/7 | | | |
| Sarah Wood | 12/12 | | | 4/4 |
| Janet Grossman | 10/12 | | 8/12 | |
| Yr Athro Anthony Schapira | 11/12 | | | 4/4 |
| Helen Journeaux | | 1/1 | 1/1 | |
| Suzi Carberry | | | 12/12 | |
| Austin Bowers | | | 12/12 | |
| Kit Collingwood-Richardson | | | 10/12 | |
| Steve Turnbull | | | 8/12 | |
| Simon Mee | | | 7/12 | |
| Mark O'Neil | | | 5/12 | |
| Kate Ivers | | | | 3/3 |

### Cylchoedd gwaith

Mae cylchoedd gwaith OPG yn unol ag argymhellion y Cyngor Adrodd Ariannol yn 'Guidance on board effectiveness' (Mawrth 2011) a 'Good governance standard for public services' a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)/Office for Public Management Cyf (OPM), er mwyn sicrhau bod ei threfniadau llywodraethu wedi'u hadlewyrchu yn y cylchoedd gwaith. Mae'r cylchoedd gwaith yn sicrhau llywodraethu cyson ac eglur ym mhob rhan o'r busnes, bod llinellau clir ar gyfer penderfynu a bod perchenogaeth ac atebolrwydd cryf yn fframwaith llywodraethu cyffredinol OPG.

### Archwilio Mewnol

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr wedi sefydlu a chynnal trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol gan y MOJ o fewn OPG yn unol â'r amcanion a safonau ar gyfer archwilio mewnol sydd wedi'u datgan yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae gan dîm archwilio mewnol a sicrwydd y MOJ hawl i ddod i mewn i OPG i gwrdd â chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol fel Prif Swyddog Cyfrifyddu. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i weld holl gofnodion, personél ac eiddo ffisegol OPG sy'n berthnasol i'r cyflawni ar ei hymrwymiadau. Mae'r Prif Weithredwr yn darparu copïau o gynlluniau archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad blynyddol OPG i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Hysbysir y MOJ am unrhyw dwyll neu afreoleidd-dra sy'n gyson â'r diffiniad sydd wedi'i bennu gan Drysorlys EM.

Mae'r tîm archwilio mewnol wedi canfod materion o bwys cymedrol a sylweddol mewn systemau a phrosesau penodol nad oedd yn cael eu hystyried yn gyffredin yn y system rheolaeth fewnol drwyddi draw. Roedd asesiad gan swyddogion archwilio mewnol a sicrwydd yn dangos bod digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn 'gymedrol'.

## Fframwaith rheoli risg

Mae OPG yn cynnal fframwaith rheoli risg yn unol â chanllawiau Trysorlys EM yn 'Managing Public Money' a 'Management of Risk – Principles and Concepts', a chanllawiau swyddogol sy'n cael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd, ac yn gyson â pholisi rheoli risg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gan uwchgyfeirio risgiau yn ôl yr angen. Cymeradwywyd diweddariad o bolisi rheoli risg OPG gan Fwrdd OPG yn Hydref 2014. Mae'r polisi'n cynnwys strwythur sicrwydd, fframwaith sicrhau risg a gweithdrefn sicrhau risg OPG. Mae'n cwmpasu pob un o'r meysydd risg gan gynnwys parhad busnes a thwyll. Mae'r broses rheoli risg yn cael ei defnyddio ym mhob rhan o OPG i hybu arloesedd ac effeithlonrwydd.

Mae'r blas am risg yn OPG yn golygu ei bod yn ei hystyried ei hun:

- yn sefydliad blaengar ac arloesol sy'n fwy parod i dderbyn a rheoli risg yn y meysydd hyn:
  - darparu gwasanaeth gwell i gleientiaid
  - moderneiddio a thrawsnewid OPG er lles y cwsmer
  - codi ymwybyddiaeth o'i gwasanaeth er mwyn cyfleu delwedd ac enw da
- yn sefydliad sy'n cadw cydbwysedd rhwng grymuso a diogelu wrth gymell cleientiaid i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain
- yn sefydliad sy'n gwrthwynebu risg, sy'n llai parod i dderbyn a rheoli risg yn y meysydd hyn:
  - arfer pwerau a swyddogaethau statudol y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn effeithiol
  - darparu system goruchwylio seiliedig ar risg ar gyfer dirprwyon a sicrhau bod mesurau diogelu ar gyfer oedolion agored i niwed i adnabod, atal a rhwystro cam-drin lle bo modd
  - ei systemau rheoli a llywodraethu mewnol.

Mae cofrestr risg OPG yn tynnu sylw at y prif risgiau i'r gallu i gyflawni amcanion busnes OPG a gweithredu ei strategaethau'n llwyddiannus. Mae'r gofrestr hon ar gael ac yn cael ei diweddaru bob mis ochr yn ochr â'r cofrestrau risg adrannol. Mae'n eitem ar agenda cyfarfodydd chwarterol y pwyllgor archwilio a risg.

Risgiau corfforaethol OPG a gafodd eu hadnabod a'u rheoli ar gyfer 2014/15 oedd:

1. bod OPG heb y gallu i gwrdd â'r gofynion perfformiad ar gyfer darparu offerynnau LPA cofrestredig i'n cwsmeriaid
2. bod OPG heb y gallu i gael a chadw adnoddau i sicrhau capasiti digonol i gynnal ei pherfformiad oherwydd cynnydd yn ei llwythi gwaith
3. bod OPG yn cael ei gorlwytho gan fentrau newid ar gyfer cyflawni amcanion busnes OPG
4. ei bod yn methu â chyflawni dyletswyddau goruchwylio, diogelu ac ymchwilio'n effeithiol
5. nad yw'r mannau gweithio yn cwrdd â'r anghenion a gofynion ar gyfer recriwtio staff ychwanegol i brosesu'r llwyth gwaith y mae disgwyl iddo gynyddu o un flwyddyn i'r llall
6. bod trydydd partïon yn methu â chyflawni eu hymrwymiadau o fewn amserlenni OPG.

Yn ystod y flwyddyn, mae OPG wedi:

1. parhau i fonitro a rheoli'r risg o ran cofrestru LPA yn effeithiol. Mae'r perfformiad ar ddarparu LPA wedi cwrdd â'r targedau a rhagori arnynt ar systemau rheoli achosion (atwrneiaethau) MERIS. Gweithredwyd ar sail y gwersi a ddysgwyd ac mae camau gweithredu a mesurau wrth gefn wedi'u mabwysiadu er mwyn parhau i gofrestru LPA yn unol â disgwyliadau cwsmeriaid. Mae MERIS a CASREC (y system rheoli achosion goruchwylio) wedi aros yn

gymharol sefydlog drwy gydol y flwyddyn, ac mae cynlluniau wrth gefn a chytundebau lefel gwasanaeth effeithiol wedi'u gwneud i ddelio ag unrhyw gyfnodau di-fynd. Mae'r system rheoli achosion newydd, SIRIUS, i'w chyflwyno yn 2015/16 i gymryd lle'r ddwy system bresennol, a bydd y systemau'n rhedeg ar y cyd yn ystod y cyfnod gweithredu

2. monitro lefelau staffio a chynyddu galluogrwydd. Mae staff wedi'u recriwtio drwy gydol y 12 mis diwethaf ac roedd y prif heriau'n ymwneud â'r amser a gymerir i fynd drwy brosesau diogelwch. Cadwyd at y lefel perfformiad, a rhagori arni mewn rhai achosion, drwy ymrwymiad ac ymroddiad y staff at gyflawni amcanion OPG ar gyfer ein cwsmeriaid
3. cyflwyno a chynnal fframwaith newid a thîm i reoli newid ar draws OPG, ar y cyd â gwella parhaus. Mae ein hadroddiad rhagolwg gwell wedi'i gwblhau a chyflwynir adroddiadau misol i dîm Swyddfa'r Prif Weithredwr sy'n caniatáu i ni fonitro amcanion, prosiectau, mentrau a pholisïau
4. cwblhau prosiect yr adolygiad o oruchwyliaeth a chynnwys ei argymhellion yn ein busnes arferol. Mae'r cam gweithredu hwn yn gysylltiedig ag adnoddau staff a'r gallu i recriwtio a chadw staff, gan fod cyfyngiadau o hyd ar y mannau gweithio ar gyfer staff goruchwylio sydd wedi'u lleoli yn Nottingham. Parhawyd i gyrraedd y targedau ar gyfer ymchwilio a sicrhawyd staff ychwanegol ynghyd â hyfforddiant i ddarparu cymorth
5. sefydlu bwrdd prosiect ar gyfer ystadau OPG. Mae OPG i feddiannu adeilad yn lle'r un presennol yn Nottingham erbyn Medi 2015, a rhoddwyd blaenoriaeth i hyn. Mae'r mannau gweithio y mae OPG yn eu meddiannu yn adeilad The Axis yn Birmingham yn cael eu had-drefnu'n llwyr. Bydd y risg hon yn cael ei dwyn ymlaen i gofrestr risg OPG ar gyfer 2015/16
6. cyrraedd y sgôr arfaethedig ar gyfer y risg hon yn Rhagfyr 2014 a pharhawyd i fonitro hyn drwy weddill y flwyddyn ariannol.

## Fframwaith sicrhau risg


Pwrpas fframwaith sicrhau risg OPG yw rheoli risg ar lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg i'r gallu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly mae'n rhoi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd, nid sicrwydd llwyr.

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus sydd â'r amcan o:


- adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i'r gallu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion OPG
- gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith o hynny
- rheoli'r risgiau hynny'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae Ffigur 3 yn dangos trosolwg ar y fframwaith sicrhau risg ar gyfer 2014/15 a Ffigur 4 yn dangos trosolwg ar y broses rheoli risg ac adrodd ar gyfer 2014/15.

## Ffigur 3 Fframwaith rheoli risg



## Ffigur 4 Proses rheoli risg a fframwaith adrodd



## Gwrth-dwyll

Mae OPG wedi mabwysiadu cynllun ymateb i dwyll sydd wedi'i ategu gan bolisi gwrth-dwyll a llygredd y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae gan OPG Arbenigwr Gwrth-dwyll Achrededig (ACFS) sy'n aelod o'r Sefydliad Arbenigwyr Gwrth-dwyll (ICFS), a grŵp Cydgysylltu Gwrth-dwyll y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ac mae'n gallu manteisio ar yr ymarfer gorau ym mhob rhan o'r adran pan fydd angen.

Cynhaliwyd rhaglen dreigl o sesiynau ymwybyddiaeth o dwyll ar gyfer staff presennol a newydd. Bydd y sesiynau hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw achosion o dwyll.

Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dwyll allanol yn erbyn OPG yn ystod 2014/15. Rhoddwyd gwybod am nifer o sgamiau, a hysbyswyd Action Fraud am bob un o'r rhain.

## Parhad busnes

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau o bwys yn 2014/15. Fodd bynnag, cafwyd digwyddiadau bach mewn cysylltiad â MERIS, ffonau a'r prif gyflenwad dŵr ond deliwyd â'r rhain yn effeithiol ac adferwyd busnes heb unrhyw amharu sylweddol ar y gweithrediadau. Rhoddwyd cynllun wrth gefn y ganolfan gyswllt ar waith yn llwyddiannus yn Birmingham (Mehefin 2014) ar ôl gwacáu adeilad yn Nottingham am gyfnod hir.

Mae tîm llywodraethu a sicrwydd OPG yn cynnwys dau aelod sydd wedi'u hyfforddi a'u hachredu gan y Sefydliad Parhad Busnes i gyflawni'r swyddogaeth hon. Mae OPG yn parhau i feithrin gallu i reoli risg o amharu, gwella cydnerthedd yn awr ac yn y dyfodol, a pharhau â chynlluniau ar gyfer adfer ar ôl digwyddiadau. Yn ystod 2014/15 cafwyd archwiliad mewnol o barhad busnes a oedd wedi arwain at dri argymhelliad â blaenoriaeth is. Ym Medi 2014 sefydlwyd fforwm parhad busnes y MOJ ar gyfer Canolbarth Lloegr i wella rhwydweithiau ac ehangu galluogrwydd yn y rhanbarth, a chafwyd cyfraniad sylweddol gan dîm OPG.

Yn Ebrill 2014, cynhaliwyd ymarfer parhad busnes gyda'r weithrediaeth a oedd wedi arwain at lunio rhestr o 28 o gamau gweithredu i ymateb i anghenion y tîm. Un eitem bwysig oedd argymell cynhyrchu cardiau swydd ar gyfer pob un o'r rolau penodedig yn y tîm rheoli digwyddiadau a pharhad busnes. Mae'r rhain wedi'u cynhyrchu a rhoddir prawf arnynt yn ystod ymarfer pen bwrdd arall sydd wedi'i drefnu ar gyfer Mai 2015. Yn Rhagfyr 2014, cyfarfu'r tîm gweithredol i benderfynu ar yr wyth gweithgaredd uchaf eu blaenoriaeth ar gyfer y broses ymadfer ar ôl trychineb. Dewiswyd pump ym maes gweithrediadau a thri ym maes ymarfer a chydymffurfio. Cynhaliwyd sesiynau ymwybyddiaeth hefyd ar gyfer meysydd busnes gweithrediadau a goruchwyliaeth yn 2014.

## Diogelu a sicrhau gwybodaeth

Mae OPG wedi penodi Swyddog Arweiniol Gweithredol Sicrhau Gwybodaeth i gyflawni rôl yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth, gyda chymorth gan Bennaeth Diogelu a Sicrhau Gwybodaeth penodedig. Mae dull OPG o weithredu'n gyson â pholisi llywodraeth ac yn cynnwys datganiad ar flas am risg ynghylch gwybodaeth, Cofrestr Asedau Gwybodaeth a risgiau gwybodaeth cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Gwasanaethau Corfforaethol a Chofrestr Risg OPG (fel y bo'n briodol) yn unol â phroses llywodraethu OPG.

Pwrpas ein proses ymateb ar ôl digwyddiadau yw nodi ac ymateb i unrhyw achosion o golli gwybodaeth. Mae'r broses yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd ac anfonir diweddariadau ar ddiwedd y mis at berchenogion asedau gwybodaeth OPG. Cyflwynir adroddiadau chwarterol i

dîm Rheoli Gweithredol OPG a Phwyllgor Archwilio a Risg OPG ac maent yn cael eu cynnwys yn y datganiadau adrannol chwarterol.

Mae'r rheolaethau'n cynnwys:

- gweithdrefn sicrhau risg gyda rheolaethau sy'n ymwneud yn benodol â gweithdrefnau a chyfrifoldebau diogelu gwybodaeth
- anogaeth i'r holl staff ddilyn hyfforddiant diweddaru blynyddol ar sicrhau gwybodaeth a hyfforddiant gorfodol i'r holl ddechreuwyr newydd. Cynhaliwyd dau ddiwrnod 'Ymwybyddiaeth o Sicrhau Gwybodaeth' ar gyfer uwch-reolwyr OPG ym mis Tachwedd 2014 a mis Mawrth 2015. Darperir hyfforddiant ychwanegol hefyd yn ôl yr angen
- tudalennau ar wahân ar fewnrwyd y staff sy'n rhoi cyngor ac arweiniad penodol ar sicrhau gwybodaeth ac ystyriaethau diogelwch, gan gynnwys sut i osod marciau diogelu a chanllawiau ar 'rolau a chyfrifoldebau' wrth drin gwybodaeth. Mae cynnwys ar y fewnrwyd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd
- rheolwyr sydd â chyfrifoldebau penodol dros ddiogelu gwybodaeth sy'n dilyn hyfforddiant seiberddiogelwch yn unol â'r seiberstrategaeth adrannol
- cwblhau asesiadau effaith risg a phreifatrwydd gwybodaeth ar bob un o'n systemau TG allweddol. Mae rheolwr sicrhau data mewnol wedi'i ddynodi i oruchwylio'r gwaith hwn mewn perthynas â'r broses barhaus yn OPG ar gyfer trawsnewid TG
- polisi desg glir.

## Digwyddiadau (colli/peryglu) gwybodaeth

Cofnodwyd 859 o ddigwyddiadau lle'r oedd gwybodaeth wedi'i cholli a/neu ei chamgyfeirio yn ystod 2014/15, sy'n ffigur uwch nag yn 2013/14. Roedd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau a nodwyd (784) ym maes gweithrediadau (ceisiadau a phrosesu). Fodd bynnag, roedd nifer y digwyddiadau'n parhau'n isel iawn (0.2%) o'i gymharu â chyfanswm y ceisiadau am atwrneiaeth a broseswyd yn 2014/15.

Parheir i ddarparu diweddariadau misol i uwch-reolwyr ar ddigwyddiadau fel y gallant herio effeithiolrwydd y rheolaethau ar brosesu. Cyflwynir adroddiadau chwarterol i arweinwyr y weithrediaeth (fel y nodwyd uchod) i sicrhau bod meysydd/unigolion perthnasol yn parhau'n ymwybodol o'r wybodaeth y maent yn ei thrin a'i rheoli, a'u bod yn atebol amdani.

Mae ymdrechion yn parhau i ostwng nifer y digwyddiadau drwy gynllunio gwelliannau yn y broses adrodd ar dor-rheolaeth ar wybodaeth a gwella monitro mewnol. Bydd hyn yn cynnwys:

- adolygiad pellach o'r lefelau niwed/effaith a briodolir i'r holl fathau o golli gwybodaeth yn unol ag adolygiad o'r blas am risg yn OPG mewn perthynas â gwybodaeth
- ffurflen adrodd symlach, gyda llai o feysydd i'w llenwi gan y rheini sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau
- proses i hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r polisi desg glir i godi ymwybyddiaeth staff o ffyrdd da o drin a rheoli gwybodaeth.

Yn ystod 2014/15 cyfeiriwyd un digwyddiad at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y nodir isod:

| Dyddiad y digwyddiad (mis) | Natur y digwyddiad | Natur y data a oedd yn gysylltiedig | Nifer y bobl y gall effeithio arnynt | Camau hysbysu |
|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Colli dogfennau achos OPG yn ystod ymweliad gan gontractwr ag atwrnai. | Gwybodaeth am achos gan gynnwys rhai data personol sensitif | Effeithiwyd ar un unigolyn | Gwnaeth OPG gais ffurfiol am ddychwelyd unrhyw ddogfennau a oedd ym meddiant yr atwrnai. Hyd yn hyn, ni chafwyd y dogfennau'n ôl. Cadarnhaodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth na chymerir camau gorfodi. |
| Camau pellach ar risg gwybodaeth | Bydd yr adran yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn adnabod ac ymateb i unrhyw wendidau a sicrhau bod ei systemau'n gwella'n barhaus. | | | |


## Swyddog Cyfrifyddu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol OPG, gan gynnwys y fframwaith rheoli risg. Wrth gynnal fy adolygiad, rwyf yn ystyried gwaith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn OPG. Maent yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal fframwaith rheolaeth fewnol OPG, ac am sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill. Yn eu hadroddiad blynyddol, mae ein harchwilwyr mewnol wedi rhoi sicrwydd cyffredinol bod lefel 'gymedrol' o sicrwydd gan OPG. Mae Bwrdd OPG a'r pwyllgor archwilio a risg wedi rhoi gwybod i mi am y goblygiadau sy'n codi o'r adolygiad hwn. Rwyf wedi fy modloni bod cynllun ar waith yn awr i ymdrin â gwendidau yn y system rheolaeth fewnol, a sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus. Rwyf wedi fy modloni hefyd fod yr holl risgiau perthnasol wedi'u nodi a'u rheoli'n briodol.

## Datgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn cadarnhau'r canlynol:

- nad oes gwybodaeth berthnasol y mae archwilwyr OPG yn anymwybodol ohoni
- fy mod wedi cymryd yr holl gamau dyladwy i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth archwilio berthnasol
- fy mod wedi cymryd yr holl gamau dyladwy i gadarnhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o wybodaeth o'r fath.



**Alan Eccles CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
18 Mehefin 2015

# Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Senedd

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian, Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u nodi ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol y nodwyd yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

### Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn fwy helaeth yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun teg a chywir. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Wrth gynnal archwiliad cymerir camau i gael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n addas i amgylchiadau Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu o bwys sydd wedi'u gwneud gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus; a'r dull cyffredinol o gyflwyno'r datganiadau ariannol.

Yn ogystal â hyn, rwyf wedi darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i ganfod anghysonderau o bwys â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i ganfod unrhyw wybodaeth sydd i'w gweld yn anghywir o'i hanfod, neu'n anghyson o'i hanfod, ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad. Os byddaf yn dod i wybod am unrhyw beth sy'n ymddangos yn gamddatganiad neu'n anghysonder o bwys, byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael gwybodaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio i'r dibenion sydd wedi'u bwriadu gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob mater o bwys mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn am y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar 31 Mawrth 2015 ac o'r gwarged gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a ddyroddwyd o dani.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a oedd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y rhagair a'r adroddiad strategol am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd amdanynt fel eithriad yn unig

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol, y byddaf yn adrodd amdanynt os credaf:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw na bod datganiadau digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad cydnabyddiaeth ariannol sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r datganiadau; neu
- na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen er mwyn archwilio; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n dangos cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn

**Syr Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**22 Mehefin 2015**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau ariannol

| Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 | Nodyn | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|---|
| Rhaglenni: | 7 | | |
| Costau staff | 3 | 25,776 | 19,930 |
| Gwariant arall | 4/5 | 14,517 | 11,965 |
| Incwm | 2/6 | (51,411) | (42,626) |
| Gwarged gweithredu net | | (11,118) | (10,731) |

| Gwariant Net Cynhwysfawr arall | Nodyn | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|---|
| (Enillion) colledion net ar ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | (48) | 15 |
| Colledion net ar ailbrisio asedau anniriaethol | 8a | 7 | 22 |
| Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr | | (11,159) | (10,694) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65 i 82 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

| **Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2015** | **Nodyn** | **31 Mawrth 2015** | | **31 Mawrth 2014** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | | 1,065 | | 1,292 |
| Asedau anniriaethol | 8a | | 7,982 | | 4,446 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | | **9,047** | | **5,738** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 9 | 35,419 | | 24,002 | |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 10 | 1,356 | | 2,911 | |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | | **36,775** | | **26,913** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | | **45,822** | | **32,651** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill | 11 | (3,144) | | (3,207) | |
| Darpariaethau | 12 | (230) | | (188) | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(3,374)** | | **(3,395)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **42,448** | | **29,256** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau | 12 | | (119) | | (146) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | | **(119)** | | **(146)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | **42,329** | | **29,110** |
| **Ecwiti'r trethdalwyr** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | | 41,940 | | 28,762 |
| Cronfa ailbrisio | | | 389 | | 348 |
| **Cyfanswm ecwiti'r trethdalwyr** | | | **42,329** | | **29,110** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65 i 82 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Alan Eccles CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
18 Mehefin 2015

| OPG – Datganiad o'r Llifau Arian am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 | Nodyn | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged am y flwyddyn | | 11,118 | 10,731 |
| Taliadau eraill nad ydynt yn arian parod | 5 | 3,822 | 3,699 |
| Costau gweithredu eraill nad ydynt yn arian parod | 4 | 1,184 | 1,111 |
| Symiau eraill nad ydynt yn arian parod | | 14 | - |
| | | **16,138** | **15,541** |
| (Cynnydd) mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 9 | (11,417) | (668) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill | 11 | (63) | 741 |
| Defnydd o ddarpariaethau wedi'i setlo gan OPG | 12 | (188) | (175) |
| **Mewnlifau arian net o weithgareddau gweithredu** | | **4,470** | **15,439** |
| **Llifau arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | - | (148) |
| Prynu asedau anniriaethol | 8a | (4,361) | (2,997) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(4,361)** | **(3,145)** |
| **Llifau arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Trosglwyddo o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | | (1,664) | (11,672) |
| **Ariannu net** | | **(1,664)** | **(11,672)** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod** | | **(1,555)** | **622** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod** | **10** | **2,911** | **2,289** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod** | **10** | **1,356** | **2,911** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65 i 82 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

| Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 | Nodyn | Cronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Ailbrisio £000 |
|---|---|---|---|
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2014** | | **28,762** | **348** |
| **Enillion/(colledion) net ar ailbrisio:** | | | |
| Ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | | - | 48 |
| Ailbrisio asedau anniriaethol | | - | (7) |
| **Taliadau nad ydynt yn arian parod** | | | |
| Tâl yr archwilydd | 5 | 52 | - |
| Costau wedi'u setlo gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder | 4 | 1,184 | - |
| Elfen dybiannol o daliadau a ailgodwyd gan yr Adran | 5 | 2,505 | - |
| Symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn y Weinyddiaeth Cyfiawnder | | (1,664) | - |
| Arall | | (17) | - |
| **Gwarged net am y flwyddyn** | | **11,118** | **-** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2015** | | **41,940** | **389** |

| Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 | Nodyn | Cronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Ailbrisio £000 |
|---|---|---|---|
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2013** | | **26,008** | **385** |
| **Enillion/(colledion) net ar ailbrisio:** | | | |
| Ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | | - | (15) |
| Ailbrisio asedau anniriaethol | | - | (22) |
| **Taliadau nad ydynt yn arian parod** | | | |
| Tâl yr archwilydd | 5 | 52 | - |
| Elfen dybiannol o daliadau a ailgodwyd gan yr Adran | 5 | 2,532 | - |
| Costau wedi'u setlo gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder | 4 | 1,111 | - |
| **Gwarged net am y flwyddyn (Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr)** | | 10,731 | - |
| Diddymu gweddillau o fewn y grŵp i adlewyrchu ildio asedau gormodol yn barhaol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | | (11,672) | - |

| Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 | Nodyn | Cronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Ailbrisio £000 |
|---|---|---|---|
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2014** | | **28,762** | **348** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 65 i 82 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

Am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail y paratoi

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi'n unol â gofynion llawlyfr adroddiadau ariannol y llywodraeth (LlAALl) 2014/15 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn LlAALl yn cymhwyso safonau rhyngwladol ar adroddiadau ariannol fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli yng nghyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle y mae LlAALl yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf addas i amgylchiadau penodol yr asiantaeth er mwyn rhoi darlun teg a chywir. Mae polisïau cyfrifyddu'r asiantaeth wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau y credwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Heb gyfyngu'r wybodaeth a roddwyd, mae'r cyfrifon yn cwrdd â'r gofynion am gyfrifyddu a datgelu yn y Ddeddf Cwmnïau a'r safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi neu eu mabwysiadu gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu a Thrysorlys EM i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol.

Nid yw'r datganiad o wariant net cynhwysfawr wedi'i rannu rhwng gwariant net ar weinyddu a gwariant net ar raglenni gan fod y cyfan o wariant net OPG wedi'i gategoreiddio'n wariant rhaglenni, ar sail asesiad o'r gwaith a gyflawnwyd gan OPG, sy'n wasanaethau rheng flaen gan mwyaf. Cytunwyd ar y dosbarthiad hwn â Thrysorlys EM.

Mae OPG wedi asesu'r newidiadau arfaethedig yn LlAALl ar gyfer 2014/15, ac unrhyw safonau cyfrifyddu newydd a gyhoeddwyd nad ydynt mewn grym eto, ac wedi penderfynu na fyddai effaith sylweddol ar ei chyfnod cyfredol neu flaenorol nac ar gyfnod yn y dyfodol.

### 1.2 Busnes hyfyw

Mae'r asiantaeth yn cael ei hariannu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, o'i Chyflenwad Seneddol a chan incwm a geir o ffioedd a thaliadau oddi wrth gwsmeriaid allanol.

Yn yr un modd ag asiantaethau llywodraeth eraill, rhaid i'r adran sy'n ein noddi a'r Senedd gymeradwyo ein cyllid yn y dyfodol.

Mae cyllid wedi'i gymeradwyo eisoes ar gyfer 2015/16 ac mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw i ddibenion adroddiadau ariannol a phrisio asedau.

### 1.3 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail croniadau, o dan y confensiwn costau hanesyddol wedi'i addasu i roi cyfrif am ailbrisio asedau anghyfredol.

### 1.4 Cydnabod incwm

**Incwm gweithredu**

Mae incwm gweithredu'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu OPG. Yn bennaf mae'n cynnwys ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd ar sail costau llawn i gwsmeriaid allanol, net o ffioedd nas codwyd (gweler nodyn) ac yn net o TAW.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu ar gyfer codi ffioedd mewn

perthynas ag achosion sydd wedi'u dwyn mewn cysylltiad â'r swyddogaethau a gyflawnir gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Ceir lefelau'r taliadau mewn dau Offeryn Statudol, Rheoliadau Atwrneiaethau Arhosol, Atwrneiaethau Parhaus a'r Gwarcheidwad Cyhoeddus 2007 a Rheoliadau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (Ffioedd etc) 2007.

Mae'r strwythur ffioedd sydd mewn grym ar gyfer 2014/15 wedi'i bennu ers ei newid ar 1 Hydref 2011 gan Reoliadau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (Ffioedd etc) (Diwygio) 2011 a oedd yn diwygio ac yn diweddaru Rheoliadau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (Ffioedd etc) 2007.

**Goruchwyliaeth gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus a ffioedd dirprwyaeth**

Mae'r rheoliadau'n disodli'r gwahanol ffioedd a oedd yn daladwy gan dderbynwyr a benodwyd gan y llys ac yn rhoi un ffi sefydlu yn eu lle, sy'n daladwy pan fydd dirprwyaeth newydd yn cael ei hasesu gyntaf ar gyfer goruchwyliaeth; ac un ffi gweinyddu flynyddol. Rhoddir achosion o dan un o bedwar math o oruchwyliaeth ac maent yn dod â ffioedd blynyddol i mewn yn ôl y lefel sydd wedi'i phennu. Mae'r rhan fwyaf o'r achosion yn dod o dan un categori goruchwyliaeth. Mae incwm yn cael ei gydnabod drwy ffioedd goruchwylio sydd wedi'u cyfrifo ar sail pro rata:

- os yw mwy nag un math o oruchwyliaeth wedi'i chymhwyso o fewn cyfnod o un flwyddyn; neu
- os yw'r oruchwyliaeth wedi bod ar waith am lai nag un flwyddyn; neu
- os bydd y person sydd heb alluedd neu'r dirprwy'n marw. Mae ffioedd yn daladwy hyd at ddyddiad y farwolaeth.

**Ffioedd cofrestru EPA ac LPA**

Mae incwm yn cael ei gydnabod pan wneir y cais. Mae'r ffi gofrestru'n daladwy gyda'r cais. Mae ffi gofrestru ar wahân yn daladwy am LPA eiddo a materion ariannol ac LPA iechyd a lles pan wneir pob cais.

## 1.5 Esemptio a pheidio â chodi ffioedd

Mae'r ddau offeryn yn darparu ar gyfer esemptio a pheidio â chodi ffioedd. Mae esemptiadau'n gymwys i bobl sy'n derbyn budd-daliadau cymwys sy'n dibynnu ar brawf modd nad ydynt wedi derbyn iawndal o fwy na £16,000, sydd wedi'i ddiystyru i ddibenion cymhwysedd am y budd-daliadau hyn. Mae polisi OPG ar feini prawf yn gyson â'r polisïau a fabwysiadwyd gan asiantaethau eraill llywodraeth o ran diystyru dyfarndaliadau o'r fath. Mae'r offerynnau'n darparu hefyd ar gyfer hepgor neu leihau ffioedd os byddai eu talu, oherwydd amgylchiadau eithriadol yr achos, yn achosi caledi gormodol.

Mae OPG yn gyfrifol am awdurdodi esemptio rhag talu ffioedd ac am gymeradwyo ceisiadau am hepgor ffioedd ar sail amgylchiadau eithriadol.

Gellir gwneud cais am esemptio neu beidio â chodi ffioedd gyda'r ffurflen gais gyntaf neu ei gyflwyno o fewn chwe mis i'r cais. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar ôl derbyn cais dilys.

Yn yr achosion hynny lle na wneir cais am esemptio neu beidio â chodi ffioedd gyda'r cais gwreiddiol am LPA, mae amod bod rhaid derbyn cais wedi'i lenwi am esemptio neu beidio â chodi ffioedd o fewn chwe mis ar ôl codi'r anfoneb.

Os talwyd ffi a bod cytundeb wedyn i esemptio neu beidio â chodi'r ffi, rhoddir ad-daliad.

Mae ffioedd sydd wedi'u hesemptio neu heb eu codi yn cael eu cydnabod yn ostyngiad mewn incwm ar ôl derbyn ffurflenni dilys o fewn y flwyddyn. Mae darpariaeth yn cael ei chydnabod ar sail asesiad manwl o'r graddau y caniatawyd esemptio a pheidio â chodi ffioedd

goruchwylio o fewn y flwyddyn ar ôl cydnabod yr incwm. Hwn yw'r swm y gellir rhag-weld ei dderbyn am esemptio a pheidio â chodi tâl yn y flwyddyn ddilynol (nodyn 9). Mae incwm wedi'i ddangos yn net o daliadau sydd wedi'u hesemptio a heb eu codi yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr, ac yn fanylach ar sail gros yn nodyn 2.

## 1.6 Buddion cyflogeion

**Croniad am wyliau cyflogeion a thaliadau bonws perfformiad**

Gwneir croniad ar gyfer gwyliau cyflogeion sydd heb eu cymryd, gwyliau oriau hyblyg a thaliadau bonws perfformiad.

**Costau ymadael yn gynnar**

Mae'n ofynnol i OPG dalu'r gost ychwanegol am fuddion mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar, oni bai eu bod wedi ymddeol ar sail feddygol a gymeradwywyd. Darperir cyfanswm y gost yn llawn pan fydd y rhaglen ymadael cynnar wedi'i chyhoeddi a phan fydd yn rhwymo OPG.

**Pensiynau**

Mae darpariaethau prif gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil (PGPGS), sydd wedi'i ddisgrifio yn nodyn 3.2 ac yn yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol, yn cynnwys cyflogeion presennol a blaenorol. Nid yw'r cynlluniau buddion diffiniedig yn cael eu hariannu ac nid ydynt yn gyfrannol heblaw yng nghyswllt buddion dibynyddion. Mae'r asiantaeth yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa o wasanaethau cyflogeion, drwy dalu symiau i PGPGS sydd wedi'u cyfrifo ar sail gronnol. Mae atebolrwydd i dalu am fuddion yn y dyfodol yn cael ei godi ar PGPGS. Mewn perthynas â'r cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae'r asiantaeth yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn ariannol.

## 1.7 Lesoedd

Lle mae'r holl risgiau a manteision o fod yn berchen ar ased wedi'i lesio'n cael eu dwyn i raddau sylweddol gan yr asiantaeth, mae'r ased yn cael ei ddynodi'n les ariannu, yn cael ei gofnodi'n ased anghyfredol a'r ddyled yn cael ei chofnodi i lesydd y taliadau les lleiaf, wedi'u disgowntio ar y gyfradd llog sy'n oblygedig yn y les. Mae'r elfen llog yn nhaliad y les ariannu yn cael ei chodi ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr dros gyfnod y les, ar gyfradd gyson mewn perthynas â'r gweddill sydd heb ei dalu.

Mae lesoedd eraill yn cael eu hystyried yn lesoedd gweithredu a chodir y taliadau rhentu ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Yn unol ag egwyddorion IAS 17 (Leases) a'r canllawiau atodol sydd wedi'u nodi yn SIC 15 (Operating lease incentives), mae OPG wedi gwasgaru gwerth y cyfnod di-rent ar gyfer meddiannu lle yn The Axis Building dros y cyfnod dechreuol o 10 mlynedd.

## 1.8 Taliadau nad ydynt yn arian parod

Mae taliadau nad ydynt yn arian parod wedi'u cynnwys yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr i adlewyrchu cost lawn gwasanaethau'r asiantaeth, yn unol â LIAALl a 'Managing Public Money'. Mae'r taliadau hyn yn cynnwys:

**Taliadau cynnal pencadlys y Weinyddiaeth Cyfiawnder**

Mae'r cyfrifiadau ym methodoleg y MOJ ar ailgodi taliadau'n cael eu cymhwyso'n gyson a thryloyw i ddosrannu gorbenion gan gynnwys adnoddau dynol a TGCh i holl adrannau ac asiantaethau'r MOJ ar sail nad yw'n arian parod.

**Tâl yr archwilydd allanol**

Y tâl sydd heb fod yn arian parod am yr archwiliad statudol o'r cyfrifon a gyflawnir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

## 1.9 Dyledion drwg

Mae dyledion drwg yn cael eu dileu ar ôl eu hadnabod. Gwneir darpariaeth ar gyfer dyledion amheus ar sail adolygiad penodol o'r achosion unigol, sy'n cael ei debydu o'r gweddill ar gyfer symiau masnach derbyniadwy a'i chyflwyno wedyn ar sail net.

## 1.10 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

**Cydnabod**

Mae eitemau eiddo, peiriannau a chyfarpar, gan gynnwys gwariant dilynol ar asedau presennol, yn cael eu cydnabod yn gyntaf ar eu cost os yw'n debygol y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r ased yn dod i ran OPG yn y dyfodol a bod modd mesur cost yr ased yn ddibynadwy. Mae'r holl gostau eraill am atgyweirio a chynnal a chadw'n cael eu codi ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn ystod y cyfnod ariannol pan ydynt yn cael eu hysgwyddo.

**Trothwy cyfalafu – asedau unigol**

Trothwy cyfalafu OPG ar gyfer asedau unigol yw £1,000 (yn cynnwys TAW).

**Trothwy cyfalafu – grwpiau o asedau**

Os prynir asedau unigol yng nghyswllt un prosiect am gost sylweddol sydd yn unigol o dan y trothwy cyfalafu, byddant yn cael eu trin fel grŵp o asedau. Fel arfer mae grŵp o asedau:

- yn system integredig o gyfarpar amrywiol sydd wedi'i bwriadu i ateb angen penodol, er enghraifft, prosiect i adnewyddu cyfarpar TG;
- yn ddodrefn neu gyfarpar TG sydd wedi'u caffael am gost sylweddol ar un safle; neu
- yn rhaglenni ar gyfer adnewyddu cyfarpar TG a dodrefn, lle mae'r gwariant arfaethedig yn uwch na'r trothwy cyfalafu.

**Dull prisio**

Yn achos asedau eiddo eraill y parheir i'w defnyddio, y dehongliad o'r gwerth teg yw gwerth y farchnad am y defnydd presennol. Y diffiniad o hyn yw 'gwerth y farchnad gan gymryd bod yr eiddo'n cael ei werthu'n rhan o fenter barhaus sydd â meddiant'. 'Gwerth ar ddefnydd' ased nad yw'n cynhyrchu arian parod yw gwerth presennol y potensial gwasanaeth sy'n weddill yn yr ased, y gellir cymryd ei fod yn gyfwerth o leiaf â'r gost o gyfnewid y potensial gwasanaeth hwnnw.

Mae asedau nad ydynt yn eiddo wedi'u cynnwys ar eu cost wrth eu prynu ac yn cael eu hailddatgan ar bob dyddiad adrodd gan ddilyn mynegrifau priodol (monitor busnes MM22) a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**Ailbrisio**

Os bydd gwerth cario'r ased yn cynyddu o ganlyniad i ailbrisio, bydd unrhyw warged o ailbrisio'n cael ei gredydu i'r datganiad o wariant net cynhwysfawr arall ac yn cael ei gronni'n syth yn ecwiti'r trethdalwyr o dan bennawd y gronfa ailbrisio. Un eithriad i hyn yw unrhyw enillion ar ôl ailbrisio sy'n gwrthdroi gostyngiad ar ôl ailbrisio ar yr un ased a oedd wedi'i gydnabod yn draul cyn hynny. Bydd enillion o'r fath yn cael eu credydu'n gyntaf yn y gost gweithredu net yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr i'r graddau y mae'r enillion yn gwrthdroi colled a oedd wedi'i chydnabod cyn hynny yn y gost gweithredu net yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr.

Bydd gostyngiad ar ôl ailbrisio'n cael ei godi ar y gronfa ailbrisio i'r graddau nad yw'n fwy na'r swm sydd wedi'i ddal yn y gronfa ailbrisio mewn perthynas â'r un ased. Bydd unrhyw ostyngiad gweddilliol yn cael ei gydnabod wedyn yn y gost gweithredu net yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr.

Bob blwyddyn bydd y gwahaniaeth rhwng dibrisiant wedi'i seilio ar swm cario'r ased ar ôl ei ailbrisio a dibrisiant wedi'i seilio ar gost wreiddiol yr ased yn cael ei

drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol.

**Dibrisiant**
Codir am ddibrisiant ar sail llinell syth ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo fel eu bod yn dileu gwerth yr asedau, llai amcangyfrif o'r gwerth gweddilliol wedi'i rannu'n gyfartal dros eu hoes fuddiol amcangyfrifedig neu, yn achos asedau a lesiwyd, dros gyfnod y les neu'r cyfnod sy'n oblygedig yn yr amserlen ad-dalu. Mae oes fuddiol asedau neu gategorïau asedau'n cael ei hadolygu bob blwyddyn a thrafodir unrhyw newidiadau â'r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod y goblygiadau o ran cyllidebu wedi'u hystyried yn briodol. Os cytunir ar newid yn oes yr ased, caiff yr ased ei ddibrisio ar sail llinell syth dros weddill yr oes a aseswyd ar ei gyfer. Bydd dibrisiant yn cychwyn yn y mis ar ôl caffael ased anghyfredol.

Os yw eitem o eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys dwy neu ragor o gydrannau pwysig, sydd ag oesau buddiol gwahanol iawn, yna bydd pob cydran yn cael ei thrin ar wahân i ddibenion dibrisio ac yn cael ei dibrisio dros ei hoes fuddiol unigol.

Mae oesau buddiol amcangyfrifedig yr asedau o fewn yr amrediadau canlynol:

- gwelliannau i lesddaliad – cyfnod y les sy'n weddill
- dodrefn a ffitiadau – 10 mlynedd
- peiriannau a chyfarpar – 5 i 7 mlynedd
- technoleg gwybodaeth – 3 i 7 mlynedd.

**Asedau sy'n cael eu hadeiladu**
Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu'n cael eu prisio ar gost hanesyddol o fewn eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol ac nid ydynt yn cael eu dibrisio na'u hamorteiddio. Mae ased yn peidio â chael ei gategoreiddio'n ased sy'n cael ei adeiladu pan yw'n barod i'w ddefnyddio. Wedyn mae ei werth cario'n cael ei dynnu o asedau sy'n cael eu hadeiladu a'i drosglwyddo i'r priod gategori asedau. Codir am ddibrisiant neu amorteiddio ar yr ased wedyn yn unol â'r polisi cyfrifyddu sydd wedi'i ddatgan.

**Gwaredu asedau anghyfredol**
Mae enillion a cholledion ar ôl gwaredu asedau anghyfredol yn cael eu pennu drwy gymharu'r derbyniadau â'r swm cario ac yn cael eu cydnabod yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr. Pan werthir asedau sydd wedi'u hailbrisio, trosglwyddir y symiau sydd yn y gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol.

## 1.11 Asedau anniriaethol

Asedau anniriaethol yw meddalwedd a ddatblygwyd yn fewnol i'w ddefnyddio'n fewnol (gan gynnwys asedau o'r fath sy'n cael eu hadeiladu) a thrwyddedau meddalwedd a brynwyd.

Mae costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r broses o ddylunio a rhoi prawf ar gynhyrchion meddalwedd unigryw ac adnabyddadwy a reolir gan OPG yn cael eu cydnabod yn asedau anniriaethol os bodlonir y meini prawf canlynol:

- ei bod yn dechnegol bosibl cwblhau'r cynnyrch meddalwedd fel y bydd ar gael i'w ddefnyddio;
- bod OPG yn bwriadu cwblhau'r cynnyrch meddalwedd a'i ddefnyddio;
- y gellir defnyddio'r cynnyrch meddalwedd;
- y gellir dangos sut y bydd y cynnyrch meddalwedd yn creu potensial gwasanaeth tebygol yn y dyfodol;
- bod adnoddau technegol ac ariannol ac adnoddau eraill ar gael sy'n ddigonol i gwblhau'r gwaith o ddatblygu'r cynnyrch meddalwedd a'i ddefnyddio;
- y gellir mesur yn ddibynadwy y gwariant y gellir ei briodoli i'r cynnyrch meddalwedd wrth ei ddatblygu.

Mae gwariant arall ar ddatblygu nad yw'n bodloni'r meini prawf hyn yn cael ei gydnabod yn draul wrth ei ysgwyddo. Bydd costau ymgynghorwyr allanol sy'n cael eu cynnwys mewn prosiectau'n cael eu cyfalafu os yw'n briodol. Ni fydd costau datblygu sydd wedi'u cydnabod yn draul cyn hynny'n cael eu cydnabod yn ased mewn cyfnod dilynol.

Mae trwyddedau meddalwedd a brynwyd yn cael eu cydnabod os yw'n debygol y bydd potensial gwasanaeth yn dod i ran OPG yn y dyfodol ac os gellir mesur cost y trwyddedau'n ddibynadwy. Bydd trwyddedau o'r fath yn cael eu mesur ar eu cost ar y dechrau.

Ar ôl eu cydnabod gyntaf, mae asedau anniriaethol yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon ar eu gwerth teg. Gan nad oes marchnad weithredol ar gyfer asedau anniriaethol OPG, mae'r gwerth teg yn cael ei asesu fel cost cyfnewid llai unrhyw golledion oherwydd lleihad mewn gwerth (h.y. cost gyfnewid ddibrisiedig).

Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu hoes fuddiol ddisgwyliedig. Mae oes fuddiol meddalwedd a ddatblygwyd yn fewnol yn amrywio rhwng dwy a saith mlynedd. Mae trwyddedau meddalwedd a brynwyd yn cael eu hamorteiddio dros gyfnod y drwydded.

### 1.12 Trothwyon cyfalafu

Trothwy cyfalafu OPG ar gyfer prosiectau meddalwedd yw £1,000 (yn cynnwys TAW).

### 1.13 Lleihad mewn gwerth

Lleihad mewn gwerth yw lleihad parhaol yng ngwerth ased o ganlyniad i ddefnyddio buddion economaidd neu botensial gwasanaeth. Ar 31 Mawrth bob blwyddyn, bydd OPG yn asesu ei holl asedau anghyfredol am arwyddion o leihad mewn gwerth. Rhoddir prawf ar yr asedau dan sylw am leihad yn eu gwerth drwy gymharu gwerth cario'r asedau hynny â'r symiau y gellir eu hadennill amdanynt. Os bydd y swm y gellir ei adennill am yr ased yn llai na'i werth cario, bydd gwerth cario'r ased yn cael ei leihau i'r swm y gellir ei adennill amdano.

Y swm y gellir ei adennill am ased yw'r un uchaf o'r 'gwerth teg llai costau i'w werthu' a'r 'gwerth ar ddefnydd'. I ddibenion y sector cyhoeddus, y diffiniad yn LlAALl o 'werth ar ddefnydd' ased nad yw'n cynhyrchu arian parod yw gwerth presennol y potensial gwasanaeth sy'n weddill yn yr ased, y gellir cymryd ei fod yn gyfwerth o leiaf â'r gost o amnewid y potensial gwasanaeth hwnnw.

Mae unrhyw golled oherwydd lleihad mewn gwerth yn cael ei chydnabod yn y datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Os oedd ased y cafwyd lleihad yn ei werth wedi'i ailbrisio cyn hynny, bydd unrhyw weddill yn y gronfa ailbrisio (hyd at lefel y golled oherwydd lleihad mewn gwerth) yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Ar 31 Mawrth bob blwyddyn, mae OPG yn asesu a oes unrhyw arwydd bod colled oherwydd lleihad mewn gwerth a oedd wedi'i chydnabod mewn cyfnod blaenorol wedi peidio â bod neu wedi gostwng. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, bydd y symiau y gellir eu hadennill am yr asedau dan sylw yn cael eu hailasesu. Wedyn bydd gwrthdroi'r golled oherwydd lleihad mewn gwerth yn cael ei gydnabod yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr os yw'r amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu'r swm y gellir ei adennill am yr ased wedi newid ers y prawf diwethaf am leihad mewn gwerth. Yr unig swm a roddir am unrhyw wrthdroi yw cynnydd yng ngwerth cario'r asedau dan sylw at y gwerth cario a fyddai wedi'i gydnabod pe na byddai'r lleihad gwreiddiol mewn gwerth wedi digwydd (hynny yw, ar ôl ystyried dibrisiant arferol y byddid wedi codi amdano pe na byddai unrhyw leihad mewn gwerth wedi digwydd).

### 1.14 Treth ar werth (TAW)

Nid yw'r asiantaeth wedi cofrestru am TAW gyda Chyllid a Thollau EM ar ei phen ei hun ac mae'n dod o dan gofrestriad y MOJ sydd yn hysbysu'r asiantaeth am unrhyw TAW ar fewnbwn y gellir ei adennill.

Codir am TAW na ellir ei hadennill ar y categori gwariant perthnasol neu mae'n cael ei chynnwys yn y gost prynu wedi'i chyfalafu am asedau sefydlog diriaethol. Lle codir TAW ar allbwn neu lle gellir adennill TAW ar fewnbwn, mae'r symiau'n cael eu datgan yn net o TAW.

### 1.15 Darpariaethau

Mae'r asiantaeth yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol neu ddehongliadol, sy'n ansicr o ran eu hamser neu eu swm ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiad.

### 1.16 Adrodd ar segmentau

Adroddir ar segmentau mewn cyfrifon rheoli misol ar sail cyfarwyddiaethau, ond nid mewn cyfrifon ariannol blynyddol. Gan mai un gweithgaredd gweithredu ac un segment gweithredu sydd gan OPG, ni fyddai dadansoddi ar sail cyfarwyddiaethau'n cynnig dadansoddiad ystyrlon o'r math sydd wedi'i fwriadu yn IFRS 8.

### 1.17 Rhwymedigaethau digwyddiadol

Yn unol ag IAS 37, mae'r asiantaeth yn datgelu ar ffurf rhwymedigaethau digwyddiadol unrhyw ymrwymiadau dichonol a all godi yn y dyfodol o ganlyniad i ddigwyddiadau ymrwymo yn y gorffennol, lle mae bodolaeth ymrwymiadau o'r fath yn parhau'n ansicr wrth ddisgwyl y canlyniad i ddigwyddiadau yn y dyfodol sydd y tu hwnt i reolaeth yr asiantaeth, oni bai ei bod yn cael ei hystyried yn annhebygol iawn y byddant yn codi. Mae gwarantau, indemniadau ac ymgymeriadau nad ydynt yn gontractau gwarant ariannol o dan IAS 39 yn cael eu trin fel rhwymedigaethau digwyddiadol.

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n cael eu datgelu'n unol ag IAS 37, mae'r asiantaeth hefyd yn datgelu i ddibenion adroddiadau ac atebolrwydd i'r Senedd rwymedigaethau digwyddiadol penodol lle mae'n annhebygol iawn y bydd buddion economaidd yn cael eu trosglwyddo.

Lle mae'r gwerth amser sydd mewn arian yn berthnasol, mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn cael eu datgan ar ffurf symiau wedi'u disgowntio. Nid yw rhwymedigaethau digwyddiadol y mae angen adrodd arnynt i'r Senedd yn cael eu disgowntio.

### 1.18 Setlo gweddillau o fewn y grŵp drwy ddefnyddio'r gronfa gyffredinol

Mae dau brif fath o drafodiad y mae OPG yn eu cyflawni gyda'i rhiant-Adran, y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

a. Mae'r MOJ yn setlo rhai mathau o wariant y mae OPG wedi'i ysgwyddo ar ran yr asiantaeth (gweler nodiadau 4 a 5). Mae hyn yn rhoi gweddill o fewn y grŵp o blaid y MOJ (nodyn 11).
b. Gan fod OPG yn creu mewnlifau net o arian parod, mae'r rhain yn cael eu hildio bob hyn a hyn. Wrth ildio'r arian parod hwn, crëir gweddillau rhwng cwmnïau o blaid OPG (nodyn 9).

Bob blwyddyn, bydd OPG a'r MOJ wedyn yn ystyried y sefyllfa rhwng cwmnïau ac yn cytuno a fydd yn briodol gwneud addasiad parhaol i sefyllfa ariannol OPG. Bydd unrhyw addasiadau o'r fath yn drafodion ariannu â'r parti sy'n rheoli OPG, ni fyddant yn arwain at unrhyw gofnodion yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr ac maent yn cael eu cydnabod yn uniongyrchol yn y gronfa gyffredinol drwy'r datganiad o newid yn

ecwiti'r trethdalwyr. Gall yr addasiadau hyn fod o ddau fath

- Os yw'r gweddill net o fewn y grŵp sy'n ddyledus oddi wrth y MOJ yn fwy na swm y taliadau y mae'r MOJ yn disgwyl eu setlo ar ran OPG yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd OPG yn cytuno i ddiddymu'r elfen 'dros ben' yn y gweddill, gan arwain at leihad parhaol yn ecwiti OPG. Mae'r addasiadau hyn yn cael eu credydu'n uniongyrchol i'r datganiad o newid yn ecwiti'r trethdalwyr a byddant hefyd yn eitem ar gyfer cysoni yn y datganiad o lifau arian, gan nad yw'r gostyngiad yn y symiau sy'n dderbyniadwy o fewn y grŵp yn arwain at newid cyfatebol mewn arian parod. Yn ei hanfod, mae'r swm derbyniadwy o fewn y grŵp sy'n weddill ar ôl cwblhau'r trafodiad hwn yn rhagdaliad am wasanaethau sydd i'w derbyn oddi wrth y pencadlys yn y flwyddyn ddilynol.
- Os oes angen, mae'r MOJ hefyd yn gallu darparu cyllid nad yw'n arian parod, h.y. cynnydd parhaol yn ecwiti OPG, drwy gytuno i ddiddymu gweddillau rhwng cwmnïau o blaid y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae trafodion o'r fath yn cael eu galw'n 'gyllid arall y MOJ nad yw'n arian parod' yn y datganiad o lifau arian a'r datganiad o newid yn ecwiti'r trethdalwyr.

| 2. | Incwm | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|---|
| 2.1 | **Incwm gweithredu** | **£000** | **£000** |
| | **Incwm OPG o ffioedd** | | |
| | Atwrneiaethau Arhosol | (43,340) | (35,033) |
| | Atwrneiaethau Parhaus | (1,657) | (1,914) |
| | Goruchwylio | (11,054) | (10,536) |
| | Penodi Dirprwy | (1,492) | (1,395) |
| | | **(57,543)** | **(48,878)** |
| | **Esemptio a pheidio â chodi tâl** | | |
| | Atwrneiaethau Arhosol | 3,564 | 3,453 |
| | Atwrneiaethau Parhaus | 87 | 123 |
| | Goruchwylio | 2,169 | 2,345 |
| | Penodi Dirprwy | 312 | 331 |
| | | **6,132** | **6,252** |
| | **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | **(51,411)** | **(42,626)** |

| 3. | Niferoedd a chostau staff | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2014/15 | | | 2013/14 |
| | | £000 | | | £000 |
| 3.1 | Costau staff | Cyfanswm | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm |
| | Taliadau a chyflogau | 22,305 | 15,980 | 6,325 | 17,200 |
| | Costau nawdd cymdeithasol | 987 | 987 | - | 765 |
| | Costau pensiwn eraill | 2,484 | 2,484 | - | 1,965 |
| | **Cyfanswm y costau net** | **25,776** | **19,451** | **6,325** | **19,930** |

**3.2** Mae prif gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil (PGPGS) yn gynllun buddion diffiniedig nad yw'n cael ei ariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr lle nad yw OPG yn gallu pennu ei chyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad llawn gan actiwari ar 31 Mawrth 2013. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet o dan 'civil superannuation' (**www.civilservice-pensions.gov.uk**).

Ar gyfer 2014/15 roedd cyfraniadau cyflogwr o £2,484,000 yn daladwy i PGPGS (2013/14: £1,965,000) ar un o bedair cyfradd rhwng 16.7 y cant a 24.3 y cant (2013/14: 16.7 y cant a 24.3 y cant) o'r taliadau pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl cynnal prisiad llawn o'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu buddion wrth eu cronni, nid pan fydd y costau'n cael eu hysgwyddo, ac maent yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.

3.3 Roedd nifer cyfartalog y personau cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2014/15 | | | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | **Cyfanswm** | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 707 | 707 | - | 543 |
| Eraill | 158 | - | 158 | 139 |
| **Cyfanswm** | **865** | **707** | **158** | **682** |

### 3.4 Adrodd ar gynlluniau digolledu'r gwasanaeth sifil a chynlluniau digolledu eraill – pecynnau ymadael

Ni thalwyd unrhyw becynnau ymadael yn 2014/15 (2013/14: Dim).

| **4. Costau gweithredu eraill** | **2014/15** | **2013/14** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Colledion arian parod a thaliadau cydnabyddiaeth | 18 | 15 |
| Defnyddiau traul | 220 | 201 |
| Cynnal a chadw | *776 | *855 |
| Costau rhedeg cyfrifiaduron | 2,345 | 1,168 |
| Costau teithio a chynhaliaeth | 510 | 458 |
| Costau rhedeg eraill | 1,389 | 703 |
| Postio | 2,051 | 1,635 |
| Ardrethi | *414 | *388 |
| Adeiladau | *1,085 | *1,344 |
| Cyfleustodau | *50 | 15 |
| Gwasanaethau ymwelwyr (asesu anghenion cleientiaid) | 1,340 | 1,076 |
| | **10,198** | **7,858** |

* O'r symiau uchod, setlwyd £1,184,000 (2013/14: £1,111,000) gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac nid ydynt yn cael effaith o ran arian parod ar OPG. Mae seren wrth y categorïau y mae hyn yn effeithio arnynt.

| 5. Taliadau nad ydynt yn arian parod | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Taliadau cynnal pencadlys y Weinyddiaeth Cyfiawnder | 2,505 | 2,532 |
| Dibrisiant – Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 258 | 275 |
| Amorteiddio – Asedau anniriaethol | 772 | 852 |
| Tâl i'r archwilydd allanol | 52 | 52 |
| Colled ar waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 32 | - |
| Taliadau eraill nad ydynt yn arian parod | - | - |
| **Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau:** | | |
| Wedi'i ddarparu o fewn y flwyddyn | 203 | 116 |
| Darpariaethau a ddaeth yn ôl | - | (128) |
| | **3,822** | **3,699** |
| Cynnydd yn y lleihad mewn gwerth mewn symiau masnach derbyniadwy | (42) | 77 |
| Dyledion drwg wedi'u dileu | 539 | 331 |
| | **4,319** | **4,107** |

## 6. Ffioedd a thaliadau

Mae'n ofynnol bod yr asiantaeth, yn unol â 'Managing Public Money', yn datgelu canlyniadau ar gyfer meysydd y gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw drwy gydol y flwyddyn ariannol, lle codwyd ffioedd a thaliadau.

Cytunodd Gweinidogion a Thrysorlys EM ar strategaeth ffioedd i OPG a oedd yn golygu adennill 100% o'r costau. Roedd y strategaeth hon wedi'i hadlewyrchu yn y ddau offeryn statudol a chafodd ei rhoi ar waith o 1 Hydref 2007.

Yn 2011, adolygwyd y strategaeth ffioedd er mwyn caniatáu i OPG fuddsoddi yn y dyfodol i sicrhau bod ganddi gapasiti digonol ac effeithlon i gwrdd â'r galw cynyddol am ei gwasanaethau a gwasgaru'r gost hon dros y pedair blynedd a oedd yn weddill o gyfnod y Senedd, sef hyd fis Mawrth 2015.

Darperir cymhorthdal fel y bwriadwyd i sicrhau na fydd cleientiaid yn methu â chael gwasanaethau am nad ydynt yn gallu fforddio'r ffioedd sy'n ofynnol.

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm gweithredu | (51,411) | (42,626) |
| Ffioedd a oedd heb eu codi | (6,132) | (6,252) |
| **Cyfanswm incwm** | **(57,543)** | **(48,878)** |
| **Cyfanswm gwariant** | **40,293** | **31,895** |
| **Diffyg/(gwarged)** | **(17,250)** | **(16,983)** |

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Costau a adenillwyd (%)** | **143%** | **153%** |

Aethpwyd ymhellach na'r amcan ariannol y cytunwyd arno â Thrysorlys EM i adennill yr holl gostau, heb gynnwys ffioedd sydd wedi'u hesemptio a heb eu codi, gan gyrraedd 143%.

## 7. Dadansoddi ar sail gweinyddu a rhaglenni

Mae holl incwm a gwariant OPG wedi'u categoreiddio'n incwm a gwariant rhaglenni, ar sail asesiad o'r gwaith a gyflawnwyd gan OPG, sef gwasanaethau rheng flaen yn bennaf; cytunwyd â Thrysorlys EM ar y dosbarthiad hwn.

**8. Eiddo, peiriannau a chyfarpar**

| | Gwelliannau lesddaliad | Dodrefn a ffitiadau | Peiriannau a chyfarpar | Technoleg gwybodaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 824 | 240 | 687 | 1,095 | **2,846** |
| Ailgategoreiddio | - | 17 | - | - | **17** |
| Gwarediadau | - | (54) | (11) | - | **(65)** |
| Ailbrisio | 67 | - | - | 8 | **75** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **891** | **203** | **676** | **1,103** | **2,873** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | (228) | (75) | (602) | (649) | **(1,554)** |
| Darparwyd o fewn y flwyddyn | (83) | (23) | (25) | (127) | **(258)** |
| Gwarediadau | - | 26 | 5 | - | **31** |
| Ailbrisio | (24) | - | - | (3) | **(27)** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **(335)** | **(72)** | **(622)** | **(779)** | **(1,808)** |
| **Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2015** | **556** | **131** | **54** | **324** | **1,065** |
| **Llyfrwerth net ar 1 Ebrill 2014** | **596** | **165** | **85** | **446** | **1,292** |

Mae'r holl eiddo, peiriannau a chyfarpar sydd wedi'u datgelu uchod yn eiddo'n llwyr i OPG.

Roedd gweddill o £29k o gostau staff asiantaethau arbenigol wedi'i gynnwys mewn asedau sy'n cael eu hadeiladu, o fewn eiddo, peiriannau a chyfarpar ac o fewn asedau anniriaethol, ar 31 Mawrth 2014. Pan gafodd yr eitemau cysylltiedig eu cyfalafu yn 2014/15, pennwyd bod y swm hwn yn wariant ar adnoddau.

| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | Gwelliannau lesddaliad | Dodrefn a ffitiadau | Peiriannau a chyfarpar | Technoleg gwybodaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 793 | 229 | 695 | 1,008 | **2,725** |
| Ailgategoreiddio | - | 13 | - | 134 | **147** |
| Gwarediadau | - | (1) | - | - | **(1)** |
| Ailbrisio | 31 | (1) | (8) | (47) | **(25)** |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **824** | **240** | **687** | **1,095** | **2,846** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | (140) | (51) | (572) | (526) | **(1,289)** |
| Darparwyd o fewn y flwyddyn | (79) | (24) | (33) | (139) | **(275)** |
| Ailbrisio | (9) | - | 3 | 16 | **10** |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **(228)** | **(75)** | **(602)** | **(649)** | **(1,554)** |
| **Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2014** | **596** | **165** | **85** | **446** | **1,292** |
| **Llyfrwerth net ar 1 Ebrill 2013** | **653** | **178** | **123** | **482** | **1,436** |

Mae'r holl eiddo, peiriannau a chyfarpar sydd wedi'u datgelu uchod yn eiddo'n llwyr i OPG.

| 8a. Asedau anniriaethol | Trwyddedau meddalwedd | Meddalwedd a gynhyrchwyd yn fewnol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 1,003 | 6,675 | 3,300 | **10,978** |
| Ychwanegiadau | - | - | 4,361 | **4,361** |
| Ailgategoreiddio | - | 429 | (475) | **(46)** |
| Gwarediadau | (589) | - | - | **(589)** |
| Ailbrisio | - | (22) | - | **(22)** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **414** | **7,082** | **7,186** | **14,682** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | (922) | (5,610) | - | **(6,532)** |
| Darparwyd o fewn y flwyddyn | (51) | (721) | - | **(772)** |
| Gwarediadau | 589 | - | - | **589** |
| Ailbrisio | - | 15 | - | **15** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **(384)** | **(6,316)** | **-** | **(6,700)** |
| **Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2015** | **30** | **766** | **7,186** | **7,982** |
| **Llyfrwerth net ar 1 Ebrill 2014** | **81** | **1,065** | **3,300** | **4,446** |

Mae'r holl asedau anniriaethol sydd wedi'u datgelu uchod yn eiddo'n llwyr i OPG.

Mae'r cyfan o weddill yr asedau sy'n cael eu hadeiladu, £7.2 miliwn, yn wariant sy'n gysylltiedig â thrawsnewid digidol.

| Asedau anniriaethol | Trwyddedau meddalwedd | Meddalwedd a gynhyrchwyd yn fewnol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 982 | 5,875 | 325 | **7,182** |
| Ychwanegiadau | - | - | 3,994 | **3,994** |
| Ailgategoreiddio | 21 | 851 | (1,019) | **(147)** |
| Ailbrisio | - | (51) | - | **(51)** |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **1,003** | **6,675** | **3,300** | **10,978** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | (814) | (4,895) | - | **(5,709)** |
| Darparwyd o fewn y flwyddyn | (108) | (744) | - | **(852)** |
| Ailbrisio | - | 29 | - | **29** |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **(922)** | **(5,610)** | **-** | **(6,532)** |
| **Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2014** | **81** | **1,065** | **3,300** | **4,446** |
| **Llyfrwerth net ar 1 Ebrill 2013** | **168** | **980** | **325** | **1,473** |

Mae'r holl asedau anniriaethol sydd wedi'u datgelu uchod yn eiddo'n llwyr i OPG.

| 9. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn** | **£000** | **£000** |
| **Gweddillau gyda chyrff Llywodraeth ganolog eraill** | | |
| Swm sy'n ddyledus oddi wrth y Weinyddiaeth Cyfiawnder | 25,099 | 17,066 |
| TAW y gellir ei hadennill | 83 | 51 |
| | **25,182** | **17,117** |
| **Gweddillau gyda chyrff y tu allan i Lywodraeth** | | |
| Rhagdaliadau | 548 | 204 |
| Symiau staff derbyniadwy | 48 | 25 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 9,341 | 6,519 |
| Incwm a gronnwyd | 300 | 137 |
| | **10,237** | **6,885** |
| **Cyfanswm y symiau derbyniadwy** | **35,419** | **24,002** |

Mae OPG yn ildio arian parod sy'n cael ei ddefnyddio i leihau'r gweddill rhwng cwmnïau â'r MOJ a'r swm sy'n ddyledus uchod yw'r arian y mae disgwyl iddo gael ei ddefnyddio o fewn 12 mis ar wariant OPG sy'n cael ei setlo gan y MOJ (gweler nodyn 1.18).

Mae'r symiau masnach derbyniadwy wedi'u dangos yn net o ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus o £206,000 (2013/14: £248,000) a darpariaeth ar gyfer peidio â chodi ffioedd o £634,000 (2013/14: £634,000).

| 10. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Gweddill ar 1 Ebrill 2014 | 2,911 | 2,289 |
| Mewnlif/(all-lif) arian parod net | (1,555) | 622 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2015** | **1,356** | **2,911** |
| **Mae'r gweddillau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn:** | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | **1,356** | **2,911** |

| 11. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn** | **£000** | **£000** |
| **Swm sy'n ddyledus i gyrff Llywodraeth ganolog eraill** | | |
| Swm sy'n ddyledus i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | 795 | 577 |
| | **795** | **577** |
| **Gweddillau gyda chyrff sydd y tu allan i Lywodraeth** | | |
| Croniadau | 2,204 | 2,350 |
| Symiau masnach taladwy | 145 | 280 |
| | **2,349** | **2,630** |
| **Cyfanswm y symiau taladwy** | **3,144** | **3,207** |

| 12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | Ymddeol cynnar | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Gweddill ar 1 Ebrill 2014** | 212 | 122 | **334** |
| Darparwyd o fewn y cyfnod | 27 | 176 | **203** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd o fewn y cyfnod | (82) | (106) | **(188)** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2015** | **157** | **192** | **349** |
| **Dadansoddiad o amseriadau disgwyliedig y llif arian** | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 38 | 192 | 230 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 91 | - | 91 |

| 12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | Ymddeol cynnar | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 28 | - | 28 |
| | **157** | **192** | **349** |

**Costau ymadael yn gynnar**
Mae'r asiantaeth yn talu am gostau ychwanegol buddion sydd ar ben buddion arferol PGPGS ar gyfer cyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar drwy dalu'r symiau angenrheidiol yn flynyddol i PGPGS dros y cyfnod rhwng yr ymadawiad cynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Mae'r asiantaeth yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan fydd y rhaglen ymddeol cynnar yn dod yn rhwymol ar yr asiantaeth drwy sefydlu darpariaeth ar gyfer taliadau amcangyfrifedig.

## 13. Ymrwymiadau o dan lesoedd gweithredu

Mae cyfanswm y taliadau lesio lleiaf yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredu yn y cyfnod pan na ellir eu dileu wedi'i ddangos yn y tabl isod, wedi'i ddadansoddi yn ôl y cyfnod y mae'r taliadau'n dod yn ddyledus.

| Dadansoddiad o amseriadau disgwyliedig y llif arian | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| | Tir ac adeiladau | Tir ac adeiladau |
| | £000 | £000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 499 | 552 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 2,191 | 2,207 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 1,132 | 1,104 |
| **Cyfanswm** | **3,822** | **3,863** |

## 14. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Nid oes gan yr asiantaeth unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol sy'n adroddadwy o dan IAS37 neu ofynion adrodd seneddol ychwanegol.

## 15. Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r asiantaeth yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r MOJ yn cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae'r asiantaeth wedi cael gwahanol drafodion perthnasol â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Yn benodol mae costau staff yr asiantaeth (a chyfrifyddu ar gyfer rhagdalu ac adennill cyflog) yn cael eu rheoli gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Yn ogystal â hyn, mae'r MOJ yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r asiantaeth. Mae'r MOJ yn rheoli'r trefniadau lesio a'r costau ar gyfer adeiladau sy'n gysylltiedig â meddiannu swyddfeydd gan OPG.

Cyfrifiadau o dan fethodoleg y MOJ ar gyfer ailgodi taliadau yw'r sail ddogfennol sy'n cael ei chymhwyso'n dryloyw a chyson i ddosrannu gorbenion gan gynnwys adnoddau dynol a TGCh i holl adrannau ac asiantaethau'r MOJ ar sail dybiannol.

Roedd yr asiantaeth hefyd wedi cael trafodion ag adrannau ac endidau llywodraeth eraill.

Nid yw'r un o aelodau bwrdd yr asiantaeth, ei phrif staff rheoli na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r asiantaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 16. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Mae digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yn cael eu hystyried hyd at ac yn cynnwys y dyddiad y rhoddir awdurdod i gyhoeddi'r cyfrifon. Y dehongliad o hyn yw dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## 17. Offerynnau ariannol

Gan fod anghenion OPG am arian parod yn cael eu bodloni drwy'r broses amcangyfrif, mae offerynnau ariannol yn chwarae llai o ran mewn creu a rheoli risg nag a fyddai'n digwydd mewn corff nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol ag anghenion disgwyliedig yr asiantaeth am brynu a defnyddio ac felly prin yw'r risg y mae'r asiantaeth yn agored iddi o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad. Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau ariannol wedi'u datgan ar eu gwerth teg.

## 18. Colledion a thaliadau arbennig

**Ffioedd nas codwyd**

Roedd 67,813 o achosion lle na chodwyd ffioedd neu lle'r oedd esemptiadau'n gymwys. Cyfanswm y gwerth oedd £6,134,000 (2013/14: 62,748 o achosion – £6,252,000 fel y maent wedi'u disgrifio yn nodyn 2.1).

**Colledion arian parod**

Roedd 1 achos lle'r oedd colledion arian parod o gyfanswm o £37 (2013/14: 2 achos – colledion o £1,000).

**Taliadau arbennig a hepgor ffioedd**

Roedd 179 o daliadau arbennig a oedd yn dod i gyfanswm o £12,000 (2013/14: 150 o daliadau arbennig, yn dod i gyfanswm o £14,000) yng nghyswllt setliadau digolledu a chysuro.

Hepgorwyd 4,382 o ffioedd a oedd yn dod i gyfanswm o £473 000 (2013/14: 1,204 o achosion, yn dod i gyfanswm o £122,000). Mae ffi'n cael ei hepgor un ai:

- yn unol â'r offeryn statudol pan nad yw'r rhoddwr/cleient yn gymwys i gael esemptiad neu i beidio â chael codi ffi arno ond y byddai talu'r ffi, ym marn y Gwarcheidwad Cyhoeddus, yn achosi caledi gormodol, neu
- i gydnabod camweinyddu.

# Atodiadau

## Cofnod ariannol pum mlynedd

| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Incwm gweithredu** | | | | | |
| Atwrneiaethau Arhosol | 16,319 | 20,817 | 27,094 | 31,580 | 39,776 |
| Atwrneiaethau Parhaus | 2,020 | 2,183 | 2,048 | 1,791 | 1,570 |
| Goruchwylio* | 5,525 | 7,192 | 8,061 | 9,255 | 10,065 |
| Arall | 8 | - | - | - | - |
| | **23,872** | **30,192** | **37,203** | **42,626** | **51,411** |
| **Ffioedd a dalwyd** | | | | | |
| Atwrneiaethau Arhosol | 4,159 | 3,908 | 3,330 | 3,453 | 3,564 |
| Atwrneiaethau Parhaus | 292 | 186 | 174 | 123 | 87 |
| Goruchwylio* | 1,897 | 2,658 | 3,510 | 2,676 | 2,481 |
| Arall | 4 | - | - | - | - |
| | **6,352** | **6,752** | **7,014** | **6,252** | **6,132** |
| Cyfanswm incwm | 30,224 | 36,944 | 44,217 | 48,878 | 57,543 |
| Cyfanswm gwariant | 25,881 | 28,989 | 27,918 | 31,895 | 40,293 |
| (Diffyg)/gwarged | 4,343 | 7,955 | 16,299 | 16,983 | 17,250 |
| Costau a adenillwyd | 117% | 128% | 158% | 153% | 143% |

* yn cynnwys Penodi Dirprwy

| Niferoedd y ffioedd | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd LPA | 171,259 | 178,790 | 241,214 | 294,946 | 395,309 |
| Ffioedd EPA | 19,356 | 18,912 | 17,968 | 16,034 | 15,037 |
| Ffioedd chwilio | 1,364 | 1,408 | 4,196 | 1,416 | 1,819 |
| Ffioedd Penodi Dirprwy | 11,165 | 12,744 | 11,801 | 14,017 | 14,938 |
| Ffioedd goruchwylio math 1 | 448 | 476 | 600 | 411 | 418 |
| Ffioedd goruchwylio math 2A | 6,289 | 12,715 | 10,624 | 10,809 | 11,832 |
| Ffioedd goruchwylio math 2 | 23,196 | 28,529 | 31,952 | 32,475 | 30,216 |
| Ffioedd goruchwylio math 3 | - | 10,804 | 13,751 | 16,929 | 20,915 |

| Niferoedd y ffioedd a dalwyd | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd LPA | 37,498 | 32,086 | 36,217 | 39,281 | 43,949 |
| Ffioedd EPA | 2,562 | 1,608 | 1,923 | 1,298 | 1,005 |
| Ffioedd chwilio (dim ffi'n daladwy ar ôl 1 Hydref 2011) | 16 | 36 | 0 | 0 | 0 |
| Ffioedd Penodi Dirprwy | 3,351 | 3,931 | 3,263 | 3,682 | 3,403 |
| Ffioedd goruchwylio math 1 | 1,030 | 139 | 133 | 132 | 97 |
| Ffioedd goruchwylio math 2A | 2,257 | 2,843 | 2,049 | 2,565 | 2,234 |
| Ffioedd goruchwylio math 2 | 6,455 | 17,243 | 13,908 | 15,117 | 16,372 |
| Ffioedd goruchwylio math 3 | - | 19 | 627 | 673 | 750 |

| Dulliau talu – niferoedd | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Siec | 167,096 | 178,454 | 168,496 | 237,339 | 308,245 |
| Cerdyn Credyd | 3,269 | 5,211 | 11,755 | 17,726 | 49,971 |
| Cerdyn Debyd | 7,525 | 10,447 | 11,402 | 9,528 | 8,559 |
| **Cyfanswm** | **177,890** | **194,112** | **191,653** | **264,593** | **366,775** |

## Cyflawniadau perfformiad

| Dangosydd Effaith 1: Atwrneiaethau | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaid cofrestru EPA pan fydd y rhoddwr yn colli galluedd. Er bod yr LPA yn debyg mewn egwyddor, mae'n ofynnol i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus chwarae rhan fwy gweithredol yn y broses hysbysu ar ei chyfer. Mae cyfnod aros statudol o 20 niwrnod ar gyfer cofrestru LPA, wedi i'r OPG anfon hysbysiad at y parti neu bartïon nad oedd wedi gwneud y cais. | | | |
| **Pwrpas** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell data** | **Cyflawniad hyd 31 Mawrth 2015** |
| Mae hyn yn mesur yr amser clirio gwirioneddol cyfartalog ar gyfer atwrneiaethau rhwng dyddiad y cais a'r dyddiad anfon.<br><br>Y nod yw i ffurflenni cais am atwrneiaethau gael eu hanfon o fewn 40 niwrnod gwaith ar gyfartaledd.<br><br>Mae pob cais yn digwydd mewn sefyllfa lle mae person, drwy ddiffiniad, wedi dewis galluogi trydydd parti neu bartïon i wneud penderfyniadau ynghylch ei faterion ariannol neu iechyd a lles. Gan na all y dewis hwn ddod yn weithredol nes bydd LPA wedi'i chofrestru, drwy brosesu ceisiadau'n amserol rydym yn hwyluso'r dewis hwnnw. | Cesglir data drwy system gwaith achosion MERIS.<br><br>Mae'r mesur hwn yn cyfrifo nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gymerir i gofrestru ac anfon yr holl atwrneiaethau yn ystod cyfnod adrodd penodol.<br><br>O'r holl atwrneiaethau sydd â dyddiad anfon o fewn y cyfnod, mae nifer y diwrnodau gwaith, heb gynnwys gwyliau banc a phenwythnosau, rhwng y 'dyddiad anfon' a'r 'dyddiad derbyn' yn cael eu hadio at ei gilydd a'u rhannu â nifer y ceisiadau i roi cyfartaledd.<br><br>Y 'dyddiad derbyn' yw diwrnod talu'r ffi neu, fel arall, dyddiad penderfyniad i ganiatáu cais am Esemptio/Peidio â Chodi ffi. Ar y pwynt hwn, mae OPG yn dechrau prosesu'r cais.<br><br>Y 'dyddiad anfon' yw'r dyddiad y mae'r LPA/EPA a gofrestrwyd yn cael ei hanfon, sef rhan olaf y broses ymgeisio sydd wedyn yn dangos bod cais wedi'i gofrestru yn MERIS. | O gronfa ddata MERIS drwy'r meddalwedd pwrpasol perthnasol ar gyfer adrodd. | Sicrhawyd amser clirio gwirioneddol cyfartalog o 42 ddiwrnod gwaith o'i gymharu â'r nod o 40 niwrnod gwaith. |

| Dangosydd Effaith 2: Goruchwylio dirprwyon | | | |
|---|---|---|---|
| II2A Amser cyfartalog ar gyfer cwblhau cymorth y cysylltiad cyntaf<br>II2B Amser cyfartalog ar gyfer cael ac adolygu adroddiadau blynyddol<br>II2C Canran y dirprwyon proffesiynol/awdurdod lleol a phanel a adolygwyd | | | |
| **Pwrpas** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell data** | **Cyflawniad hyd 31 Mawrth 2015** |
| **II2A** –Cwblhau'r cysylltiad personol (dros y ffôn) ar gyfer 75% o'r holl ddirprwyon lleyg newydd ddim hwyrach na 35 niwrnod gwaith o ddyddiad hysbysu'r dirprwy drwy lythyr am ei lefel Goruchwylio. Cwblhau 100% o fewn 95 niwrnod gwaith o ddyddiad hysbysu'r dirprwy drwy lythyr neu drwy ymweliad am ei lefel Goruchwylio. Bernir bod cymorth y cysylltiad cyntaf wedi'i gwblhau ar ôl cysylltu'n bersonol drwy alwad ffôn 'cynefino', dychwelyd yr holiadur ar ôl ei lenwi, ymweld, neu os penderfynir atgyfeirio'r achos er mwyn rhyddhau'r dirprwy am beidio â chydymffurfio â phroses y cysylltiad cyntaf.<br><br>**II2B** – Cael yr holl adroddiadau blynyddol o fewn 40 niwrnod gwaith ar ôl dyddiad pen blwydd y gorchymyn llys ac adolygu'r holl adroddiadau blynyddol, ar ôl eu cael, o fewn 15 niwrnod gwaith ar ôl eu cael.<br><br>**II2C** – Adolygu 40% o'r Dirprwyaethau Proffesiynol, Awdurdod Lleol a Phanel. | **II2A** – Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith rhwng dyddiad hysbysu'r dirprwy drwy lythyr am ei lefel Goruchwylio a dyddiad cwblhau'r cysylltiad personol. Er mwyn adrodd ar y mesur rydym yn cofnodi'r canlynol yn gywir:<br>• dyddiad cwblhau'r galwadau cyflwyno a chynefino<br>• dyddiad dychwelyd holiadur ar ôl ei lenwi<br>• dyddiad ymweliad llwyddiannus<br>• y dyddiad yr ydym yn penderfynu atgyfeirio'r achos er mwyn cymryd camau a allai gynnwys rhyddhau'r dirprwy am beidio â chydymffurfio.<br><br>**II2B** – Ar gyfer cael adroddiad blynyddol, nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith rhwng dyddiad dychwelyd penodedig yr adroddiad (40 niwrnod gwaith ar ôl pen blwydd y gorchymyn llys) a'r dyddiad y cafwyd yr adroddiad yn OPG, ar gyfer yr holl adroddiadau blynyddol a gafwyd yn y cyfnod dan sylw.<br><br>Ar gyfer adolygu adroddiad blynyddol, nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith rhwng y dyddiad y daw adroddiad blynyddol i law a dyddiad ei adolygu, ar gyfer yr holl adroddiadau blynyddol a adolygwyd yn y cyfnod dan sylw.<br><br>**II2C** – Ar gyfer ymgymryd â gwaith achos goruchwylio ar ddirprwyaethau proffesiynol, awdurdod lleol a phanel. Mesurir hyn drwy gofnodi nifer yr ymweliadau sicrwydd neu adolygiad pen bwrdd a all fod yn adolygiad dros y ffôn, yn adolygiad llawn o'r adroddiadau blynyddol neu'n adolygiad achos. | Ceir yr holl ddata o adroddiadau rheoli CASREC.<br><br>Bydd y defnyddiwr yn pennu paramedrau ar adroddiad rheoli CASREC er mwyn cael gwybodaeth. Lawrlwythir yr adroddiadau hyn i ffolder y defnyddiwr, mewn fformat taenlen Excel fel arfer.<br><br>Bydd rheolwyr gwaith achos yn casglu'r data ac yn adrodd arnynt. Cofnodir y wybodaeth hon mewn offerynnau adrodd lleol a ddefnyddir i lenwi'r cerdyn sgorio cytbwys. | **II2A** –Y nod oedd 75% o ddirprwyon o fewn 35 niwrnod a 100% o ddirprwyon o fewn 95 niwrnod.<br><br>Cyflawnwyd 96% o fewn 35 niwrnod a 100% o fewn 95 niwrnod.<br><br>**II2B** – Y nod oedd cael yr adroddiad o fewn 40 niwrnod.<br><br>Cyrhaeddwyd 42 ddiwrnod ar ddiwedd y flwyddyn.<br><br>**II2C** – Y nod oedd cwblhau 1092 o adolygiadau o fewn blwyddyn.<br><br>Cynhaliwyd pob un o'r 1092. |

| **Dangosydd Effaith 3: Ymchwiliadau** | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r Dangosydd hwn yn mynd at wraidd cyfrifoldeb OPG i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed.<br>II3A yw'r amser cyfartalog a gymerir i asesu pryderon am risg<br>II3B yw'r amser clirio gwirioneddol cyfartalog ar gyfer cwblhau ymchwiliadau <75 niwrnod<br>II3C yw'r amser clirio gwirioneddol cyfartalog ar gyfer cwblhau argymhellion ar ôl adroddiad gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus <80 niwrnod | | | |
| **Pwrpas** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell data** | **Cyflawniad hyd 31 Mawrth 2015** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **II3A** – **Asesu risg.** Bydd OPG yn cynnal proses asesu risg er mwyn penderfynu:<br>• a oes awdurdodaeth gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus i ymchwilio i bryderon ac, os nad oes, cyfeirio'r pryder at yr asiantaeth berthnasol<br>• a yw'r person agored i niwed mewn perygl uniongyrchol o ran ei les personol neu faterion ariannol/eiddo a pha gamau y mae angen eu cymryd yn syth; neu<br>• a ellir ymchwilio i'r pryder dros gyfnod hwy.<br><br>**II3B** – **Cwblhau ymchwiliadau.** Bernir bod ymchwiliad wedi'i gwblhau i ddibenion y Dangosydd Effaith hwn fel a ganlyn:<br>• dyddiad llofnodi adroddiad ysgrifenedig ffurfiol gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus<br>• dyddiad cytuno i gymeradwyo adroddiad cyn ymgeisio (os yw hyn cyn dyddiad adroddiad gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus)<br>• y dyddiad y mae'r Rheolwr Cydymffurfiaeth yn cytuno i gwblhau ymchwiliad os bernir nad oes angen cyflwyno adroddiad i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (e.e. awdurdodaeth heb ei dangos)<br>• marwolaeth P (os yw'r Rheolwr Cydymffurfiaeth yn barnu bod digon o waith wedi'i wneud ar achos i gyfiawnhau ei gynnwys i ddibenion y Dangosydd).<br><br>**II3C** – **Cwblhau argymhellion**. Pennir bod argymhelliad wedi'i gwblhau i ddibenion y Dangosydd Effaith hwn fel a ganlyn:<br>• y dyddiad y mae arweinydd tîm yr Uned Gydymffurfio yn cymeradwyo cau achos.<br>• y dyddiad y mae'r ymchwilydd yn hysbysu'r atwrnai/dirprwy am ganlyniad yr ymchwiliad ac unrhyw ofynion pellach. Ni fydd yn cynnwys monitro dilynol ar yr achos.<br>• y dyddiad y gwneir cais i'r Llys Gwarchod (os oedd hyn yn ganlyniad i argymhelliad a gymeradwywyd gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus)<br>• y dyddiad y mae'r dirprwy'n gwneud cais i'r Llys Gwarchod (bydd un ai'n ein hysbysu ni neu byddwn ni'n gwirio hyn ar CASREC). | **II3A** –Mae'r uchelgais o 2 ddiwrnod gwaith yn dechrau ar y dyddiad y mae OPG yn cael ei hysbysu am y pryder. Diwrnod 1 fydd y diwrnod gwaith nesaf ar ôl cael ein hysbysu am y pryder.<br><br>**II3B** – Mae'r uchelgais perfformiad yn dechrau ar y dyddiad y mae OPG yn cael ei hysbysu am bryder sy'n arwain at gychwyn ymchwiliad. Diwrnod 1 fydd y diwrnod nesaf ar ôl cael ein hysbysu am y pryder.<br><br>**II3C** – Mae'r nod yn dechrau o'r dyddiad y mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cymeradwyo'r adroddiad. Diwrnod 1 fydd y diwrnod nesaf ar ôl cymeradwyo'r adroddiad. | Pan gyflwynir cwyn/ pryder, asesir ei risg ac asesir awdurdodaeth y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Cofnodir yr atgyfeiriad yn y gronfa ddata Ymchwiliadau. Cofnodir y data canlynol:<br>• dyddiad hysbysu OPG am y pryder<br>• dyddiad derbyn y pryder gan y tîm Ymchwiliadau<br>• dyddiad yr asesiad risg<br>• cyfnod yr asesiad risg (diwrnodau gwaith)<br>• dyddiad cwblhau'r ymchwiliad<br>• canlyniad cais i'r Llys Gwarchod<br>• cyfnod yr ymchwiliad (cyn adrodd)<br>• cyfnod yr ymchwiliad (ar ôl adrodd)<br>• dyddiad cymeradwyo cau argymhellion. | **II3A** –Y nod oedd asesu 95% o bryderon o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl eu cael<br><br>Cyrhaeddodd OPG 97% o fewn 2 ddiwrnod.<br><br>**II3B** – Y nod oedd llai na 75 niwrnod.<br><br>Cyrhaeddodd OPG 66.8 diwrnod ar ddiwedd y flwyddyn.<br><br>**II3C** – Y nod yw cwblhau'r holl argymhellion o fewn 80 niwrnod.<br><br>Cyrhaeddodd OPG 39 diwrnod ar ddiwedd Mawrth 2015. |

| **Dangosydd Gwasanaeth Cwsmeriaid OPG 1 – Amser aros cyfartalog y Ganolfan Gyswllt** | | | |
|---|---|---|---|
| Amser aros cyfartalog ar gyfer galwyr Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid OPG | | | |
| **Pwrpas** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell data** | **Cyflawniad hyd 31 Mawrth 2015** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhoi cymorth ac arweiniad amserol a chywir i alwyr ar sut i ymgeisio am atwrneiaeth arhosol; darparu cymorth ac arweiniad i alwyr ar broses ymgeisio a chofrestru atwrneiaethau parhaus/atwrneiaethau arhosol (EPA/LPA); cyfeirio galwyr at y Llys Gwarchod os yw'r galwadau'n ymwneud ag unigolyn sydd heb alluedd ac nid oes EPA neu LPA wedi'i gwneud. Delio'n brydlon â galwadau am faterion sy'n ymwneud â diogelu oedolion agored i niwed. Rhoi cymorth i alwyr ar faterion cyffredinol sy'n ymwneud â goruchwylio dirprwyon a benodwyd gan y Llys Gwarchod. | Cyfanswm yr amser aros am alwadau wedi'i rannu â nifer y galwadau a gafwyd. (D.S. nid yw 'amser aros' yn cynnwys yr amser pan yw'r galwr yn gwrando ar y neges gyflwyniadol a recordiwyd ymlaen llaw.)<br><br>Mae galwadau sy'n cael eu hailgyfeirio am eu bod y tu allan i'r cwmpas yn cael eu tynnu o gyfanswm y galwadau i osgoi eu cyfrif ddwywaith. | Allforir y wybodaeth reoli o ddata Highpath (system rheoli data teleffoni) i daenlenni Excel bob dydd. | Y nod oedd sicrhau amser aros o lai na 60 eiliad.<br><br>Cyrhaeddodd OPG amser aros cyfartalog o 61 eiliad. |

| **Dangosydd Gwasanaeth Cwsmeriaid OPG 2 – Cwynion** | | | |
|---|---|---|---|
| Yr amser cyfartalog ar gyfer ymateb i gwynion | | | |
| **Pwrpas** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell data** | **Cyflawniad hyd 31 Mawrth 2015** |
| Mae'n bwysig ystyried cwynion er mwyn deall i ba raddau yr ydym yn cyflawni disgwyliadau ein cwsmeriaid ac yn gwireddu ein gweledigaeth a'n hamcanion. Mae ateb cwynion yn effeithiol a chyflym yn hanfodol er mwyn cadw ein henw da. | Mesurir y perfformiad ar y dangosydd hwn drwy adio'r holl amser a gymerwyd i ateb yr holl gwynion a atebwyd mewn mis a'i rannu â nifer y cwynion.<br><br>Mesurir hyn bob mis. Caiff y data eu coladu erbyn pumed diwrnod gwaith y mis dilynol a'u cyflwyno er mwyn llenwi'r cerdyn sgorio cytbwys. | Bydd pob maes busnes yn cofnodi data ar daenlen mewn ffolder ganolog. Ar ddiwedd pob mis, cesglir y data gan y tîm cwynion Haen 2, sy'n coladu'r wybodaeth i ddibenion adrodd. | Y nod oedd ymateb i'r holl gwynion o fewn 10 niwrnod gwaith. Cyrhaeddodd OPG 10 niwrnod gwaith ar ddiwedd y flwyddyn. |

| Dangosydd Gwasanaeth Cwsmeriaid OPG 3 – Bodlonrwydd Cwsmeriaid | | | |
|---|---|---|---|
| Y sgôr gyfartalog ar gyfer bodlonrwydd cwsmeriaid ar wasanaethau OPG | | | |
| **Pwrpas** | **Dull cyfrifo** | **Ffynhonnell data** | **Cyflawniad hyd 31 Mawrth 2015** |
| Er mwyn bod yn sefydliad cwsmer-ganolog, rhaid i ni ddeall barn cwsmeriaid am lefelau ein gwasanaeth cwsmeriaid. Drwy ddeall y canlyniadau hyn drwy ddadansoddi ystadegol, gallwn ganfod tueddiadau a bydd hyn o gymorth i wella gwasanaethau a gwella bodlonrwydd cyffredinol cwsmeriaid. | Bydd niferoedd yr holiaduron a ddychwelir yn cael eu rhannu i'r categorïau bodlonrwydd perthnasol yn ôl rhif. Cyfrifir canran wedyn ar sail y niferoedd yn y gwahanol gategorïau bodlonrwydd ar sail nifer yr holiaduron a ddychwelwyd.<br><br>Bydd taenlen Excel yn rhoi hyn yn awtomatig neu gellir defnyddio tabl pifod. | Anfonir 350 o holiaduron bob mis.<br><br>Bydd yr holiaduron ar LPA a ddychwelir yn cael eu cofnodi'n barhaus gan aelodau'r tîm Profiad Cwsmeriaid ac Ymchwil ar daenlen Excel, a chaiff y data eu storio ar yriannau OPG. | Y nod yw sicrhau sgôr mewn arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid o 80% neu fwy. Cafodd OPG sgôr o 78% ar ddiwedd y flwyddyn. |

ISBN 978-1-4741-2053-1

9 781474 120531